# Diffygion yn nhrefniadau llywodraethu a goruchwylio Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent mewn perthynas â chwmni y mae'r Cyngor yn berchen arno, Silent Valley Waste Services Limited

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2720A2021-22

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. This document is also available in English.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu a goruchwylio Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent mewn perthynas â chwmni y mae'r Cyngor yn berchen arno, Silent Valley Waste Services Limited rhwng 2003 a 2017. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir, yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


Adroddiad cryno

- Cyflwyniad 5
- Casgliad ar y cyfan 6
- Casgliad manwl 7
- Argymhellion 8
- Y camau nesaf 9

Adroddiad manwl

Cefndir yr archwiliad 10

- Fe wnaeth y Cyngor sefydlu Silent Valley fel cwmni gwaredu gwastraff a berchnogir gan y Cyngor ym 1991 11
- Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Morrison, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn sylfaenol ddiffygiol; ni chafodd y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol eu cymeradwyo'n briodol ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi bod yn groes i'r rheoliadau pensiwn a oedd mewn grym ar y pryd 12
- Fe dorrodd y Cyngor reoliadau caffael yr UE pan estynnodd ei gontract 15 mlynedd gyda Silent Valley yn 2008 ac eto yn 2010 22
- Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2011 yn ddiffygiol, ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi torri rheoliadau pensiwn 25

Mae'n aneglur sut y cafodd Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor ar y pryd eu henwebu fel cyfarwyddwyr cyflogedig Silent Valley yn 2012, ac ni chafodd eu penodiadau eu cymeradwyo yn unol â chyfansoddiad y Cyngor 32

Methodd y Cyngor â sefydlu na gweithredu trefniadau llywodraethu digonol nac effeithiol i reoli ei berthynas â Silent Valley o 2012 ymlaen 40

Cafodd swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley fel cyfarwyddwyr yn 2012 gydnabyddiaeth ariannol trwy gyflogres y Cyngor ar gyfer y penodiadau hyn ar gyfradd a bennwyd gan Fwrdd Silent Valley, ond ni wnaeth y Cyngor adfer cost lawn y penodiadau gan Silent Valley ac fe allai'r modd y cafodd y gydnabyddiaeth ariannol ei thrin fel tâl pensiynadwy fod wedi torri rheoliadau pensiwn 47

Ar 3 Ebrill 2012 fe bleidleisiodd aelodau Bwrdd Silent Valley a oedd yn ymadael i wneud taliadau rhodd o £11,569 i bob aelod o'r Bwrdd a oedd yn ymddeol yn groes i ddogfen lywodraethu Silent Valley, er bod pawb heblaw un o'r rhai a oedd yn bresennol yn mynd i elwa'n ariannol o'r penderfyniad 52

Rhwng 2013 a 2016 fe wnaed newidiadau i aelodaeth Bwrdd Silent Valley, ond fe barhawyd i drin cydnabyddiaeth ariannol gan Silent Valley fel tâl pensiynadwy dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 58

Fe wnaeth Prif Swyddog Cyllid y Cyngor ar y pryd a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor, a hwythau'n gweithredu yn eu rolau fel aelodau o Fwrdd Silent Valley, gymeradwyo taliad o £38,737 i Reolwr Cyffredinol Silent Valley, Mr James, pan derfynwyd ei gyflogaeth ar 31 Awst 2016. Fodd bynnag, nid oedd gan Mr James hawl gytundebol i'r taliad hwn ac nid yw'n glir sut yr oedd y penderfyniad i gymeradwyo'r taliad yn un a oedd er lles y Cyngor 60

Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, yn Rheolwr Cyffredinol newydd Silent Valley ym mis Mehefin 2016 yn anghystadleuol ac yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd perthnasol 71

Ers dechrau fy archwiliad, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn 76

Atodiad 1 – Hysbyseb Silent Valley yn y Rhwydwaith Canolfannau Gwaith ar gyfer Rheolwr Cyffredinol newydd 80

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Fe sefydlwyd Silent Valley Waste Services Limited (Silent Valley) fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (CGGALl) Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ym 1991. Y Cyngor yw perchennog y Cwmni ac mae'n berchen ar 100% o'r cyfranddaliadau ynddo. Mae'r asedau a ddelir gan Silent Valley yn asedau cyhoeddus, a chaiff materion ariannol Silent Valley eu cydgrynhoi â chyfrifon blynyddol y Cyngor.

2 Er mai'r Cyngor oedd yn berchen ar Silent Valley, roedd y Cwmni'n gweithredu ar hyd braich i ffwrdd o'r Cyngor tan 2012. Roedd gan Silent Valley Fwrdd Cyfarwyddwyr ac, er bod y Cyngor yn gallu penodi cyfarwyddwyr i'r Bwrdd tan 2012, y Cwmni oedd yn penodi'r mwyafrif o'r cyfarwyddwyr. Roedd y berthynas rhwng y Cyngor a Silent Valley yn cael ei llywodraethu gan gontract 15 mlynedd a ddyfarnwyd ym 1994. Fe estynnwyd dyddiad terfyn y contract o 2009 i 2012.

3 Yn 2012, fe benderfynodd y Cyngor na fyddai Silent Valley yn gweithredu fel Cwmni hyd braich mwyach ac y byddai'r Cyngor yn arfer rheolaeth ar Silent Valley a fyddai'n debyg i'r rheolaeth a oedd ganddo dros ei adrannau mewnol. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn fe wnaeth y Cyngor ddiwygio dogfennau llywodraethu Silent Valley a phenodi uwch swyddogion o'r Cyngor yn gyfarwyddwyr Silent Valley i roi mwyafrif i'r Cyngor ar Fwrdd Silent Valley.

4 Yn 2017, cafodd y Cyngor lythyr chwythu'r chwiban oddi wrth un o'i gyflogeion a oedd yn codi pryderon difrifol ynghylch goruchwyliaeth y Cyngor ar Silent Valley ac ymddygiad rhai o uwch swyddogion y Cyngor mewn perthynas â Silent Valley. Fe ddaeth Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro'r Cyngor ar y pryd â'r llythyr i sylw fy archwilwyr a gofynnodd iddynt gynnal archwiliad i archwilio'r materion a godwyd. Fe dynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro'r Cyngor sylw swyddogion Heddlu Gwent at y pryderon hefyd.

5 Fe wnaeth fy archwilwyr nifer o ymholiadau archwilio ac fe ddadansoddon nhw beth wmbredd o ddogfennaeth. Yn seiliedig ar y gwaith hwn, fe ymgynghoron nhw â Heddlu Gwent i ganfod a oedd yr Heddlu'n dymuno cychwyn ei ymchwiliad ei hun. Roeddwn o'r farn bod angen ymgynghori â'r Heddlu gan y gallai rhai o'r honiadau a oedd wedi'u cynnwys yn yr ohebiaeth gael eu hystyried yn honiadau o droseddu. Nid oes gennyf ddyletswydd statudol benodol i ymchwilio i honiadau o dwyll na throseddoldeb o fath arall nac amhriodoldeb, ac felly nid yw fy archwilwyr yn ymchwilio i honiadau o'r fath yn ôl yr arfer. Mae fy archwilwyr yn archwilio honiadau o'r fath dim ond i'r graddau yr ymddengys fod archwilio i'r troseddoldeb honedig yn hwyluso'r broses o gyflawni neu'n ffafriol i gyflawni fy nyletswyddau statudol a, hyd yn oed wedyn, dim ond os yw'n amlwg na fyddai unrhyw waith archwilio a wneir yn niweidiol i ymchwiliad a gynhelir at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

6 Ym mis Gorffennaf 2018, wedi i Heddlu Gwent gynnal archwiliad o'r wybodaeth a oedd ar gael, fe benderfynodd gynnal ei ymchwiliad ei hun. Fe benderfynais y

dylwn atal fy archwiliad innau am y tro i osgoi'r posibilrwydd y gallai fod yn niweidiol i ymchwiliad yr heddlu.

7 Ar ôl ceisio cyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron, ym mis Medi 2019 fe benderfynodd Heddlu Gwent beidio â dwyn cyhuddiadau troseddol yn erbyn unrhyw unigolion. Felly roeddwn yn gallu ailgychwyn fy archwiliad o faterion a oedd yn ymwneud â Silent Valley, ac rwyf wedi nodi fy nghanfyddiadau a'm casgliad yn yr adroddiad hwn.

# Casgliad ar y cyfan

8 Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus sydd yn ei ofal yn cael eu diogelu a bod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r ddyletswydd honno'n berthnasol nid dim ond i adnoddau a ddefnyddir yn uniongyrchol gan y Cyngor, ond mae'n berthnasol lle mae'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Y Cyngor sy'n llwyr berchen ar Silent Valley, ac mae'r asedau a weinyddir gan Silent Valley yn asedau cyhoeddus. Felly dylai'r Cyngor fod wedi sefydlu trefniadau llywodraethu a goruchwylio cadarn ac effeithiol mewn perthynas â'i berthynas â Silent Valley. Daeth y ddyletswydd hon yn gryfach byth yn 2012 pan benderfynodd y Cyngor y dylai Silent Valley ddod yn gwmni a reolir gan y Cyngor.

9 Fe wnaeth fy archwiliad fwrw golwg ar drefniadau llywodraethu a goruchwylio'r Cyngor mewn perthynas â Silent Valley Waste Services Limited a chanfod bod diffygion sylweddol yn y trefniadau hynny rhwng 2003 a 2017 pan ddechreuodd fy archwiliad.

10 Fy nghasgliad ar y cyfan yw bod y Cyngor wedi methu â sefydlu trefniadau cadarn ac effeithiol mewn perthynas â'i berthynas â Silent Valley trwy gydol y cyfnod yr oedd fy archwiliad yn ymwneud ag ef. Canfu'r archwiliad bryderon sylweddol ynghylch digonolrwydd trefniadau'r Cyngor. Roedd y pryderon hyn yn rhychwantu sawl blwyddyn ac maent yn cynnwys canfyddiadau bod y Cyngor wedi methu â gwneud y canlynol:

- cymeradwyo trefniadau cyflog a phensiwn yn gywir mewn perthynas â swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley;
- cydymffurfio â rheoliadau caffael mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan Silent Valley;
- sicrhau bod penodiadau'r Cyngor i Fwrdd Silent Valley yn cydymffurfio â chyfansoddiad y Cyngor;
- sefydlu trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol mewn perthynas â Silent Valley o 2012 ymlaen i sicrhau atebolrwydd am ddefnyddio adnoddau cyhoeddus;
- sefydlu trefniadau priodol i reoli gwrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley gan

olygu o ganlyniad bod y swyddogion hynny wedi bod yn agored i honiadau bod rhai o'u gweithredoedd wedi'u cymell gan hunan-fudd;

- sicrhau bod penderfyniadau i wneud taliadau terfynu i gyfarwyddwyr Silent Valley yn unol â'r gyfraith a dogfen lywodraethu Silent Valley; a
- sefydlu trefniadau cystadleuol a chadarn ar gyfer recriwtio Rheolwr Cyffredinol newydd Silent Valley (swyddog uchaf y cwmni o ran rheng) yn 2016.

11 Mae'n dda gennyf gydnabod bod y Cyngor wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion yn ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn perthynas â Silent Valley. Caiff y camau gweithredu hyn eu nodi ym **mharagraffau 253 i 272**. Serch hynny, rwy'n dal i bryderu bod y materion a nodir yn yr adroddiad hwn wedi digwydd dros gyfnod mor faith, eu bod yn ymwneud â nifer o uwch swyddogion y Cyngor a'u bod wedi parhau heb gael eu herio yn ôl pob golwg nes iddynt gael eu dwyn i sylw'r Cyngor gan chwythwr chwiban. Mae hyn yn codi cwestiwn difrifol ynglŷn â diwylliant sefydliadol y Cyngor yn ystod y cyfnod y mae a wnelo'r adroddiad hwn ag ef, ac yn fy marn i byddai'n ddoeth i'r Cyngor ei argyhoeddi ei hun nad yw'r diwylliant a gyfrannodd at y diffygion a ganfuwyd gan fy archwiliad yn bodoli mwyach.

# Casgliadau manwl

- Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Morrison, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn sylfaenol ddiffygiol. Ni chafodd y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol eu cymeradwyo'n briodol ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi bod yn groes i'r rheoliadau pensiwn a oedd mewn grym ar y pryd.
- Fe dorrodd y Cyngor reoliadau caffael yr UE pan estynnodd ei gontract 15 mlynedd gyda Silent Valley yn 2008 ac eto yn 2010.
- Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2011 yn ddiffygiol, ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi torri rheoliadau pensiwn.
- Mae'n aneglur sut y cafodd Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor ar y pryd eu henwebu fel cyfarwyddwyr cyflogedig Silent Valley yn 2012, ac ni chafodd eu penodiadau eu cymeradwyo yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.
- Methodd y Cyngor â sefydlu na gweithredu trefniadau llywodraethu digonol nac effeithiol i reoli ei berthynas â Silent Valley o 2012 ymlaen
- Cafodd swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley fel cyfarwyddwyr yn 2012 gydnabyddiaeth ariannol trwy gyflogres y Cyngor ar gyfer y penodiadau hyn ar gyfradd a bennwyd gan Fwrdd Silent Valley, ond ni wnaeth y Cyngor adfer cost lawn y penodiadau gan Silent Valley ac fe

allai'r modd y cafodd y gydnabyddiaeth ariannol ei thrin fel tâl pensiynadwy fod wedi torri rheoliadau pensiwn

- Ar 3 Ebrill 2012 fe bleidleisiodd aelodau Bwrdd Silent Valley a oedd yn ymadael i wneud taliadau rhodd o £11,569 i bob aelod o'r Bwrdd a oedd yn ymddeol yn groes i ddogfen lywodraethu Silent Valley, er bod pawb heblaw un o'r rhai a oedd yn bresennol yn mynd i elwa'n ariannol o'r penderfyniad
- Rhwng 2013 a 2016 fe wnaed newidiadau i aelodaeth Bwrdd Silent Valley, ond fe barhawyd i drin cydnabyddiaeth ariannol gan Silent Valley fel tâl pensiynadwy dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Fe wnaeth Prif Swyddog Cyllid y Cyngor ar y pryd a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor, a hwythau'n gweithredu yn eu rolau fel aelodau o Fwrdd Silent Valley, gymeradwyo taliad o £38,737 i Reolwr Cyffredinol Silent Valley, Mr James, pan derfynwyd ei gyflogaeth ar 31 Awst 2016. Fodd bynnag, nid oedd gan Mr James hawl gytundebol i'r taliad hwn ac nid yw'n glir sut yr oedd y penderfyniad i gymeradwyo'r taliad yn un a oedd er lles y Cyngor.
- Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, yn Rheolwr Cyffredinol newydd Silent Valley ym mis Mehefin 2016 yn anghystadleuol ac yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd perthnasol.

12 O dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), mae'n ofynnol i mi ystyried a ddylwn, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod fy archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Yng ngoleuni'r diffygion sylweddol a ganfuwyd gan yr archwiliad, rwyf wedi penderfynu y dylwn ddwyn y materion hyn i sylw'r cyhoedd trwy gyflwyno adroddiad dan adran 22 o Ddeddf 2004.

13 Rwy'n cydnabod bod y Cyngor, ers 2017, wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd ac i gryfhau ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn perthynas â Silent Valley yn sylweddol. Ceir manylion y camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor ym **mharagraffau 253 i 272** yn yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

14 Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r Cyngor o ran ei berthynas â Silent Valley yn annigonol ac aneffeithiol, ac mai felly yr oeddent wedi bod am nifer o flynyddoedd. Mae'r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli diffygion difrifol iawn ac yn adlewyrchu'n wael ar y Cyngor. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod y Cyngor, ers 2017, wedi sefydlu trefniadau gwell i gryfhau ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn perthynas â Silent Valley. Felly rwyf wedi penderfynu gwneud un argymhelliad yn unig yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad**

Dylai'r Cyngor gomisiynu adolygiad i geisio sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn perthynas â chwmnïau eraill y mae ganddo fudd ynddynt yn ddigonol ac effeithiol, ac nad yw'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhai mwy cyffredinol.

# Y camau nesaf

15 Yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor erbyn **27 Chwefror 2022** h.y. o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

16 O leiaf saith niwrnod cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned gan nodi:

- amser a lleoliad y cyfarfod;
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
- disgrifiad o gynnwys yr adroddiad.

17 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau gweithredu (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

18 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod lleol.

# Adroddiad manwl

## Cefndir yr archwiliad

19 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae dyletswydd statudol arnaf i archwilio cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor). Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys fy argyhoeddi fy hun bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gennyf yr awdurdod statudol i ystyried a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus y mae wedi'u darparu ar gyfer sefydliadau trydydd parti'n cael eu defnyddio'n dda. Mae hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau cyhoeddus gan gwmnïau a berchnogir a/neu a reolir gan y Cyngor.

20 Cwmni y mae'r Cyngor yn llwyr berchen arno yw Silent Valley Waste Services Limited (Silent Valley) ac, yn 2017, cafodd y Cyngor ohebiaeth a oedd yn codi pryderon difrifol ynghylch ei oruchwyliaeth ar y cwmni, ac ymddygiad rhai o uwch swyddogion y Cyngor mewn perthynas ag ef. Daeth Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro'r Cyngor ar y pryd â'r llythyr i sylw fy archwilwyr a gofynnodd iddynt gynnal archwiliad.

21 Gofynnais i'm harchwilwyr gynnal archwiliad i archwilio'r pryderon a godwyd ac i roi ystyriaeth fwy eang i ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r Cyngor mewn perthynas â Silent Valley yn ystod y cyfnod rhwng 2003 a dechrau'r archwiliad yn 2017. O ystyried bod cryn dipyn o amser wedi mynd heibio ers ymgorffori Silent Valley, a'r anhawster o ran dod o hyd i ddogfennaeth, nid ofynnais i'm harchwilwyr archwilio trefniadau goruchwylio a llywodraethu'r Cyngor mewn perthynas â Silent Valley rhwng 1992 a 2003 o fewn cwmpas fy archwiliad.

22 Fel a nodir ym **mharagraffau 4 i 7**, roedd angen atal fy archwiliad am 14 mis tra'r oedd Heddlu Gwent yn cynnal ei ymchwiliad ei hun.

23 Yn ystod yr archwiliad fe wnaeth fy archwilwyr geisio tystiolaeth, archwilio a dadansoddi peth wmbredd o ddogfennaeth gyfoes, a cheisio rhagor o wybodaeth gan y Cyngor, Silent Valley a nifer o unigolion y bu ganddynt rywfaint o ymwneud â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

24 Canfu'r gwaith archwilio a wnaed gan fy archwilwyr bryderon ynghylch nifer o faterion cyfreithiol. Fe geisiais gyngor cyfreithiol allanol ynghylch y materion hyn, ac mae'r canfyddiadau a'r casgliadau a nodir yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â materion cyfreithlondeb yn gyson â'r cyngor cyfreithiol a gefais.

25 Ers i'm harchwiliad ddechrau, mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau gweithredu i wella'i drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn perthynas â Silent Valley, a cheir manylion y camau gweithredu hyn ym **mharagraffau 253 i 272** yn yr adroddiad hwn.

26 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n codi o'm harchwiliad.

# Fe wnaeth y Cyngor sefydlu Silent Valley fel cwmni gwaredu gwastraff a berchnogir gan y Cyngor ym 1991

27 Fe sefydlwyd Silent Valley fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (CGGALI) y Cyngor ym 1991. Y Cyngor yw perchennog y Cwmni ac mae'n berchen ar 100% o'r cyfranddaliadau ynddo. Mae'r asedau a ddelir gan Silent Valley yn asedau cyhoeddus, a chaiff materion ariannol Silent Valley eu cydgrynhoi â chyfrifon blynyddol y Cyngor. Nododd Silent Valley yn ei adroddiadau fod ganddo incwm gweithredu o ychydig dros £1 filiwn yn ei gyfrifon yn 2017-18 a 2018-19.

28 Fe sefydlwyd Silent Valley gyda dau gyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor. Y cyfarwyddwyr hyn oedd Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd (a wasanaethodd fel cyfarwyddwr tan fis Mehefin 1992) ac un o swyddogion eraill y Cyngor, Mr James (a benodwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr y Cyngor ym mis Ebrill 1992). Ni chafodd y swyddogion dan sylw o'r Cyngor unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am weithredu yn eu cymhwyster fel cyfarwyddwyr Silent Valley.

29 Ym mis Mehefin 1992, fe ymddiswyddodd Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd fel cyfarwyddwr Silent Valley ac fe benododd y Cwmni ei hun bedwar cyfarwyddwr newydd. Roedd Erthyglau Cymdeithasiad Silent Valley yn nodi mai pump oedd uchafswm y cyfarwyddwyr y gellid eu penodi i'r Bwrdd (yn amodol ar benderfyniad fel arall gan y Cyngor), ac mai dim ond un o bob pump o'r cyfarwyddwyr yr oedd y Cyngor yn gallu ei benodi, h.y. un cyfarwyddwr. Rhwng mis Mehefin 1992 ac 15 Mai 2012 dim ond un cyfarwyddwr oedd wedi'i benodi gan y Cyngor i Fwrdd Silent Valley (tan fis Mehefin 1992, fel a nodir ym **mharagraff 28**, roedd dau o gyfarwyddwyr Silent Valley wedi'u penodi gan y Cyngor). Felly nid oedd gan y Cyngor bleidlais fwyafrifol ar Fwrdd Silent Valley yn ystod y cyfnod hwn.

30 Yn unol â dogfen lywodraethu Silent Valley, y Memorandwm a'r Erthyglau Cwmni, roedd y Cyngor yn gallu pennu'r gydnabyddiaeth ariannol a oedd i'w thalu i gyfarwyddwyr Silent Valley trwy benderfyniad cyffredin. Yn ymarferol, fodd bynnag, fel a nodir yn yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr Silent Valley a hwythau'n cwrdd fel Bwrdd oedd yn pennu'r gydnabyddiaeth a oedd i'w thalu am y rôl. Tan 2003, bu Silent Valley yn talu ffi mewn perthynas â chyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cyngor i'r Cyngor. Nid oedd y cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor yn cael y ffi cyfarwyddwr yma.

31 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 25 Mehefin 1992, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad yn enw ei Brif Weithredwr ar y pryd a oedd yn argymell bod Mr James yn cael cynnydd o £2,148 yn ei gyflog gan y Cyngor i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol a oedd yn deillio o'i benodiad gyda Silent Valley. Roedd y codiad cyflog a argymhellwyd yn sylweddol is na'r ffi cyfarwyddwr a bennwyd gan Silent Valley ac a oedd yn cael ei thalu i'r Cyngor. Gan bod y codiad cyflog hwn i fod i adlewyrchu dyletswyddau ychwanegol ar ran y Cyngor, cafodd y swm a bennwyd

gan y Cyngor ei ymgorffori yng nghyflog pensiynadwy Mr James fel Cyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr y Cyngor. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r cynnig hwn.

32 Ar 8 Awst 1994, dyfarnodd y Cyngor gontract 15 mlynedd i Silent Valley i waredu gwastraff a oedd yn cael ei gasglu yn ardal y Cyngor, ac i reoli a gweithredu safleoedd amwynderau dinesig.

# Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Morrison, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn sylfaenol ddiffygiol; ni chafodd y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol eu cymeradwyo'n briodol ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi bod yn groes i'r rheoliadau pensiwn a oedd mewn grym ar y pryd

## Roedd y broses a arweiniodd at benodi Mr Morrison gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn sylfaenol ddiffygiol

33 Fe ymddeolodd Mr James fel Cyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr y Cyngor ym mis Mawrth 2001. Fodd bynnag, fe benderfynodd aelodau'r Cyngor gadw Mr James fel yr aelod o'r Bwrdd a oedd wedi'i benodi gan y Cyngor tan fis Tachwedd 2002. Rwy'n nodi bod Erthyglau Cwmni Silent Valley yn dweud y bydd swydd cyfarwyddwr yn dod i ben yn awtomatig ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr a benodwyd i Fwrdd Silent Valley gan y Cyngor os bydd yn rhoi'r gorau i fod yn un o gyflogeion neu aelodau'r Cyngor. Mewn gwirionedd, fe arhosodd Mr James fel cyfarwyddwr ar Fwrdd Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor mewn ffaith tan 11 Rhagfyr 2002. Yn fy marn i, mae'n ansicr a oedd penodiad Mr James fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley rhwng mis Mawrth 2001 a mis Rhagfyr 2002 yn unol ag Erthyglau Silent Valley.

34 Ar 27 Chwefror 2003, lai na 3 mis ar ôl i'w rôl fel cyfarwyddwr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor ddod i ben, fe benodwyd Mr James gan Fwrdd Silent Valley fel un o'r cyfarwyddwyr a benodwyd ganddynt hwy eu hunain. Penodwyd Mr James yn Ysgrifennydd Cwmni Silent Valley ar 20 Tachwedd 2003. Dywedodd Mr James wrth fy archwilwyr ei fod wedi'i benodi gan Silent Valley fel 'cyfarwyddwr â chyfrifoldebau ariannol arbennig' yn 2004 cyn dod yn Rheolwr Cyffredinol Silent Valley yn 2006.

35 Ar 11 Rhagfyr 2002, cyfarfu Bwrdd Silent Valley. Yn bresennol roedd dau aelod o'r Cyngor, y Cynghorydd McCarthy a'r Cynghorydd Welch, a oedd wedi cael ei wahodd i'r cyfarfod i gael y taliad difidend blynyddol a oedd yn ddyledus i'r Cyngor gan Silent Valley. Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y cynghorwyr hyn yn “cynrychioli cyfranddalwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent”. Mae'r cofnodion hefyd yn nodi bod y Cynghorydd McCarthy “wedi hysbysu'r cadeirydd mai penderfyniad y Cyngor Llawn oedd y dylai ei Brif Weithredwr cyfredol, Robin Morrison, gael ei benodi'n Gyfarwyddwr yr Awdurdod Rheolaethol yn lle [Mr James]”. Mae'r cofnodion yn nodi y “bu i'r Cadeirydd fynegi ei syndod a'i siom bod y Cyngor wedi gweithredu yn y fath fodd yn enwedig heb hyd yn oed fod yn ddigon cwrtais i drafod ei fwriadau neu o leiaf roi rhybudd iddo ymlaen llaw ynghylch beth oeddent cyn y cyfarfod”. Mae'r cofnodion yn nodi y bu i'r Cynghorydd McCarthy “ailadrodd mai penderfyniad y Cyngor ydoedd a'i fod ef a'i gydweithiwr dan gyfarwyddyd i weithredu ar y penderfyniad hwn”. Gan gydnabod hawl y Cyngor i benodi cyfarwyddwr i Fwrdd Silent Valley, fe benodwyd Mr Morrison yn unol â'r argymhelliad. Mae cofnodion Tŷ'r Cwmnïau'n dangos bod Mr Morrison wedi llofnodi i dderbyn y penodiad i Fwrdd Silent Valley ar 20 Rhagfyr 2002.

36 Rwy'n ystyried bod y digwyddiadau a arweiniodd at benodi Mr Morrison yn achosi pryder mawr. Er bod Bwrdd Silent Valley wedi cael ei hysbysu ar 11 Rhagfyr 2002 gan y Cynghorydd McCarthy bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu y dylai Mr Morrison gael ei benodi i Fwrdd Silent Valley, nid felly yr oedd hi.

37 Ar 9 Ionawr 2003, bron i fis ar ôl i'r Cynghorydd McCarthy hysbysu Bwrdd Silent Valley bod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo penodiad Mr Morrison yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley, gofynnwyd i'r Cyngor Llawn gymeradwyo argymhelliad mewn adroddiad gan Brif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor ar y pryd, Mr John, bod Mr Morrison yn dod yn gyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor i Fwrdd Silent Valley.

38 Roedd adroddiad y Prif Swyddog Cyfreithiol yn nodi "yn 2001 roedd rhesymau da'n bodoli dros gadw [Mr James] fel Cyfarwyddwr yr Awdurdod. Fodd bynnag, yn awr mae'n werth penodi un o swyddogion yr Awdurdod i gyflawni'r rôl ac yn seiliedig ar ei wybodaeth, ei brofiad a'i arbenigedd yn y swyddogaeth gwaredu gwastraff, y Prif Weithredwr [Mr Morrison] yw'r swyddog amlwg i gyflawni'r rôl hon".

39 Roedd yr adroddiad yn nodi: “Caiff aelodau'r Bwrdd gydnabyddiaeth ariannol gan y Bwrdd ond bydd y gydnabyddiaeth ariannol gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Prif Weithredwr yn cael ei thalu i'r Cyngor. Bydd angen ystyried i ba raddau y dylai'r dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol sy'n codi o'r penodiad arwain at newid mewn cyflog”. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2003 yn nodi bod yr Aelodau wedi cytuno y dylai Mr Morrison gael ei benodi'n Gyfarwyddwr ar ran y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley ac y dylai adroddiad pellach gael ei ddarparu ar gyfer y Cyngor ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rôl.

40 Fel a nodir ym **mharagraff 35**, mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 11 Rhagfyr 2002 yn nodi bod y Cynghorydd McCarthy wedi dweud wrth Fwrdd Silent Valley mai “penderfyniad y Cyngor Llawn oedd y dylai ei Brif Weithredwr cyfredol,

Robin Morrison, gael ei benodi'n Gyfarwyddwr yr Awdurdod Rheolaethol yn lle [Mr James]". Fodd bynnag, nid felly yr oedd hi. Fe wnaed y penderfyniad i benodi Mr Morrison fel cyfarwyddwr y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Ionawr 2003. Rwy'n nodi bod y Cynghorydd McCarthy yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2003 pan gytunodd yr aelodau i benodi Mr Morrison. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn nodi bod y Cynghorydd McCarthy wedi hysbysu'r Cyngor bod Mr Morrison eisoes wedi cael ei benodi'n un o gyfarwyddwyr Silent Valley.

41 Mae'r Cynghorydd McCarthy yn haeru bod cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 11 Rhagfyr 2002 yn anghywir. Mae'n taeru na wnaeth hysbysu Bwrdd Silent Valley mai "penderfyniad y Cyngor Llawn" oedd penodi Mr Morrison yn un o Gyfarwyddwyr Silent Valley, ond yn hytrach ei fod wedi hysbysu Bwrdd Silent Valley bod "y Cyngor" wedi gwneud y penderfyniad.

42 Eglurodd y Cynghorydd McCarthy wrth fy archwilwyr ei fod ef a'r Cynghorydd Welch "fel Aelodau Gweithredol (Aelodau Cabinet) yn gweithredu ar ran y Cyngor ar gyfarwyddyd ac mewn ymgynghoriad ag Arweinyddiaeth a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor" a'i fod "yn gwneud yr hyn y gofynnwyd i mi ei wneud gan Arweinyddiaeth y Cyngor".

43 Mae'r Cyn-gynghorydd Welch wedi dweud wrth fy archwilwyr ei fod yn deall mai "y Tîm Arwain oedd yn gyfrifol am enwebiadau i gyrff allanol" a'i fod yn credu iddo gael ei wneud yn ymwybodol am y tro cyntaf o benderfyniad i enwebu Mr Morrison yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley mewn cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd rhwng Aelodau Gweithredol y Cyngor a'r Tîm Arwain Corfforaethol". Dywedodd wrth fy archwilwyr hefyd ei fod "heb gael fy ngwneud yn ymwybodol gan dîm arwain y Cyngor cyn cyfarfod Bwrdd Silent Valley nac ar ôl y cyfarfod y gallai fod unrhyw risg i'r ddau sefydliad pe bai'r aelod a benodwyd i'r Bwrdd gan y Cyngor yn cael ei newid cyn penderfyniad gan y Cyngor llawn".

44 Rwy'n derbyn y gall aelodau o Gabinet y Cyngor a swyddogion a oedd yn rhan o Dîm Arwain Corfforaethol y Cyngor fod wedi cael eu hysbysu ynghylch, fod wedi trafod neu hyd yn oed fod wedi penderfynu penodi Mr Morrison yn gyfarwyddwr a enwebwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley. Fodd bynnag, ni waeth sut y cafodd Mr Morrison ei enwebu ar gyfer y rôl hon, ni chafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â chyfansoddiad y Cyngor ac, yn fy marn i, ni ddylai'r Cynghorydd McCarthy fod wedi hysbysu Bwrdd Silent Valley bod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad o'r fath. Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi mai dim ond y Cyngor Llawn fydd yn arfer y swyddogaeth i benodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni bai bod y penodiad wedi cael ei ddirprwyo gan y Cyngor. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y swyddogaeth i benodi cyfarwyddwyr i Fwrdd Silent Valley wedi cael ei ddirprwyo gan y Cyngor, ac rwy'n nodi bod y penderfyniad i benodi Mr Morrison i Fwrdd Silent Valley wedi cael ei wneud mewn gwirionedd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Ionawr 2003. Yn fy marn i,

mae hyn yn awgrymu'n gryf nad oedd trefniant dirprwyo o'r fath yn ei bodoli. Ar ben hynny, os oedd penderfyniad wedi cael ei wneud mewn modd dilys dan bwerau wedi'u dirprwyo i benodi Mr Morrison i'r rôl ar Fwrdd Silent Valley, ni fyddai unrhyw ddiben gofyn i'r Cyngor Llawn wneud yr un penderfyniad ar 9 Ionawr 2003.

- mae'n ofynnol cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau'r Cyngor pan wneir y penderfyniadau hynny, naill ai yng nghofnodion y cyfarfod y gwnaed y penderfyniad ynddo, neu fel adroddiad ar benderfyniad pan wneir y penderfyniad gan aelod Cabinet unigol neu gan un o swyddogion y Cyngor dan bwerau wedi'u dirprwyo. Nid oes gan gyfarfodydd anffurfiol rhwng swyddogion ac aelodau'r Cyngor unrhyw bwerau penderfynu. Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu unrhyw gofnod ysgrifenedig ar fy nghyfer i ddangos bod penderfyniad wedi cael ei wneud i benodi Mr Morrison yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley cyn cyfarfod Bwrdd Silent Valley a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2002.
- mae'r Cynghorydd McCarthy yn haeru na wnaeth hysbysu Bwrdd Silent Valley yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2002 mai "penderfyniad y Cyngor Llawn oedd y dylai ei Brif Weithredwr cyfredol, Robin Morrison, gael ei benodi'n Gyfarwyddwr yr Awdurdod Rheolaethol" fel a nodir yn y cofnodion. Fodd bynnag, rwy'n ystyried ei bod yn annhebygol mai gwall ar ran y cofnodwr oedd defnyddio'r term "Cyngor Llawn". Mae hwn yn derm penodol iawn y byddai'n annhebygol yn fy marn i ei fod wedi cael ei nodi yn y cofnodion oni bai ei fod wedi cael ei ddefnyddio'n benodol yng nghyfarfod Bwrdd Silent Valley.

45 Mae penodiad Mr Morrison yn gyfarwyddwr a enwebwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley heb gydsyniad y Cyngor yn broblemus am y rhesymau canlynol:

- pe bai Mr Morrison wedi gwneud unrhyw beth arwyddocaol yn ei rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn y cyfnod rhwng 11 Rhagfyr 2002 a 9 Ionawr 2003 (y cyfnod y bu'n gwasanaethu fel un o Gyfarwyddwyr Silent Valley heb gytundeb y Cyngor), byddai wedi gweithredu heb awdurdod priodol, gan achosi risg i'r Cyngor a Silent Valley o bosibl.
- mae'n dangos llywodraethu gwael ar ran y Cyngor a Silent Valley.
- mae'n dangos ymddygiad diffygiol gan unigolion.

46 Dywedodd Mr Morrison wrth fy archwilwyr nad yw'n gallu egluro pam fod ei benodiad fel un o Gyfarwyddwyr Silent Valley wedi dechrau ym mis Rhagfyr 2002 o ystyried bod cyfarfod y Cyngor Llawn a gymeradwyodd ei benodiad heb ddigwydd tan 9 Ionawr 2003. Fodd bynnag, rwy'n ystyried ei bod yn amlwg mai'r rheswm pam y dechreuodd y penodiad ym mis Rhagfyr 2002 oedd am bod y Cynghorydd McCarthy wedi hysbysu Bwrdd Silent Valley yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2002 bod y Cyngor wedi cymeradwyo penodiad Mr Morrison. Ar ben hynny, rwyf wedi fy argyhoeddi bod Mr Morrison yn ymwybodol o'r penodiad ac wedi derbyn y penodiad cyn cyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2003. Fel a nodir ym

**mharagraff 35**, fe lofnododd Mr Morrison ffurflen benodi ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau ar 20 Rhagfyr 2002. Cafodd y ffurflen hon ei chydlofnodi gan Ysgrifennydd Cwmni Silent Valley ar y pryd ar 24 Rhagfyr 2002, a'i ffeilio'n ffurfiol gan Dŷ'r Cwmnïau ar 3 Ionawr 2003.

47 Mae Mr Morrison yn haeru na fu'n rhan o wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch Silent Valley ac na fynychodd gyfarfodydd Bwrdd Silent Valley tan ar ôl y cyfarfod ar 9 Ionawr 2003 pan wnaeth y Cyngor Llawn gymeradwyo ei benodiad yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Mae Mr Morrison hefyd yn taeru na chwaraeodd unrhyw ran yn y broses a arweiniodd at gymeradwyo ei benodiad gan y Cyngor yn y cyfarfod ar 9 Ionawr 2003 ac mai "y Prif Swyddog Cyfreithiol ymdriniodd â'r holl faterion llywodraethu a oedd yn deillio o'r penodiad". Serch hynny, rwy'n ystyried, pan ddaeth Mr Morrison yn ymwybodol bod y Cyngor i fod i ystyried ei benodi'n un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr, y dylai Mr Morrison fod wedi hysbysu'r Cyngor ei fod eisoes wedi derbyn y penodiad cyn bod y Cyngor Llawn wedi gwneud y penderfyniad.

## Methodd y Cyngor â chymeradwyo'r gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Morrison mewn perthynas â'i benodiad i Fwrdd Silent Valley mewn modd priodol ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi bod yn groes i'r rheoliadau pensiwn

### Methodd y Cyngor â chymeradwyo swm y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Morrison mewn perthynas â'i benodiad i Fwrdd Silent Valley mewn modd priodol

48 Roedd adroddiad Prif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i gyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2003, a oedd yn argymell penodi Mr Morrison yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley, yn datgan "Caiff aelodau'r Bwrdd gydnabyddiaeth ariannol gan y Bwrdd ond bydd y gydnabyddiaeth ariannol gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Prif Weithredwr yn cael ei thalu i'r Cyngor. Bydd angen ystyried i ba raddau y dylai'r dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol sy'n codi o'r penodiad arwain at newid mewn cyflog".

49 Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cyngor hwn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn iawn yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2003. Yn y cyfarfod hwnnw, rhoddodd y Cyngor Llawn ystyriaeth i adroddiad pellach gan Brif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor ar y pryd. Roedd yr adroddiad yn dweud, "yn y gorffennol mae Archwilwyr Allanol y Cyngor wedi cydnabod y gall y dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag Aelodaeth o'r Bwrdd fod yn feichus. Mae felly'n briodol adlewyrchu'r dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol yng nghyflog y Prif Weithredwr. Cynigir felly bod y gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd gan ac a geir oddi wrth Silent Valley Waste Services Limited yn cael ei hychwanegu at gyflog y Prif Weithredwr". Argymhellodd y Prif Swyddog Cyfreithiol fod cyflog y Prif

Weithredwr yn cael ei addasu fel a nodwyd yn ei adroddiad. Er bod adroddiad y Prif Swyddog Cyfreithiol i gyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2003 yn nodi'r dyletswyddau cyffredinol yn ôl y Ddeddf Cwmnïau sy'n berthnasol i bob cyfarwyddwr cwmni, nid oedd yn nodi manylion ac union natur dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl gyda Silent Valley a fyddai'n cael ei chyflawni gan Mr Morrison. Mae felly'n aneglur sut y gallai'r Cyngor fod wedi ystyried i ba raddau yr oedd unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol yn cyfiawnhau newid i gyflog y Prif Weithredwr. Nid yn unig ni chafodd aelodau'r Cyngor eu hysbysu ynghylch manylion ac union natur y dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol, fel a nodir isod, ond ni chawsant eu hysbysu ynghylch, ac ni wnaethant gymeradwyo, swm y gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Morrison.

50 Mae Prif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor ar y pryd, Mr John, yn haeru bod "adroddiadau a oedd yn ymwneud â phenodi swyddogion yr Awdurdod i Fwrdd Silent Valley wastad yn cael eu drafftio a'u paratoi gan un o swyddogion Adran Adnoddau'r Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi yn ei enw [ef] ... o dan amgylchiadau arferol, mater i'r Gwasanaethau Democrataidd, swyddogaeth nad oedd gennyf fi unrhyw gyfrifoldeb amdani, oedd penodi cynrychiolwyr yr Awdurdod ar gyrff allanol". Er fy mod yn nodi sylw Mr John, rwy'n ystyried, lle cyflwynir adroddiad i aelodau'r Cyngor yn enw swyddog, bod dyletswydd ar y swyddog hwnnw i gadarnhau bod cynnwys yr adroddiad hwnnw'n gywir ac yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer aelodau iddynt allu gwneud penderfyniad deallus, ni waeth pwy ddrafftiodd yr adroddiad.

51 Mae cofnodion y cyfarfod ar 20 Chwefror 2003 yn nodi y penderfynwyd "derbyn yr adroddiad, ac addasu cyflog y Prif Weithredwr fel a nodwyd ynddo". Nid oedd yr adroddiad yn nodi'r swm a fyddai'n cael ei dalu i Mr Morrison am weithredu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Fodd bynnag, gan bod Bwrdd Silent Valley wedi penderfynu y byddai'r cwmni'n talu £9,360 y flwyddyn i'w gyfarwyddwyr, fe wnaeth cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn i'r cynnig bod "y gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd gan ac a geir oddi wrth [Silent Valley]" yn cael ei thalu i Mr Morrison arwain at dalu £9,360 y flwyddyn i Mr Morrison am gyflawni rôl cyfarwyddwr Silent Valley.

52 Yn unol ag Erthyglau Cwmni Silent Valley, roedd gan y Cyngor y pŵer i bennu cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr Silent Valley. Fodd bynnag, yn ymarferol, Bwrdd Silent Valley oedd yn pennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i gyfarwyddwyr Silent Valley.

53 Yn fy marn i roedd yn amhriodol i'r Cyngor ddibynnu ar benderfyniad Bwrdd Silent Valley ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor heb wybod beth oedd lefel y gydnabyddiaeth ariannol. Os oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel rhan o'i ddyletswyddau fel Prif Weithredwr y Cyngor, roedd yn golygu mai Bwrdd Silent Valley, yr oedd Mr Morrison yn aelod ohono, oedd yn pennu elfen o gyflog Mr Morrison fel un o swyddogion y Cyngor. Mae hyn yn ddiffyg difrifol mewn trefniadau llywodraethu ac yn achos sylweddol o wrthdaro buddiannau. Nid yw'n

amlwg i mi sut yr aethpwyd i'r afael â'r gwrthdaro buddiannau yma na pha un a aethpwyd i'r afael ag ef ai peidio.

54 Dywedodd Mr Morrison wrth fy archwilwyr fod "y polisi cydnabyddiaeth ariannol a oedd yn gysylltiedig â'r swydd wedi cael ei gytuno gan fy rhagflaenydd Mr James fel Cyfarwyddwr Rheolaethol pan oedd yn Gyfarwyddwr Cyllid/Dirprwy [Brif Weithredwr] y Cyngor. Roedd fy nghydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau wedi cael eu pennu gan ddefod ac arfer yn y Cyngor ac roeddent yn adlewyrchu'r ffaith bod ar y Cyngor eisiau talu i mi yn hytrach na bod Silent Valley yn gwneud hynny'n uniongyrchol ac yn ystyried y rôl fel rhan o'm dyletswyddau fel Prif Weithredwr"

55 Nid wyf yn cytuno'n llawn â safbwynt Mr Morrison ar y mater hwn am y rhesymau canlynol:

- Ni chafodd Mr Morrison gydnabyddiaeth ariannol am gyflawni'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn yr un ffordd â'i ragflaenydd yn y rôl, Mr James. Fel a nodir ym **mharagraff 31**, cafodd Mr James godiad cyflog o £2,148 gan y Cyngor i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol a oedd yn deillio o'i benodiad i Fwrdd Silent Valley. Roedd y codiad cyflog a argymhellwyd yn sylweddol is na'r ffi cyfarwyddwr yr oedd Silent Valley wedi penderfynu ei thalu i'w gyfarwyddwyr. Cafodd swm y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr James ei gymeradwyo gan y Cyngor. Yn achos Mr Morrison, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2003, penderfynwyd "ychwanegu'r gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd gan ac a geir oddi wrth Silent Valley Waste Services Limited at gyflog y Prif Weithredwr". Ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo swm y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Morrison.
- Mae Mr Morrison yn haeru bod telerau ac amodau'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley wedi "cael eu pennu gan ddefod ac arfer". Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad Prif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i gyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2003 sy'n nodi y "Caiff aelodau'r Bwrdd gydnabyddiaeth ariannol gan y Bwrdd ond bydd y gydnabyddiaeth ariannol gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Prif Weithredwr yn cael ei thalu i'r Cyngor. Bydd angen ystyried i ba raddau y dylai'r dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol sy'n codi o'r penodiad arwain at newid mewn cyflog". Fe wnaeth y Prif Swyddog Cyfreithiol nodi'n gywir bod angen penderfynu pa ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol y byddai'n ofynnol i Mr Morrison eu cyflawni o ganlyniad i'w rôl gyda Silent Valley, a sicrhau bod y swm a fyddai'n cael ei dalu i Mr Morrison yn gymesur â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol hyn. Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth o weithredu ar hyn.
- Mae Mr Morrison yn haeru ei fod yn cyflawni'r penodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel rhan o'i rôl fel Prif Weithredwr. Rwy'n derbyn mai dyma oedd bwriad y Cyngor o bosibl. Fodd bynnag, am y rhesymau a

nodir ym **mharagraff 61**, nid wyf wedi gallu fy argyhoeddi fy hun bod penodiad Mr Morrison fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn rhan o gyflogaeth Mr Morrison fel Prif Weithredwr y Cyngor.

56 Roedd cyfansoddiad y Cyngor yn nodi ei bod yn ofynnol bod swm y gydnabyddiaeth a fyddai'n cael ei thalu i Brif Swyddogion y Cyngor, ac unrhyw newid i'r swm hwnnw, yn cael ei bennu gan y Cyngor Llawn. Felly roedd yn ofynnol bod y swm a fyddai'n cael ei dalu i Mr Morrison am weithredu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Gan na chafodd aelodau eu hysbysu ynghylch y swm a fyddai'n cael ei dalu, rwy'n ystyried na wnaeth y Cyngor gydymffurfio â gofynion ei gyfansoddiad ei hun, ac na chafodd y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i Mr Morrison am weithredu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley ei chymeradwyo'n briodol.

## Fe arweiniodd methiant y Cyngor i sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol at ddiffyg eglurder wrth ystyried pa un a gydymffurfiwyd â rheoliadau pensiwn mewn perthynas â phenodiad Mr Morrison i Fwrdd Silent Valley

57 Roedd y Cyngor yn trin y swm a oedd yn cael ei dalu i Mr Morrison mewn perthynas â'i benodiad i Fwrdd Silent Valley fel tâl pensiynadwy o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fel pe bai'n rhan o'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor. Roedd y swm a oedd y cael ei dalu i Mr Morrison gan y Cyngor am gyflawni'r rôl gyda Silent Valley yn cael ei adfer gan Silent Valley trwy drefniant anfonebu. Yn ystod y cyfnod y bu Mr Morrison yn gwasanaethu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor (2003 – 2011), fe ysgwyddodd y Cyngor gostau eraill mewn perthynas â'r penodiad na chawsant eu hadfer gan Silent Valley. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £18,364.16 a dalwyd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)[1]
- costau straen pensiwn a oedd yn gyfanswm o £12,454.04 pan ddaeth cyflogaeth Mr Morrison gyda'r Cyngor i ben yn 2011[2]

[1] Drwy'r adroddiad hwn i gyd lle cyfeirir at y ffaith bod y Cyngor yn gwneud cyfraniadau pensiwn cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â swyddogion y Cyngor a oedd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr a benodwyd i Fwrdd Silent Valley, roedd y swyddogion dan sylw'n talu cyfraniadau pensiwn cyflogai i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â'u cydnabyddiaeth ariannol am eu rôl gyda Silent Valley.

[2] Mae costau straen pensiwn (a elwir yn aml yn gostau cyfalaf) yn digwydd lle ceir diffyg amlwg yn lefel dybiedig y cyllid y mae ei angen i ddarparu budd pensiwn penodol. Mae costau straen yn digwydd pan fo aelod yn tynnu ei fuddion i lawr yn gynharach na'r disgwyl.

- Cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr a dalwyd i CaThEM ac a oedd yn gyfanswm o £11,098.56[3]

58 Mae gennyf amheuaeth sylweddol a oedd gan y Cyngor yr awdurdod cyfreithiol i drin y swm a dalwyd i Mr Morrison mewn perthynas â'i benodiad i Fwrdd Silent Valley fel tâl pensiynadwy o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fel pe bai'r gydnabyddiaeth ariannol hon yn gysylltiedig â'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor.

59 Yn fy marn i, dim ond os oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel rhan o'i benodiad fel Prif Weithredwr y Cyngor yr oedd gan y Cyngor hawl i fabwysiadu'r dull a nodir ym **mharagraff 57**. Mae Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (Rheoliadau 1997) yn nodi bod "rhaid i berson sy'n aelod gweithredol mewn mwy nag un gyflogaeth wneud cyfraniadau ar gyfer pob un o'r cyflogaethau hynny". Felly, os oedd penodiadau Mr Morrison fel Prif Weithredwr ac fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn ddwy gyflogaeth ar wahân, nid oedd y Cyngor yn gyfreithlon yn gallu trin y gydnabyddiaeth ariannol am y penodiad i Fwrdd Silent Valley fel tâl pensiynadwy fel rhan o rôl Mr Morrison fel Prif Weithredwr. Gall cyfuno dwy gyflogaeth bensiynadwy ar wahân olygu bod yr aelod o'r cynllun pensiwn yn cael buddion uwch o'r cynllun pensiwn nag y mae ganddynt hawl i'w cael.

60 Nid wyf wedi gallu f'argyhoeddi fy hun bod penodiad Mr Morrison fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn rhan o gyflogaeth Mr Morrison fel Prif Weithredwr y Cyngor.

61 Mae penderfyniad y cyngor y dylid "ychwanegu'r gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd gan ac a geir oddi wrth Silent Valley Waste Services Limited at gyflog y Prif Weithredwr", a wnaed yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2003, yn awgrymu efallai mai bwriad y Cyngor oedd y byddai Mr Morrison yn cyflawni'r penodiad gyda Silent Valley fel rhan o'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr. Fodd bynnag, mae trefniadau'r Cyngor a sefydlwyd mewn perthynas â'r penodiad yn creu ansicrwydd sylweddol ai felly yr oedd hi mewn gwirionedd. Rwy'n nodi:

- fel a nodir ym **mharagraffau 48 i 56**, na chafodd y Cyngor Llawn ei hysbysu, ac na wnaeth gymeradwyo swm y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Morrison am gyflawni'r rôl gyda Silent Valley. Er y gallai'r Cyngor fod wedi pennu'r swm a fyddai'n cael ei dalu, yn ymarferol Bwrdd Silent Valley wnaeth y penderfyniad hwnnw. Fel a nodir ym **mharagraff 53**, os oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl cyfarwyddwr Silent Valley fel rhan o'i ddyletswyddau fel Prif Weithredwr y Cyngor, roedd hyn yn ddiffyg difrifol mewn trefniadau llywodraethu gan greu achos posibl o wrthdaro buddiannau

[3] Drwy'r adroddiad hwn i gyd lle cyfeirir at y ffaith bod y Cyngor yn gwneud cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr mewn perthynas â swyddogion y Cyngor a oedd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr a benodwyd i Fwrdd Silent Valley, roedd y swyddogion dan sylw'n talu cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogai mewn perthynas â'u cydnabyddiaeth ariannol am eu rôl gyda Silent Valley.

sylweddol. Fel arall, gan bod Bwrdd Silent Valley wedi pennu'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rôl gyda Silent Valley, gellid dehongli nad oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl fel rhan o'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor.

- bod y ffi am fod yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yr oedd y Cyngor yn ei thalu i Mr Morrison yn cael ei hailgodi ar Silent Valley. Os oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl fel rhan o'i swyddogaethau fel Prif Weithredwr y Cyngor, byddwn i wedi disgwyl i'r costau hyn gael eu hysgwyddo gan y Cyngor. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn nodi nad oedd y modd yr oedd y Cyngor yn trin costau mewn perthynas â'r penodiad i Fwrdd Silent Valley yn gyson, yn yr ystyr nad oedd costau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr yn cael eu hailgodi ar Silent Valley.
- bod ffeil cyflogai Mr Morrison yn cynnwys cyfarwyddyd dogfennol, wedi'i lofnodi ar ran y Pennaeth Personél, i addasu cyflog Mr Morrison. Mae'r cyfarwyddyd yn nodi "Enillion Cyfarwyddwr - Silent Valley Waste Services Ltd o £9,360 [y flwyddyn] i gael eu talu o 5/2/03 os gwelwch yn dda. Codiad cyflog i gael ei bennu yng nghyfarfod y bwrdd gan ddod i rym o 1 Gorffennaf, bob blwyddyn". Er bod adroddiad Prif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor a ystyriwyd gan gyfarfod y Cyngor Llawn ar 20 Chwefror 2013 yn argymell "ychwanegu'r gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd gan ac a geir oddi wrth Silent Valley Waste Services Limited at gyflog y Prif Weithredwr", fe barhaodd cyflog y Prif Weithredwr a chodiadau yn y cyflog hwnnw i gael eu pennu gan y Cyngor. Roedd y ffi am fod yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley a chodiadau yn y ffi honno'n cael eu pennu gan Fwrdd Silent Valley. Felly, o fis Chwefror 2003 ymlaen, roedd modd gwahaniaethu rhwng y swm a oedd yn daladwy i Mr Morrison mewn perthynas â'i swydd fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley a'i gyflog sylfaenol fel Prif Weithredwr y Cyngor, gan awgrymu bod Mr Morrison yn cael tâl am ddwy rôl ar wahân.
- os oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl fel cyfarwyddwr Silent Valley fel rhan o'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr, byddwn wedi disgwyl i'r Cyngor fod wedi pennu union natur y dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol yr oedd yn ofynnol iddo'u cyflawni fel Prif Weithredwr y Cyngor mewn perthynas â Silent Valley. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi cael ei wneud. Gallai hyn fod yn arwydd nad oedd Mr Morrison yn cyflawni'r rôl gyda Silent Valley fel rhan o'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr neu gallai'n syml fod yn arwydd o fethiant y Cyngor i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol mewn perthynas â'r penodiad.

62 Ar 2 Rhagfyr 2019 fe ysgrifennodd y Cyngor at Silent Valley gan ofyn iddo ad-dalu costau'r cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr yr oedd wedi'u hysgwyddo mewn perthynas â chyflogeion y Cyngor a oedd wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd hyn yn cynnwys costau a oedd yn ymwneud â swydd Mr Morrison fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley rhwng 2003 a 2011. Roedd y llythyr yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol allanol a gafwyd gan y Cyngor. Roedd y

cyngor cyfreithiol a gafodd y Cyngor yn seiliedig ar y casgliad y dylai penodiadau swyddogion y Cyngor, gan gynnwys Mr Morrison, i Fwrdd Silent Valley, fod wedi cael eu trin fel cyflogaethau ar wahân, ac y byddai wedi bod yn fwy priodol i Silent Valley fod wedi darparu ei drefniadau pensiwn ei hun mewn perthynas â'r rolau hyn trwy ei dderbyniad ei hun i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Felly mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad nad oedd y swyddogion dan sylw'n cyflawni eu rolau gyda Silent Valley fel rhan o'u prif gyflogaethau gyda'r Cyngor. Fodd bynnag, rwy'n nodi, er mai dyma yw safbwynt cyfredol y Cyngor, nad yw o anghenraid yn cynnig mewnwelediad i fwriad a dull y Cyngor ar y pryd.

63 Os nad oedd penodiad Mr Morrison yn rhan o'i rôl fel Prif Weithredwr y Cyngor, roedd y Cyngor yn torri Rheoliadau 1997 sy'n nodi bod "rhaid i berson sy'n aelod gweithredol mewn mwy nag un gyflogaeth wneud cyfraniadau ar gyfer pob un o'r cyflogaethau hynny". Gallai hyn fod wedi achosi i Mr Morrison gronni buddion pensiwn uwch nag yr oedd ganddo hawl gyfreithlon iddynt. Fodd bynnag, mae methiant y Cyngor i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol mewn perthynas â'r penodiad yn golygu bod ansicrwydd sylweddol a oedd y penodiad i Fwrdd Silent Valley yn rhan o'i gyflogaeth ynteu ar wahân i'w gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor.

64 Rwy'n cydnabod bod y sefyllfa'n aneglur ac mai dim ond Llys Barn allai benderfynu'n union a dorrwyd Rheoliadau 1997, ond yn fy marn i, rwy'n ystyried ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod y Rheoliadau wedi cael eu torri.

65 Rwy'n ystyried bod y diffyg sicrwydd ynghylch y mater hwn wedi deillio o fethiant y Cyngor i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer rheoli ei berthynas â Silent Valley, gan bennu manylion ac union natur dyletswyddau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr a benodwyd ganddo i Fwrdd Silent Valley, cymeradwyo cydnabyddiaeth ariannol, a rheoli gwrthdaro buddiannau.

## Fe dorrodd y Cyngor reoliadau caffael yr UE pan estynnodd ei gontract 15 mlynedd gyda Silent Valley yn 2008 ac eto yn 2010

66 Ym 1994 dyfarnodd y Cyngor gontract 15 mlynedd i Silent Valley i waredu gwastraff a gasglwyd yn ardal y Cyngor, ac i reoli a gweithredu safleoedd amwynderau dinesig. Roedd y contract i fod i ddod i ben ar 8 Awst 2009.

67 Ar 5 Mawrth 2008, fe wnaeth Pwyllgor Gweithredol y Cyngor ystyried adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd ar y pryd a oedd yn argymell y dylid estyn y contract am o leiaf ddwy flynedd o 8 Awst 2009. Fe wnaeth y Pwyllgor Gweithredol dderbyn yr argymhelliad hwn, ac fe estynnwyd y contract tan 8 Awst 2011.

68 Rhwng mis Medi 2009 a mis Awst 2010, yn dilyn estyn y contract, cafodd y Cyngor ymholiadau gan nifer o dendrwyr posibl ac ymgynghorwyr yn gofyn pryd fyddai

contract Silent Valley yn dod i ben a phryd fyddai cyfle i gystadlu am gontract i ddarparu'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan Silent Valley. Yn hwyr yn 2010, fe wnaeth y Cyngor (ac awdurdod lleol arall yng Nghymru) geisio cyngor cyfreithiol allanol ynghylch y cwestiwn a oedd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 ac "egwyddorion ehangach cyfraith yr UE (y Rheolau Caffael)" yn caniatáu estyn ei gontractau gwaredu gwastraff presennol tan 31 Mawrth 2012 heb eu hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) a chynnal ymarfer tendro cyhoeddus. Roedd y cyngor cyfreithiol a gafodd y Cyngor yn dod i'r casgliad canlynol:

- "Yn seiliedig yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer ni allwn ganfod sail gyfreithlon i estyn y contractau gwreiddiol yr ymrwymwyd iddynt rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ("CBSBG") a Silent Valley Waste Services Limited" ("Silent Valley"). Felly, byddai'n dilyn bod y modd yr ymrwymwyd i'r trefniadau contract cyfredol wedi torri'r Rheolau Caffael".
- "Mae'n amlwg y byddai unrhyw estyniad pellach i'r contractau presennol yn gadael y Cynghorau'n agored i'r risg o her i'r broses gaffael oni bai [eu] bod yn newid y trefniadau yn ôl yn drefniadau i "ddarparu'r gwasanaethau'n fewnol" (ac mae nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni hyn)."
- "Yn achos y contract rhwng CBSBG a Silent Valley byddai hyn yn golygu naill ai diwygio dogfennau cyfansoddiadol perthnasol y cwmni er mwyn dangos bod CBSBG yn arfer rheolaeth o ddydd i ddydd ar faterion y cwmni yn debyg i'r rheolaeth y mae'n ei harfer dros ei adrannau mewnol ei hun, gan sefydlu cwmni newydd a reolir yn llawn neu newid y gweithrediad i gyd yn ôl yn wasanaeth mewnol a ddarperir gan CBSBG.

69 Mae'r cyngor yn datgan hefyd, "o dan amgylchiadau lle mae cyngor yn ystyried gweithredu mewn modd yr ymddengys ei fod yn torri darpariaethau cyfreithiol (yma, y Rheolau Caffael) bydd angen cynnwys y Swyddog Monitro perthnasol ac ystyried a oedd angen iddo ef neu iddi hi gymryd unrhyw gamau gweithredu. Mae gan Swyddogion Monitro gyfrifoldeb statudol i hysbysu'r cyngor lle maent yn ystyried bod y cyngor wedi neu ei fod yn bwriadu dod i benderfyniad sy'n mynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol. Yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym ni ar hyn o bryd, byddai unrhyw estyniad i'r contractau presennol yn perthyn i'r categori hwn".

70 Fe wnaeth cyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2010 ystyried adroddiad gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor, Mr Parsons. Roedd yr adroddiad yn nodi cynnig i estyn contract Silent Valley ymhellach tan 31 Mawrth 2012 i roi amser i'r Cyngor ac awdurdod lleol cyfagos ddatblygu strategaeth ar y cyd i gaffael gwasanaethau gwastraff. Roedd y cyngor cyfreithiol a gafodd y Cyngor, y cyfeirir ato ym **mharagraffau 68 i 69**, wedi'i atodi wrth yr adroddiad. Mae cofnodion Pwyllgor Gweithredol y Cyngor yn nodi bod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai'r adroddiad a'r argymhellion ynddo'n "cael eu derbyn". Roedd yr adroddiad wedi argymell bod y Pwyllgor Gweithredol:

- "yn cymeradwyo’r penderfyniad i estyn y trefniadau cytundebol gyda Silent Valley Waste Services Ltd tan fis Mawrth 2012”; ac
- "yn cymeradwyo’r penderfyniad i roi diwedd ar y trefniadau cytundebol gyda Silent Valley pan fyddai’r contract yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw.

71 Nid yw adroddiad Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio i gyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 16 Rhagfyr 2010 yn nodi yr ymgynghorwyd â Phrif Swyddog Cyfreithiol a Swyddog Monitro’r Cyngor, Mr John, ynghylch y cynigion a ddarparwyd ar gyfer Pwyllgor Gweithredol y Cyngor, er gwaethaf y cyngor gan ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor y “bydd angen iddo gael ei gynnwys”. Nid yw cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 16 Rhagfyr 2010 yn nodi bod Mr John wedi arfer ei ddyletswydd statudol i hysbysu’r Cyngor y byddai’r penderfyniad i estyn y contract yn anghyfreithlon. Roedd hyn er bod y Cyngor wedi cael cyngor cyfreithiol i’r perwyl hwnnw (**paragraff 68)**.

72 Dywedodd Mr John wrth fy archwilwyr na chafodd gopi o’r cyngor hwnnw ac nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw un o swyddogion cyfreithiol y Cyngor wedi’i weld ychwaith. Dywedodd wrth fy archwilwyr mai ei dybiaeth ef yw bod y cyngor wedi cael ei geisio gan swyddogion caffael y Cyngor. Fodd bynnag, fel a nodir ym **mharagraff 70**, roedd y cyngor cyfreithiol wedi’i atodi wrth yr adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010 ac mae cofnodion y cyfarfod hwnnw’n dangos bod Mr John yn bresennol yn y cyfarfod. Ar ben hynny, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio wrth fy archwilwyr “ei bod yn arferol i adroddiadau gael eu cylchredeg i adrannau priodol a’r tîm rheoli corfforaethol cyn mynd ymlaen i’r Pwyllgor Gweithredol. Byddai’r gweithdrefnau hyn wedi cynnwys anfon copi o’r ddogfen at y swyddog monitro fel arfer safonol”.

73 Rwyf wedi ystyried yr estyniadau ar y contract y cytunodd y Cyngor arnynt ac, yn fy marn i, nid oedd sail gyfreithlon iddynt. Rwyf felly’n ystyried, trwy ddyfarnu gwaith rhwng 9 Awst 2009 a 31 Mawrth 2012 i Silent Valley heb chwilio am gystadleuaeth, bod y Cyngor wedi torri Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. Ar ben hynny, rwyf wedi fy argyhoeddi bod Prif Swyddog Cyfreithiol a Swyddog Monitro’r Cyngor, Mr John, wedi gweld yr adroddiad a’r cyngor cyfreithiol a oedd wedi’i atodi wrtho a oedd yn cynnwys cyfeiriad at ei gyfrifoldeb statudol ef ei hun fel Swyddog Monitro’r Cyngor i hysbysu’r Cyngor lle’r oedd yn ystyried ei fod yn bwriadu dod i benderfyniad a oedd yn tramgwyddo ar unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol (**gweler paragraff 69**). Rwy’n ystyried y gall Mr John, trwy fethu â hysbysu’r Cyngor ynghylch y mater, fod wedi torri ei ddyletswyddau statudol.

# Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2011 yn ddiffygiol, ac fe allai'r trefniadau pensiwn ar gyfer y penodiad fod wedi torri rheoliadau pensiwn

## Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2011 yn ddiffygiol

74 Ar 31 Mawrth 2011, fe adawodd Prif Weithredwr y Cyngor, Mr Morrison, ei gyflogaeth gyda'r Cyngor ac fe ddaeth ei benodiad fel y cyfarwyddwr ar Fwrdd Silent Valley a enwebwyd gan y Cyngor i ben ar yr un dyddiad.

75 Ar 15 Ebrill 2011, fe wnaeth cyfarfod y Cyngor Llawn ystyried adroddiad gan ei Brif Swyddog Cyfreithiol, Mr John, a oedd yn cynnig bod y Prif Weithredwr newydd a benodwyd gan y Cyngor, Mr Waggett, yn cymryd lle Mr Morrison fel y cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley (wedi hynny fe wnaeth Bwrdd Silent Valley benodi Mr Morrison yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley ar 19 Mai 2011 a bu'n gwasanaethu yn y rôl honno tan 15 Mai 2012).

76 O ran yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor, rwy'n nodi'r canlynol:

- nid yw'n nodi'r swm a fyddai'n cael ei dalu i Mr Waggett am gyflawni'r rôl, ac nid ofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo trefniadau cymeradwyaeth ariannol (fel sy'n ofynnol dan gyfansoddiad y Cyngor os oedd Mr Waggett yn cyflawni'r rôl gyda Silent Valley fel rhan o'i ddyletswyddau fel Prif Weithredwr).
- nid yw'n nodi manylion ac union natur dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl gyda Silent Valley a fyddai'n cael eu cyflawni gan Mr Waggett, er ei fod yn nodi'r dyletswyddau cyffredinol yn y Ddeddf Cwmnïau sy'n berthnasol i bob cyfarwyddwr cwmni.
- nid yw'n nodi sut y byddai gwrthdaro posibl a fyddai'n deillio o'r ffaith bod Mr Waggett yn gweithredu fel Prif Weithredwr y Cyngor ac fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn cael ei reoli.
- mae'n nodi "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor gan mai [Silent Valley] fydd yn gyfrifol am unrhyw ffi sy'n daladwy fel Aelod o'r Bwrdd i'r Cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor". Fodd bynnag, roedd y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweinyddu'r ffi'n golygu bod y Cyngor wedi ysgwyddo costau ariannol ychwanegol am y rhesymau canlynol:
  - roedd y Cyngor yn trin y ffi a oedd yn cael ei thalu i Mr Waggett mewn perthynas â'i benodiad i Fwrdd Silent Valley fel tâl pensiynadwy o fewn y

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel pe bai'n rhan o gyflogaeth Mr Waggett fel Prif Weithredwr y Cyngor. Fe dalodd y Cyngor gyfraniadau pensiwn cyflogwr o £12,169.74 i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â phenodiad Mr Waggett i Fwrdd Silent Valley am y cyfnod rhwng 19 Mai 2011 a 29 Chwefror 2016. Fe ysgwyddodd y Cyngor gostau straen pensiwn a oedd yn gyfanswm o £20,279.23 hefyd pan ddaeth cyflogaeth Mr Waggett gyda'r Cyngor i ben yn 2016. Ni cheisiodd y Cyngor adfer y costau pensiwn gan Silent Valley yn ystod y cyfnod y cawsant eu hysgwyddo.

- fe dalodd y Cyngor Gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr i CaThEM a oedd yn gyfanswm o £7,774.15 mewn perthynas â phenodiad Mr Waggett i Fwrdd Silent Valley am y cyfnod rhwng 19 Mai 2011 a 29 Chwefror 2016 (**paragraff 155 ac Arddangosyn 3**). Ni cheisiodd y Cyngor adfer y costau pensiwn ac yswiriant gwladol gan Silent Valley yn ystod y cyfnod y cawsant eu hysgwyddo.

77 Dywedodd Mr John wrth fy archwilwyr fod "adroddiadau a oedd yn ymwneud â phenodi swyddogion yr Awdurdod i Fwrdd Silent Valley wastad yn cael eu drafftio a'u paratoi gan un o swyddogion Adran Adnoddau'r Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi yn ei enw [ef] ... o dan amgylchiadau arferol, mater i'r Gwasanaethau Democrataidd, swyddogaeth nad oedd gennyf fi unrhyw gyfrifoldeb amdani, oedd penodi cynrychiolwyr yr Awdurdod ar gyrff allanol". Er fy mod yn nodi sylw Mr John, rwy'n ystyried, lle cyflwynir adroddiad i aelodau'r Cyngor yn enw swyddog, bod dyletswydd ar y swyddog hwnnw i gadarnhau bod cynnwys yr adroddiad hwnnw'n gywir ac yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer aelodau iddynt allu gwneud penderfyniad deallus, ni waeth pwy ddrafftiodd yr adroddiad.

78 Yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2011, fe benderfynodd y Cyngor benodi Mr Waggett "fel y Cyfarwyddwr a enwebwyd gan yr Awdurdod ar Fwrdd Silent Valley Waste Services ar unwaith". Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi, yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Ebrill 2011, bod y Prif Swyddog Pobl a Pherfformiad wedi hysbysu'r aelodau bod "y penodiad sy'n cael ei ystyried yn awr yn un ar gyfer y Cyfarwyddwr a enwebwyd gan y Cyngor am gyhyd ag y byddai Silent Valley yn parhau fel busnes gweithredol". Fodd bynnag, dan Erthyglau Silent Valley, roedd cyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cyngor i fod i aros yn y swydd am gyfnod penodedig o ddwy flynedd ond roeddent yn gallu cael eu hailbenodi ar ddiwedd y cyfnod hwn am gyfnodau pellach o 2 flynedd.

79 Roedd y broses a arweiniodd at benodi Mr Waggett yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn ddiffygiol am bod aelodau o'r Cyngor heb gymeradwyo swm y gydnabyddiaeth ariannol y byddai Mr Waggett yn ei chael am weithredu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley, yn groes i ofynion cyfansoddiad y Cyngor, a heb ystyried y byddai'r Cyngor yn atebol am elfen o'i gydnabyddiaeth ariannol, fel costau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr.

80 Ar ben hynny, ni chafodd ei gwneud yn glir a oedd penodiad Mr Waggett i Fwrdd Silent Valley yn mynd i fod yn rhan o'i benodiad fel Prif Weithredwr y Cyngor, ynteu a oedd Mr Waggett yn cyflawni'r rôl fel penodiad ar wahân i Fwrdd Silent Valley, h.y. roedd y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar ran Silent Valley trwy wneud y taliadau i Mr Waggett. Mae'r ffaith bod y Cyngor wedi cael ei hysbysu yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2011 nad oedd y penodiad yn dwyn unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer y Cyngor yn ategu'r syniad bod Mr Waggett yn cyflawni'r rôl gyda Silent Valley fel cyflogaeth ar wahân gyda Silent Valley.

81 Mae Mr Waggett wedi dweud wrth fy archwilwyr na fu'n rhan o'i benodiad nac o baratoi adroddiad Prif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor a argymhellodd ei fod yn cael ei benodi. Rwy'n nodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 15 Ebrill yn nodi bod Mr Waggett, yn y cyfarfod hwnnw, wedi datgan ei fuddiant yn yr eitem ar yr agenda a oedd yn dwyn y teitl "Penodi Cyfarwyddwr i Silent Valley Waste Services Ltd".

82 Yn fy marn i, am y rhesymau a nodir uchod, roedd y broses a arweiniodd at benodi ei Brif Weithredwr blaenorol, Mr Waggett, gan y Cyngor yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2011 yn ddiffygiol.

## Fe allai'r trefniadau pensiwn a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â chyflogaeth Mr Waggett gyda Silent Valley fod wedi torri rheoliadau pensiwn

83 At ddibenion pensiwn, roedd y Cyngor yn trin y gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn cael ei thalu i Brif Weithredwr y Cyngor ar y pryd, Mr Waggett, mewn perthynas â'i benodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel pe bai'r penodiad yn rhan o'i rôl fel Prif Weithredwr y Cyngor. Roedd y Cyngor yn talu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y gydnabyddiaeth ariannol gyfunol o'r ddau benodiad. Fe wnaeth hyn gynyddu buddion pensiwn Mr Waggett yn y dyfodol a fyddai'n deillio o'i gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor.

84 Mae gennyf amheuaeth sylweddol a oedd y trefniadau pensiwn a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â phenodiad Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn briodol neu yn unol â rheoliadau pensiwn. Dim ond os oedd y canlynol yn wir yr oedd gan y Cyngor hawl i fabwysiadu'r dull a nodir ym **mharagraff 83**:

- Os oedd penodiad Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn cynrychioli cyflogaeth gyda'r Cyngor. Yn fy marn i, os nad oedd y penodiad yn gyflogaeth gyda'r Cyngor, ond yn hytrach yn gyflogaeth gyda Silent Valley, nid oedd gan y Cyngor unrhyw awdurdod cyfreithiol i dalu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Silent Valley.
- Os oedd Mr Waggett yn cyflawni'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel rhan o'i benodiad fel Prif Weithredwr y Cyngor. Mae darpariaethau Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 yn nodi, lle mae person yn aelod gweithredol mewn

mwy nag un gyflogaeth, bod rhaid iddynt wneud cyfraniadau ar gyfer pob un o'r cyflogaethau hynny. Os oedd penodiadau Mr Waggett fel Prif Weithredwr ac fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn gyflogaethau ar wahân, nid oedd y Cyngor yn gyfreithlon yn gallu trin y gyflogaeth ar gyfer y penodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel tâl pensiynadwy fel rhan o rôl Mr Waggett fel Prif Weithredwr. Er fy mod yn cydnabod bod Mr Waggett wedi talu cyfraniadau pensiwn ar y gydnabyddiaeth ariannol gyfunol yr oedd yn ei chael mewn perthynas â'i rolau fel Prif Weithredwr ac un o gyfarwyddwyr Silent Valley, gall effaith cyfuno dwy gyflogaeth bensiynadwy beri i aelod o gynllun pensiwn gael buddion uwch o'r cynllun pensiwn nag y mae ganddynt hawl i'w cael.

85 Nid wyf wedi gallu f'argyhoeddi fy hun bod penodiad Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn gyflogaeth gyda'r Cyngor ac, os oedd, nad oedd ar wahân i'w gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor.

86 Roedd cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Cyngor i Fwrdd Silent Valley gael eu cymeradwyo gan gyfarfod y Cyngor Llawn ac, fel a nodir ym **mharagraff 78**, fe benderfynodd y Cyngor benodi Mr Waggett ""fel y Cyfarwyddwr a enwebwyd gan yr Awdurdod ar Fwrdd Silent Valley Waste Services ar unwaith". Fodd bynnag, nid cymeradwyaeth y Cyngor i'r penodiad ynddi ei hun yw'r ffactor sy'n penderfynu ai cyflogaeth gyda'r Cyngor ynteu gyda Silent Valley oedd penodiad Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley.

87 Ceir tystiolaeth i awgrymu y gall swydd Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fod wedi bod yn gyflogaeth gyda Silent Valley. Mae hyn yn cynnwys:

- er bod Erthyglau Cwmni Silent Valley yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor bennu'r gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i gyfarwyddwyr Silent Valley, yn ymarferol nid oedd hyn yn digwydd. Mae cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Silent Valley yn dangos mai Bwrdd Silent Valley yn hytrach na'r Cyngor oedd yn pennu cydnabyddiaeth ariannol ei gyfarwyddwyr. Yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2011, ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo, ac nid ofynnwyd iddo gymeradwyo, y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Waggett am gyflawni ei rôl gyda Silent Valley. Roedd adroddiad y Prif Swyddog Cyfreithiol a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn nodi "nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor gan mai Silent Valley Waste Services Limited fydd yn gyfrifol am unrhyw ffi sy'n daladwy fel Aelod o'r Bwrdd i'r Cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor". Felly nid y Cyngor oedd yn pennu'r swm a fyddai'n cael ei dalu i Mr Waggett. Mae'r parti sy'n pennu'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer rôl yn ddangosydd arwyddocaol, ond nid dyma'r unig ddangosydd, o ran penderfynu i ba gorff y mae cyflogaeth yn perthyn. Mae'r trefniadau cydnabyddiaeth ariannol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor ar gyfer penodiad Mr Waggett gyda Silent Valley yn wahanol i'r rhai y cytunwyd arnynt mewn perthynas â phenodiad Mr Morrison yn 2003. Pan benodwyd Mr Morrison, hysbyswyd y Cyngor y byddai addasiad i'w gyflog fel Prif Weithredwr y Cyngor i adlewyrchu dyletswyddau a chyfrifoldebau

ychwanegol y penodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Pan benodwyd Mr Waggett i’r rôl gyda Silent Valley yn 2011, hysbyswyd y Cyngor yn benodol, ond yn anghywir, na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer y Cyngor. Gan bod y Cyngor wedi cael ei hysbysu na fyddai’r penodiad yn peri iddo ysgwyddo unrhyw gostau, mae cryn dipyn yn fwy o amheuaeth ai cyflogaeth gyda’r Cyngor oedd penodiad Mr Waggett gyda Silent Valley.

- roedd y Cyngor yn talu’r ffi cyfarwyddwr a bennwyd gan Silent Valley i Mr Waggett, ond fe sefydlodd drefniant anfonebu i adfer cost y ffi gan Silent Valley. Mae’r parti sy’n gyfrifol am dalu costau cyflogaeth penodiad yn ddangosydd pwysig wrth benderfynu i ba gorff y mae’r gyflogaeth yn perthyn. Rwy’n derbyn y gellid dadlau hefyd, gan nad oedd costau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr yn cael eu hailgodi ar Silent Valley, bod y Cyngor yn ystyried bod y penodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn gyflogaeth gyda’r Cyngor. Mae hyn yn dangos methiant y Cyngor i ddiffinio’n iawn beth oedd natur rôl Mr Waggett gyda Silent Valley.
- os mai cyflogaeth gyda’r Cyngor oedd penodiad Mr Waggett gyda Silent Valley, methodd y Cyngor â diffinio gofynion y rôl, gan gynnwys dyletswyddau a threfniadau atebolrwydd, a faint o gydnabyddiaeth ariannol ddylai ei chael am gyflawni’r rôl. Os mai cyflogaeth gyda'r Cyngor oedd hon yn wir, mae’r diffyg eglurder yn arwydd o lywodraethu gwael ar ran y Cyngor.

88 Ar 2 Rhagfyr 2019, fe ysgrifennodd y Cyngor at Silent Valley, yn gofyn iddynt ad-dalu costau’r cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr yr oedd wedi’u hysgwyddo mewn perthynas â chyflogeion y Cyngor a oedd wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd hyn yn cynnwys costau mewn perthynas â swydd Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley rhwng 2011 a 2016. Roedd y llythyr yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol allanol a gafodd y Cyngor.

89 Roedd y cyngor cyfreithiol a gafodd y Cyngor yn dod i’r casgliad y dylai penodi swyddogion y Cyngor i Fwrdd Silent Valley, gan gynnwys penodiad Mr Waggett, fod wedi cael eu trin fel cyflogaethau ar wahân, ac y byddai wedi bod yn fwy priodol i Silent Valley fod wedi darparu ei drefniadau pensiwn ei hun mewn perthynas â’r rolau hyn trwy ei dderbyniad ei hun i’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

90 Mae penderfyniad y Cyngor i geisio adfer cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr gan Silent Valley, a oedd yn gysylltiedig â swyddogion y Cyngor a oedd wedi gwasanaethu’n flaenorol fel cyfarwyddwyr Silent Valley (**gweler paragraff 62)**, yn dynodi bod y Cyngor yn derbyn mai cyflogaethau gyda Silent Valley oedd y rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley mewn gwirionedd. Rwy’n cydnabod nad yw safbwynt cyfredol y Cyngor yn rhoi mewnwelediad o anghenraid i safbwynt y Cyngor pan benodwyd Mr Waggett i Fwrdd Silent Valley yn 2011. Gellid dadlau, gan na cheisiodd y Cyngor adfer y costau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr ar y pryd, mae ei safbwynt oedd mai cyflogaeth gyda’r Cyngor oedd y penodiad fel un

o gyfarwyddwyr Silent Valley. Yn fy marn i, mae'n annhebygol bod y Cyngor hyd yn oed wedi ystyried statws y penodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2011.

91 Mae swyddogion y Cyngor wedi dweud wrth fy archwilwyr, er eu bod yn derbyn bod diffygion gweithdrefnol yn y ffordd y cafod y trefniadau pensiwn eu gweinyddu, nad ydynt yn ystyried bod y Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon trwy wneud cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn cael ei thalu i swyddogion y Cyngor mewn perthynas â'u rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Fy nealltwriaeth i yw bod y farn hon yn seiliedig ar y ffaith bod Silent Valley yn gorff derbyniedig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o fewn Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf ac felly, gan y byddai Silent Valley ei hun wedi gallu gwneud y cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â'i gyfarwyddwyr, bod gan y Cyngor y pŵer i weinyddu'r taliadau ar ei ran.

92 Nid wyf yn cytuno â'r farn hon, am y rhesymau canlynol:

- er mai fy marn i yw bod Silent Valley yn gwmni dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru (fel is-gwmni a berchnogir yn llawn), y gallai ei gyflogeion fod yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ni wnaeth Silent Valley ddynodi ei gyfarwyddwyr fel dosbarth o gyflogeion a oedd yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau pensiwn perthnasol. Felly, yn fy marn i, nid oedd y Cyngor yn gallu gwneud taliadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Silent Valley mewn modd cyfreithlon.
- Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Silent Valley wedi gofyn i'r Cyngor weinyddu taliadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ei ran.

93 Rwyf hefyd wedi ystyried a weithredodd y Cyngor yn gyfreithlon trwy drin penodiad Mr Waggett fel Prif Weithredwr y Cyngor a'i benodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel un penodiad at ddibenion pensiwn. Fel a nodir ym **mharagraff 84**, pwynt bwled 2, mae Rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae person yn aelod gweithredol mewn mwy nag un gyflogaeth, bod rhaid iddynt wneud cyfraniadau ar gyfer pob un o'r cyflogaethau hynny.

94 Yn fy marn i, mae tystiolaeth i ddynodi y gall penodiad Mr Waggett gyda Silent Valley fod wedi bod ar wahân i'w gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:

- roedd y gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn cael ei thalu i Mr Waggett mewn perthynas â'i swydd fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley wedi'i nodi ar wahân yng nghyfrifon y Cyngor ac o fewn ffeil cyflogai Mr Waggett, sy'n awgrymu nad oedd y cyflog ar gyfer Silent Valley yn cael ei gyd-gyfuno gyda'i gyflog fel Prif Weithredwr. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y gallai'r Cyngor fod wedi penderfynu gwahanu'r taliadau at ddibenion cadw cofnodion a gweinyddol

hyd yn oed os oeddent yn gallu cael eu cydgrynhoi'n gywir at ddibenion cyflogaeth a phensiwn.

- roedd Erthyglau Cwmni Silent Valley yn amodi bod penodiadau cyfarwyddwyr a enwebwyd gan y Cyngor yn rhai am gyfnod penodedig o ddwy flynedd, sy'n gwrthgyferbynnu â phenodiad parhaol Mr Waggett fel Prif Weithredwr y Cyngor.
- fel a nodir ym **mharagraffau 88 i 90**, mae'r Cyngor ei hun wedi dod i'r casgliad y dylai swydd Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley "fod wedi cael ei thrin fel cyflogaeth ar wahân".

95 Er fy mod yn derbyn mai bwriad y Cyngor o bosibl oedd y byddai Mr Waggett yn cyflawni'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley fel rhan o'i ddyletswyddau fel Prif Weithredwr, methodd y Cyngor â sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn fy marn i, ceir ansicrwydd sylfaenol yn awr ai un ynteu dau benodiad oedd y penodiadau gyda Silent Valley ac fel Prif Weithredwr.

96 Dywedodd Mr Waggett wrth fy archwilwyr "ei fod yn deall ar y pryd, fel yr oedd y Cyngor, mai penodiad gyda'r Cyngor oedd ei benodiad ac felly nad oedd yn torri'r Rheoliadau Pensiwn; un penodiad ydoedd, er ei fod yn cynnwys dwy rôl". Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir ym **mharagraffau 87 i 94**, rwy'n ystyried ei bod yn debygol bod penodiad Mr Waggett fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn benodiad ar wahân i'w benodiad fel Prif Weithredwr y Cyngor, ac mae gennyf amheuaeth sylweddol a allai'r Cyngor yn gyfreithlon dalu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Silent Valley, o ystyried nad oedd Silent Valley wedi dynodi ei gyfarwyddwyr fel dosbarth o gyflogeion a oedd yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid oedd y Cyngor yn ailgodi ar Silent Valley am gost y cyfraniadau pensiwn cyflogwr yr oedd yn eu talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

97 P'un a oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud cyfraniadau pensiwn i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Silent Valley, nid yw'n glir bod y Cyngor wedi cydymffurfio â Rheoliadau 2007 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae person yn aelod gweithredol mewn mwy nag un gyflogaeth, bod rhaid iddynt wneud cyfraniadau ar gyfer pob un o'r cyflogaethau hynny. Roedd y Cyngor yn trin y ddau benodiad fel un gyflogaeth at ddibenion pensiwn. Gallai hyn fod wedi golygu bod Mr Waggett wedi cronni buddion pensiwn uwch nag y mae ganddo hawl gyfreithlon iddynt.

98 Rwy'n cydnabod bod y sefyllfa'n aneglur ac mai dim ond llys barn allai benderfynu'n bendant a dorrwyd Rheoliadau 2007. Ond yn fy marn i mae'n fwy tebygol na pheidio bod Rheoliadau 2007 wedi cael eu torri.

99 Rwy'n ystyried bod y diffyg sicrwydd ynghylch trefniadau pensiwn ar gyfer swyddogion y Cyngor a benodwyd yn gyfarwyddwyr Silent Valley wedi cael ei achosi gan fethiant y Cyngor i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i reoli ei berthynas â Silent Valley, gan gynnwys sefydlu trefniadau priodol ar gyfer:

- pennu rolau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr a enwebwyd gan y Cyngor

- cymeradwyo penodiadau
- pennu cydnabyddiaeth ariannol
- rheoli gwrthdaro buddiannau

# Mae’n aneglur sut y cafodd Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio’r Cyngor ar y pryd eu henwebu fel cyfarwyddwyr cyflogedig Silent Valley yn 2012, ac ni chafodd eu penodiadau eu cymeradwyo yn unol â chyfansoddiad y Cyngor

## Yn 2011, fe ddechreuodd y Cyngor brosiect i archwilio opsiynau ar gyfer ei berthynas â Silent Valley yn y dyfodol

100 Ar 8 Chwefror 2011, fe ysgrifennodd Mr James, Rheolwr Cyffredinol Silent Valley (a Chyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor) at Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd y Cyngor, Mr Parsons, yn ei hysbysu bod Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) wedi cyflwyno Hysbysiad Cau Safle Tirlenwi i’r Cwmni ar 17 Tachwedd 2010. Cyflwynwyd yr Hysbysiad Cau i ymdrin â’r risg hirdymor o lygredd am bod dŵr daear yn cael ei halogi gan wastraff yn Safle Tirlenwi Silent Valley yn Beechwood House, Cwm. Roedd yr Hysbysiad Cau Safle Tirlenwi’n ei gwneud yn ofynnol i Silent Valley ddechrau’r broses o gau’r safle, gan olygu na fyddai’r Cwmni’n gallu derbyn gwastraff i’w waredu yn safle Cwm ar ôl 31 Mawrth 2011.

101 Roedd Mr James yn nodi hefyd y byddai’r Hysbysiad Cau Safle Tirlenwi’n effeithio ar fusnes Silent Valley yn ei gyfanrwydd am bod rheoli’r safle’n rhan fawr o weithrediadau Silent Valley. Roedd y llythyr yn nodi y byddai cau’r safle tirlenwi’n cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol Silent Valley ac o bosibl yn arwain at golli swyddi. Felly roedd y Cwmni’n ystyried cau nifer o safleoedd eraill “sy’n ymwneud â gwasanaethau rheoli gwastraff (gan gynnwys safleoedd amwynderau dinesig/ailgylchu a/neu orsafoedd trosglwyddo gwastraff) ac y gallai hyn arwain at roi’r gorau i’r gwasanaethau a oedd wedi’u contractio gyda’r Cyngor i weithredu rhai safleoedd amwynderau dinesig/ailgylchu. Roedd Mr James yn nodi ei fod wedi trefnu cwrdd â swyddogion y Cyngor ar 14 Chwefror 2011 i drafod sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu symud ymlaen yng ngoleuni’r Hysbysiad Cau Safle Tirlenwi.

102 Nid wyf wedi gweld unrhyw gofnodion o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2011. Fodd bynnag, yn dilyn y cyfarfod, fe barhaodd Silent Valley i gyflawni gweithrediadau ar ran y Cyngor gan gynnwys gweithredu a rheoli Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi’r Cyngor.

103 Yng ngoleuni'r cyngor cyfreithiol yr oedd y Cyngor wedi'i gael ynghylch cyfreithlondeb estyn contract y Cyngor gyda Silent Valley (**paragraffau 68 i 69**), a'r effaith fusnes ar Silent Valley fyddai'n deillio o'r Hysbysiad Cau Safle Tirlenwi a gyflwynwyd iddo, yn hydref 2011 fe gychwynnodd y Cyngor brosiect i ystyried pa opsiynau oedd ar gael pan fyddai'r contract gyda Silent Valley yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012. Penodwyd rheolwr prosiect o Adran yr Amgylchedd a Gwastraff i arwain y prosiect. Cafodd y Cyngor gyngor ariannol a chyfreithiol allanol hefyd i roi cymorth i ddatblygu cynnig i'w gyflwyno i aelodau'r Cyngor.

104 Er y bwriwyd ymlaen â'r prosiect o fewn Adran yr Amgylchedd a Gwastraff, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor, Mr Parsons, wrth fy archwilwyr bod ei ymwneud personol ef yn gyfyngedig am ei fod yn absennol o'r gwaith am ran fawr o 2011 oherwydd salwch, ac mai dim ond yn hydref 2011 y dychwelodd i'r gwaith. Yn ei ôl ef, pan ddychwelodd i'r gwaith, fe'i secondiwyd i weithio'n llawn-amser ar brosiect adfywio nes iddo adael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor yn 2013. Dywedodd wrth fy archwilwyr y byddai unrhyw sylwadau a wnaed ganddo ynghylch prosiect Silent Valley yn rhai mewn "cymhwyster ymgynghorol" oherwydd, "o ddechrau 2011 nes i mi roi'r gorau i weithio yn 2013 fy nheitl oedd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, ac nid oedd gennyf unrhyw reolaeth weithredol, strategol na chorfforaethol ar yr adran ac ychydig iawn o ryngweithio o sylwedd, os o gwbl, a fu rhyngof fi a'r adran".

105 Er fy mod yn nodi sylwadau Mr Parsons, mae cofnodion dogfennol y Cyngor yn dynodi, rhwng mis Hydref 2011 a mis Ebrill 2012, y bu gan Mr Parsons ymwneud sylweddol â phrosiect Silent Valley gan gynnwys gwneud sylwadau ar adroddiadau drafft ac awgrymu newidiadau iddynt, mynychu cyfarfodydd i drafod y prosiect, cynnal cyswllt rheolaidd â'r rheolwr prosiect, a chael cyngor proffesiynol allanol ynghylch y prosiect.

106 Ar 14 Hydref 2011, fe anfonodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor neges e-bost at Mr Parsons a'r rheolwr prosiect yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu hateb er mwyn i sefydliad sy'n contractio, fel y Cyngor, allu contractio gyda chontractwr fel Silent Valley heb orfod ceisio cystadleuaeth dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. Roedd y cyngor gan ymgynghorwyr y Cyngor yn nodi y gallai'r Cyngor o bosibl hawlio 'esemptiad Teckal'[4] am na fyddai'n rhaid cynnal cystadleuaeth ar gyfer y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan Silent Valley dan yr amgylchiadau canlynol:

- roedd y Cyngor yn gallu arfer rheolaeth dros Silent Valley a oedd yn debyg i'r rheolaeth yr oedd yn gallu ei harfer dros adran fewnol. Byddai hynny'n

[4] Roedd Teckal Srl v Comune di Viano ac Azienda Gas-Acqua Consorziale (AGAC) di Reggio Emilia (Achos C-107/98) [1999] ECR I-8121 (Teckal) yn ddyfarniad llys blaenllaw ar gontractau rhwng cyrff cyhoeddus a'u hesemptiad o'r rheolau caffael. Cafodd yr egwyddorion Teckal a nodwyd yn yr achos eu codeiddio wedyn yn Erthygl 12 Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus 2014 a rheoliad 12 yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (SI 2015/102) (PCR 2015).

golygu bod rhaid i'r Cyngor fod â phŵer dylanwad tyngedfennol dros amcanion strategol a phenderfyniadau arwyddocaol Silent Valley.

- byddai Silent Valley yn cyflawni'r rhan hanfodol o'i weithgareddau gyda'r Cyngor, ac ni allai'r busnes a oedd yn cael ei gynnal gan Silent Valley ar gyfer unrhyw sefydliad arall ond bod o arwyddocâd ymylol.

107 Ar 4 Tachwedd 2011 fe e-bostiodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ddrafft anghyflawn cyntaf o adroddiad ar gyfer aelodau'r Cyngor at Mr Parsons a'r rheolwr prosiect. Roedd yr adroddiad yn nodi pedwar opsiwn posibl ar gyfer dyfodol y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan Silent Valley:

- parhau â strwythur, perchnogaeth a gweithrediad presennol Silent Valley.
- ailstrwythuro Silent Valley i roi rheolaeth i'r Cyngor ar y Bwrdd a gwneud yn siŵr bod Silent Valley yn 'cydymffurfio â dyfarniad Teckal' gyda masnachu allanol cyfyngedig.
- ailstrwythuro Silent Valley i roi rheolaeth i'r Cyngor ar y Bwrdd ond caniatáu masnachu masnachol ehangach.
- trosglwyddo asedau, gweithrediadau a rhwymedigaethau o Silent Valley i'r Cyngor a darparu gwasanaethau trwy dîm mewnol gyda Silent Valley yn cael eu ddirwyn i ben.

108 O dan 'Datrysiad Optimwm', mae'r adroddiad drafft yn nodi, "Fe wnaf ffurfio'r dybiaeth weithiol bod y Datrysiad Optimwm yn golygu parhau â'r cwmni, o leiaf yn y tymor byr, ond mae'r mater yn dal i fod yn agored pa un a yw'n gwmni sy'n cydymffurfio â dyfarniad Teckal ai peidio". Mae'r adroddiad yn nodi bod angen i gyfansoddiad Bwrdd Silent Valley "gael ei gwblhau, gan nodi niferoedd y cyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cyngor a thrafod mater cyfarwyddwyr anweithredol sy'n dod â sgiliau ychwanegol i'r Bwrdd".

## Mae'n aneglur sut y cafodd Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor ar y pryd eu henwebu fel cyfarwyddwyr cyflogedig Silent Valley yn 2012

109 Rhwng 4 Tachwedd 2011 a 28 Mawrth 2012 bu sawl diweddariad i'r adroddiad drafft a fyddai'n cael ei ystyried gan aelodau'r Cyngor. Nid oedd fersiwn a gylchredwyd ar 27 Ionawr 2012 yn cynnwys casgliad nac argymhelliad ynghylch y 'Datrysiad Optimwm' nac yn cynnwys manylion cyfansoddiad arfaethedig y Bwrdd.

110 Erbyn 20 Chwefror 2012, roedd yr adroddiad drafft wedi cael ei ddiwygio i gynghori'r aelodau mai'r 'Datrysiad Optimwm' oedd "ailstrwythuro [Silent Valley] i roi rheolaeth i'r [Cyngor] ar y Bwrdd a gwneud yn siŵr bod [Silent Valley] yn cydymffurfio â dyfarniad Teckal gyda masnachu allanol cyfyngedig".

111 Roedd yr adroddiad drafft yn cynnwys adran a ddrafftiwyd gan ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor a oedd yn amlygu'r angen i'r Cyngor ymdrin â gwrthdaro

buddiannau posibl rhwng y Cyngor, Silent Valley a chyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd hefyd yn nodi adran ar drefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, nid oedd yr adran ar lywodraethu'n cynnwys mesurau penodol i ymdrin â'r gwrthdaro buddiannau posibl ac, fel a nodir ym **mharagraffau 123 i 149**, ni sefydlwyd trefniadau llywodraethu priodol ac ni chafodd mesurau i ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl eu rhoi ar waith.

112 Roedd yr adroddiad drafft yn nodi hefyd "er mwyn ailstrwythuro cyfansoddiad [Silent Valley] a dod ag ef o fewn rheolaeth yr Awdurdod o ran y Bwrdd, bydd angen cymryd camau penodol a fydd yn golygu bod yr Awdurdod, fel perchennog 100% o'r cyfranddaliadau, yn newid y cyfansoddiad a bod aelodaeth y Bwrdd yn cael ei newid hefyd". Roedd yr adroddiad yn nodi enwau'r rhai y cynigid y byddent yn dod yn gyfarwyddwyr Silent Valley, sef:

- Mr James (a oedd wedi bod yn Rheolwr Cyffredinol Silent Valley ers 2003 ac a oedd yn Gyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor)
- Mr Waggett (a oedd yn gwasanaethu fel Prif Weithredwr y Cyngor ac a oedd ers 15 Ebrill 2011 wedi bod yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor
- Mr Parsons (Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor)
- Mr McAuliffe (Prif Swyddog Cyllid y Cyngor)

113 Nid wyf wedi gallu canfod pwy benderfynodd a sut y penderfynwyd diwygio'r adroddiad i enwi'r unigolion uchod fel cyfarwyddwyr newydd arfaethedig Silent Valley, ac nid wyf wedi gweld unrhyw sail resymegol a ddogfennwyd i ddynodi pam y cynigiwyd y swyddogion hyn yn y Cyngor. Yn anffodus, ni chadwodd y Cyngor drywydd archwilio cynhwysfawr o'r modd y datblygwyd y cynigion hyn. Ni chadwyd cofnodion o gyfarfodydd grŵp y prosiect ac nid oes cofnod dogfennol o bwy a benderfynodd y dylid darparu cynnwys yr adroddiad i aelodau'r Cyngor.

114 Ymddengys fod pob un o swyddogion y Cyngor a benodwyd yn gyfarwyddwyr ar Fwrdd Silent Valley wedi bod yn rhan o'r broses a arweiniodd at eu penodi i Fwrdd Silent Valley. Yn arbennig, rwy'n nodi:

- bod y cofnodion sydd gan y Cyngor yn dangos bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor ar y pryd, Mr Parsons, wedi chwarae rhan annatod yn natblygiad y cynigion ar gyfer Silent Valley o ddechrau'r prosiect nes i'r cynigion gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ar 28 Mawrth 2012. Roedd y rhan hon yn cynnwys golygu fersiynau o'r adroddiad drafft a chwrdd ag ymgynghorwyr allanol y Cyngor.
- mae gohebiaeth trwy e-bost yn dynodi bod copïau o'r adroddiad drafft dyddiedig 20 Chwefror 2012, y cyfeirir ato ym **mharagraffau 110 i 112**, wedi cael eu hanfon at swyddogion y Cyngor, gan gynnwys Mr Waggett a Mr Parsons.
- ar 26 Chwefror 2012, anfonodd y rheolwr prosiect neges e-bost at Gynorthwyydd Gweithredol Mr Parsons yn atodi fersiwn ddrafft o'r adroddiad

i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol a chan ofyn “yn dilyn y sylwadau gan [Mr Parsons], wedi’i atodi mae adroddiad ac atodiadau diwygiedig, a fyddech cystal â chylchredeg y rhain i’r rhai a fydd yn bresennol yn y cyfarfod ar 1 Mawrth? Rwyf wedi gadael adrannau wedi’u huwcholeuo gan y bydd angen trafod y rhain ddydd Iau ac yna gellir gwneud newidiadau terfynol ar ôl y cyfarfod”. Roedd yr adrannau a oedd wedi’u huwcholeuo’n cynnwys enwau’r rhai a oedd yn cael eu cynnig fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Nid oes unrhyw gofnodion wedi cael eu cadw o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2012. Rwy’n nodi bod Cynorthwyydd Gweithredol Mr Parsons, ar 16 Chwefror 2012, wedi anfon neges e-bost at nifer o swyddogion y Cyngor yn eu gwahodd i ddod i’r cyfarfod ar 1 Mawrth 2012. Roedd Mr Waggett, Mr McAuliffe a Mr Parsons ymhlith y rhai a wahoddwyd. Rhoddodd y rheolwr prosiect wybod i’m harchwilwyr bod pob un o’r swyddogion hyn yn bresennol yn y cyfarfod ar 1 Mawrth 2012.

- ar 1 Mawrth 2012, fe e-bostiodd y rheolwr prosiect fersiwn ddiwygiedig o’r adroddiad at Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Mr Parsons, Prif Swyddog yr Amgylchedd Dros Dro, a dau swyddog adrannol arall. Roedd y neges e-bost eglurhaol yn nodi “wedi’i hatodi mae fersiwn ddiwygiedig o’r adroddiad yn dilyn ein cyfarfod heddiw. Os ydych yn hapus gyda’r adroddiad a fyddech cystal â’i roi ar yr agenda ar gyfer y [Tîm Rheoli Adrannol a’r Tîm Rheoli Corfforaethol] wythnos nesaf a’r Pwyllgor Gweithredol wedi hynny”. Roedd yr adroddiad a oedd wedi’i atodi’n dal i gynnwys enwau’r cyfarwyddwyr arfaethedig. Fodd bynnag, nid oedd yr enwau wedi’u huwcholeuo mwyach, sy’n dynodi yn fy marn i y bu cytundeb y dylid cynnwys yr enwau hyn yn yr adroddiad terfynol. Mae’n ymddangos yn debygol y cytunwyd ar y newidiadau hyn yn y cyfarfod ar 1 Mawrth 2012. Fe ymatebodd Mr Parsons i’r neges e-bost ar 2 Mawrth gan ddweud “Mae’n edrych yn iawn i mi ac yn cynnwys yr holl bwyntiau a godwyd ddoe”.
- mae fersiwn derfynol yr adroddiad a gafodd ystyriaeth gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor yn nodi bod cynnwys yr adroddiad wedi cael ei wirio gan Swyddog Monitro, Pennaeth Adnoddau Dynol a Phrif Swyddog Cyllid a Swyddog a151 y Cyngor, Mr McAuliffe. Mae Mr McAuliffe wedi dweud wrth fy archwilwyr na fyddai ef yn bersonol wedi cwblhau’r gwiriad hwn, ac y byddai wedi cael ei gwblhau gan swyddog arall yn ei adran. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiad yn gwneud hyn yn glir.

115 Rwy’n derbyn nad oedd y swyddogion a enwir uchod wedi’u rhagwahardd o anghenraid rhag bod yn rhan o baratoi cynigion i aelodau eu cymeradwyo. Fodd bynnag, gan bod gan y swyddogion hyn fuddiannau ariannol yng nghanlyniad y broses, yn yr ystyr y gallai fod cydnabyddiaeth ariannol am gyflawni’r penodiadau gyda Silent Valley, roedd angen i’r Cyngor sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu i sicrhau na fyddai gwyrduedd ar ran swyddogion yn gallu effeithio ar ganlyniad y broses. Byddwn wedi disgwyl i’r Cyngor sicrhau bod y broses yn cael ei dogfennu’n briodol, bod y rhesymau dros benderfyniadau wedi’u

nodi'n glir, a bod y Cyngor yn craffu ar y broses. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod trefniadau o'r fath wedi'u sefydlu.

116 Yn fy marn i, methodd y Cyngor â sefydlu trefniadau llywodraethu digonol mewn perthynas â'r broses ac, o ganlyniad, nid wyf wedi gallu f'argyhoeddi fy hun bod y cynigion a gyflwynwyd i gyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Cyngor yn rhai nad oeddent yn seiliedig ar wyrduedd ar ran swyddogion.

## Fe gymeradwyodd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor gynigion gan swyddogion ar gyfer ailstrwythuro Silent Valley, er nad oedd ganddo'r awdurdod cyfansoddiadol i wneud hynny, ond ni chafodd elfennau pwysig o'r cynigion eu rhoi ar waith wedi hynny

117 Mae nodyn briffio dyddiedig 27 Mawrth 2012 ar gyfer staff yn Adran yr Amgylchedd ac Adfywio'n nodi bod yr adroddiad drafft i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor wedi cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Tîm Rheoli Adrannol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2012 i gael ei anfon ymlaen at y Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae hefyd yn nodi bod y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cymeradwyo'r adroddiad ar 13 Mawrth 2012.

118 Ar 28 Mawrth 2012, rhoddodd cyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y swyddogion ar ddyfodol Silent Valley. Nid oedd yr adroddiad wedi newid (heblaw am fformatio) o'r fersiwn dyddiedig 1 Mawrth 2012 ac fe'i cytunwyd gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Mr Parsons, ar 2 Mawrth 2012 (**paragraff 114, bwled 4**). Caiff argymhellion yr adroddiad eu nodi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: argymhellion ar gyfer ailstrwythuro Silent Valley a gyflwynwyd i gyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2012**

**Argymhellion adroddiad swyddogion a ddarparwyd ar gyfer aelodau Pwyllgor Gweithredol y Cyngor i gael ei ystyried**

1. Ailstrwythuro SVWS Ltd i roi rheolaeth i'r Awdurdod ar y Bwrdd a gwneud yn siŵr bod SVWS Ltd yn "cydymffurfio â dyfarniad Teckal" gyda masnachu allanol cyfyngedig.
2. Diwygio dogfennau cyfansoddiadol y cwmni i'w alluogi i gydymffurfio â dyfarniad Teckal yn y fath fodd.
3. Datblygu dogfennaeth gytundebol rhwng yr Awdurdod a SVWS Ltd er mwyn unioni'r gwasanaethau a ddarperir gan y cwmni. Dylai'r ddogfennaeth gytundebol gynnwys, ymhlith pethau eraill, fanylion priod ymrwymiadau, hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti.

4. Adolygu'r trefniant diwygiedig hwn ymhen oddeutu 2 – 3 blynedd pan fydd y broses o gapio'r safle tirlenwi wedi'i chwblhau a phan fydd darpariaethau ôl-ofal wedi'u deall yn llawn.
5. Penodi Mr James, Mr Parsons, Mr Waggett a Mr McAuliffe i fwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni a chytuno'n ffurfiol ar y penodiad hwn, unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ac unrhyw ddarpariaeth indemnio gyda'r swyddogion a enwir.

Ffynhonnell: Papurau agenda'r Cyngor

119 Mae cofnodion y cyfarfod ar 28 Mawrth 2012 yn nodi bod Mr Waggett a Mr McAuliffe "wedi gadael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem, [Silent Valley] yn cael ei hystyried" a hwythau wedi datgan buddiant yn y mater. Ni chofnodwyd fod Mr Parsons yn bresennol yn y cyfarfod.

120 Mae cofnodion y cyfarfod yn nodi bod y Pwyllgor Gweithredol wedi penderfynu derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad.

121 Rwy'n nodi'r canlynol:

- roedd yr adroddiad yn argymell bod y Pwyllgor Gweithredol yn penodi Mr James, Mr Parsons, Mr Waggett a Mr McAuliffe "i fwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni a chytuno'n ffurfiol ar y penodiad hwn, unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ac unrhyw ddarpariaeth indemnio gyda'r swyddogion a enwir". Gan nad oedd yr adroddiad yn nodi unrhyw fanylion ynghylch lefel y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu, nid wyf yn ystyried bod hon yn gymeradwyaeth ddigonol. Ar ben hynny, roedd cyfansoddiad y Cyngor yn nodi mai'r Cyngor Llawn oedd i bennu lefel ac unrhyw newid yn lefel y gydnabyddiaeth a fyddai'n cael ei thalu i Brif Swyddogion. Felly nid oedd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor yn gallu cytuno ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y swyddogion a benodwyd yn gyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd cyfansoddiad y Cyngor hefyd yn nodi mai'r Cyngor Llawn ddylai gyflawni'r swyddogaeth o ran penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni bai bod y Cyngor Llawn yn dirprwyo'r swyddogaeth. Rwyf felly'n ystyried bod angen i un o gyfarfodydd y Cyngor Llawn gadarnhau'r penodiadau i Silent Valley ac unrhyw gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i'r rhai a fyddai'n cyflawni'r rolau hyn. Nid ofynnwyd i'r Cyngor Llawn gadarnhau'r penodiadau na phennu swm y gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â'r rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd Mr Waggett, Mr McAuliffe a Mr Parsons yn Brif Swyddogion, ac o ystyried mai Mr Waggett oedd Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor, ac mai Mr McAuliffe oedd swyddog a151 y Cyngor, byddwn wedi disgwyl iddynt fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfansoddiadol hyn. Byddwn hefyd wedi disgwyl i Swyddog Monitro'r Cyngor fod wedi cynghori y byddai angen pennu'r gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu am gyflawni'r rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley.

- roedd yr adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol yn nodi y dylai "unrhyw gydnabyddiaeth ariannol a fydd yn cael ei thalu i'r cyfarwyddwyr ac unrhyw indemniad a roddir gan yr Awdurdod ar gyfer eu gweithredoedd yn eu cymhwyster fel cyfarwyddwyr y cwmni gael eu cytuno'n ffurfiol rhwng y swyddogion a'r Awdurdod". Fel a nodir uchod, roedd cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Llawn bennu lefel ac unrhyw newid yn lefel y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Brif Swyddogion. Fodd bynnag, nid ofynnwyd i'r Cyngor Llawn gadarnhau'r penodiadau na phennu swm y gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â'r rolau fel Cyfarwyddwyr Silent Valley, ac rwyf felly'n ystyried na chafodd y newid mewn cydnabyddiaeth ariannol ei gymeradwyo'n ddigonol. Ar ben hynny, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw gamau i bennu beth fyddai'n gyfradd briodol o ran y gydnabyddiaeth ariannol am gyflawni'r rôl, yn gymesur ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r rôl. Ymddengys fod y gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a fyddai'n cael ei thalu i'r swyddogion dan sylw wedi cael ei phennu mewn gwirionedd gan Fwrdd Silent Valley ac nid y Cyngor. Ymddengys fod hyn wedi digwydd yn ddiofyn gan mai Silent Valley oedd yn pennu'r ffi cyfarwyddwr flynyddol a fyddai'n cael ei thalu i'w gyfarwyddwyr, ac ni wnaeth y Cyngor ystyried na phenderfynu a oedd hyn yn gydnabyddiaeth ariannol briodol am y rolau a fyddai'n cael eu cyflawni gan y swyddogion dan sylw.
- ni wnaeth y Pwyllgor Gweithredol na'r Cyngor Llawn gymeradwyo y dylai cydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i swyddogion y Cyngor a benodwyd yn gyfarwyddwyr ar Fwrdd Silent Valley gael ei thrin fel tâl pensiynadwy o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, bu'r Cyngor yn talu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y gydnabyddiaeth ariannol hon fel pe bai'r gydnabyddiaeth ariannol yn gysylltiedig â'u prif rolau fel swyddogion y Cyngor. Mae gennyf amheuaeth sylweddol a oedd y Cyngor yn meddu ar yr awdurdod angenrheidiol i drin y gydnabyddiaeth ariannol fel tâl pensiynadwy yn y ffordd yma (**paragraffau 154 i 164**) a, beth bynnag, ni ddylai'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i'r swyddogion hyn fod wedi cael ei thrin fel tâl pensiynadwy am nad oedd y gydnabyddiaeth ariannol ei hun wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor.
- roedd yr adroddiad yn nodi y byddai gan swyddogion y Cyngor a oedd yn gwasanaethu ar Fwrdd Silent Valley wrthdaro buddiannau posibl rhwng eu rôl fel swyddogion y Cyngor a'u rôl fel cyfarwyddwr y cwmni. Fodd bynnag, ni sefydlodd y Cyngor drefniadau digonol i reoli'r gwrthdaro buddiannau posibl (**paragraffau 123 i 131**). Roedd hwn yn amryfusedd arwyddocaol.
- mae'r adroddiad yn nodi, i helpu i fynd i'r afael â'r gwrthdaro buddiannau posibl, y "bydd angen i'w sefyllfa gael ei hunioni i sicrhau bod yr Awdurdod yn cytuno'n ffurfiol ar eu rolau fel rhan o'u dyletswyddau gyda'r Awdurdod,

unrhyw gydnabyddiaeth ariannol a fydd yn cael ei thalu ac unrhyw indemniad ar gyfer eu gweithredoedd wrth weithredu fel cyfarwyddwyr y cwmni". Ni chymerodd y Cyngor gamau i gytuno ar rôl y cyfarwyddwyr a benodwyd fel rhan o'u dyletswyddau gyda'r Awdurdod, nac i unioni'r gydnabyddiaeth am y rôl ychwaith (**paragraffau 127 i 131**).

122 Yng ngoleuni'r rhesymau a nodir uchod, rwy'n ystyried bod y broses a arweiniodd at benodi a phennu cydnabyddiaeth ariannol Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor yn sylfaenol ddiffygiol, a bod y penderfyniad a gymeradwywyd gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor y tu hwnt i bŵer cyfansoddiadol y Pwyllgor Gweithredol i'w gymeradwyo ac felly y gallai'r penderfyniad fod wedi bod yn anghyfreithlon.

# Methodd y Cyngor â sefydlu na gweithredu trefniadau llywodraethu digonol nac effeithiol i reoli ei berthynas â Silent Valley o 2012 ymlaen

## Methodd y Cyngor â sefydlu trefniadau priodol i reoli a lliniaru gwrthdaro buddiannau posibl

123 Fel a nodir yn **Arddangosyn 1**, ar 28 Mawrth 2012 fe gymeradwyodd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor argymhelliad i roi "rheolaeth i'r Awdurdod ar y Bwrdd a gwneud yn siŵr bod SVWS Ltd yn 'cydymffurfio â dyfarniad Teckal' gyda masnachu allanol cyfyngedig". Roedd yr argymhelliad hwn wedi'i fwriadu i alluogi'r Cyngor i ddangos ei fod yn gallu arfer rheolaeth dros faterion y cwmni o ddydd i ddydd yn debyg i'r rheolaeth yr oedd yn ei harfer dros ei adrannau mewnol ei hun, a, thrwy wneud hynny, galluogi'r Cyngor i ddyfarnu gwaith yn uniongyrchol i Silent Valley heb geisio cystadleuaeth.

124 I sicrhau bod gan y Cyngor reolaeth ar Fwrdd Silent Valley, fe gytunodd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor y byddai'r mwyafrif o gyfarwyddwyr Silent Valley yn cael eu penodi gan y Cyngor. Fe gytunodd y Pwyllgor Gweithredol hefyd y byddai Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor yn cael eu penodi'n Gyfarwyddwyr Silent Valley. Cafodd y pedwerydd cyfarwyddwr, Rheolwr Gyfarwyddwr Silent Valley, ei benodi gan y Cwmni.

125 Trwy benderfynu arfer rheolaeth dros Fwrdd Silent Valley, rwy'n ystyried bod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod trefniadau llywodraethu digonol ac effeithiol yn cael eu sefydlu i sicrhau:

- bod achosion posibl o wrthdaro a allai ddeillio o'r ffaith bod swyddogion y Cyngor yn eistedd ar Fwrdd Silent Valley yn cael eu rheoli a'u lliniaru;
- bod y berthynas rhwng y Cyngor a Silent Valley yn cael ei ffurfioli a'i dogfennu fel bod dealltwriaeth gyffredin am rwymedigaethau'r naill barti a'r llall; a

- bod perfformiad gweithredol ac ariannol Silent Valley yn gallu cael ei fonitro gan y Cyngor a bod y Cyngor yn gallu craffu arno.

126 Fe wnaeth penderfyniad y Cyngor i benodi tri o'i brif swyddogion i Fwrdd Silent Valley achosi gwrthdaro buddiannau posibl gan y byddai ganddynt rolau deuol fel swyddogion y Cyngor a chyfarwyddwyr Silent Valley. O dan yr amgylchiadau hyn, roedd angen i'r Cyngor sefydlu trefniadau cadarn i sicrhau bod y swyddogion hyn yn deall eu cyfrifoldebau wrth weithredu fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd hyn yn hollbwysig i reoli a lliniaru'r achosion posibl o wrthdaro ac i sicrhau bod y swyddogion hyn yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at y Cyngor a thuag at Silent Valley wrth gyflawni eu rolau gyda Silent Valley.

127 Roedd yr adroddiad a gafodd ystyriaeth gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ar 28 Mawrth 2012 yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag achosion posibl o wrthdaro buddiannau ac yn nodi "bydd angen i swyddogion a benodwyd yn gyfarwyddwyr ddal i fod yn ymwybodol o'r gwrthdaro posibl a bydd angen i'w sefyllfa gael ei hunioni i sicrhau bod yr Awdurdod yn cytuno'n ffurfiol ar eu rolau fel rhan o'u dyletswyddau gyda'r Awdurdod, unrhyw gydnabyddiaeth ariannol a fydd yn cael ei thalu ac unrhyw indemniad a roddir gan yr Awdurdod ar gyfer eu gweithredoedd yn eu cymhwyster fel cyfarwyddwyr y cwmni".

128 Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig ydyw bod y Cyngor yn unioni swyddi swyddogion y Cyngor a benodwyd i wasanaethu ar fyrddau cwmnïau. Y rheswm yw, er mai tuag at y cwmni y mae prif ddyletswydd cyfarwyddwr, dim ond oherwydd ei gyflogaeth, ac i gyflawni ei gyflogaeth, fel un o swyddogion y Cyngor y mae un o swyddogion y Cyngor a benodwyd gan y Cyngor i wasanaethu fel cyfarwyddwr ar fwrdd cwmni yn gweithredu yn y rôl honno. Felly dylai ei swydd ar fwrdd y cwmni fod yn rhan annatod o'i swydd fel un o swyddogion y Cyngor, a dylai ei ddyletswyddau a'i gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â'i rôl gyda'r cwmni gael eu disgrifio'n glir dan ei gontract cyflogaeth. Rwy'n cydnabod y bydd gwasanaethu fel cyfarwyddwr cwmni'n cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol sy'n wahanredol ac a allai fod yn feichus. Mae dyletswydd ar y Cyngor felly i gydnabod gwerth y cyfrifoldebau hynny trwy gynnal adolygiad o gydnabyddiaeth ariannol swyddog. Byddai hyn yn digwydd fel arfer trwy broses gwerthuso swyddi. Ni ddylid gadael i'r Cwmni bennu'r gydnabyddiaeth ariannol am gyflawni'r rôl gan bod hyn yn achosi gwrthdaro buddiannau cynhenid.

129 Er gwaethaf yr angen i sicrhau bod rolau cyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor yn cael eu cytuno gan y Cyngor fel rhan o'u dyletswyddau tuag at yr Awdurdod, ni chymerwyd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ni wnaeth y Cyngor gytuno ar swm y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu am y rolau hyn, ni cheisiodd asesu gwerth y cyfrifoldebau a oedd yn rhan o gyflawni'r rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley, ac ni wnaeth ystyried y gwrthdaro buddiannau posibl a fyddai'n codi.

130 Nid yw'n glir i mi pam nad aeth y Cyngor i'r afael â'r mater hwn. Yn fy marn i, dylai'r Cyngor fod wedi:

- pennu pa ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol ar ran y Cyngor oedd yn ofynnol i'r swyddogion dan sylw eu cyflawni mewn perthynas â'u rolau gyda Silent Valley;
- cytuno ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn gyda'r swyddogion dan sylw a ffurfioli'r gofynion hyn o fewn eu telerau ac amodau cyflogaeth; ac
- asesu pa un a oedd y dyletswyddau ychwanegol yn cyfiawnhau cynnydd mewn cydnabyddiaeth ariannol ac, os oeddent yn cyfiawnhau cynnydd, pennu lefel y cynnydd hwnnw, yn gymesur â gofynion ychwanegol y rôl.

131 Mae methiant y Cyngor i sefydlu trefniadau priodol mewn perthynas â dyletswyddau a chydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr a benodwyd gan yr awdurdod lleol wedi creu ansicrwydd sylweddol a oedd y cyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cyngor yn gweithredu er budd y Cyngor ynteu er budd Silent Valley wrth gyflawni eu rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley, ac ni chafodd achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu rheoli na'u lliniaru. Mae methiant y Cyngor i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol mewn perthynas â rolau a chydnabyddiaeth ariannol swyddogion y Cyngor a oedd yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr Silent Valley wedi creu amheuaeth sylweddol pa un a oedd y trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan y Cyngor mewn perthynas â swyddogion y Cyngor a oedd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr Silent Valley yn cydymffurfio â rheoliadau pensiwn (**paragraffau 154 i 164**).

## Methodd y Cyngor â sefydlu fframwaith llywodraethu clir o ran ei berthynas â Silent Valley

132 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Cyngor ar 28 Mawrth 2012 yn nodi hefyd, "Os caiff y cwmni ei ailgyfansoddi ac os bydd yn gweithredu fel cwmni sy'n cydymffurfio â dyfarniad Teckal, bydd yn bosibl i'r Awdurdod gontractio'n uniongyrchol â SVWS Ltd er mwyn iddo barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, dylid cymryd y cyfle i unioni'r berthynas a nodi'n glir mewn dogfennaeth gytundebol beth yw priod ymrwymiadau, hawliau a rhwymedigaethau a.y.b. y partïon ... Yr Awdurdod yw unig gyfranddaliwr y cwmni ac mae angen iddo sicrhau bod eglurder yn strwythur penderfynu'r Awdurdod o ran pwy sydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau yn y cymhwyster hwn. Yn hyn o beth ni all yr aelodau o'r bwrdd a enwir [fel cyfarwyddwyr yr awdurdod lleol] weithredu mewn cymhwyster deuol".

133 Roedd yr adroddiad yn nodi'n gywir na allai'r swyddogion hynny a oedd wedi'u penodi fel cyfarwyddwyr Silent Valley, ac a oedd yn gyfrifol yn y cymhwyster hwnnw am wneud penderfyniadau ar ran Silent Valley, fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â Silent Valley o fewn strwythur penderfynu'r Cyngor. Y swyddogion a benodwyd i weithredu fel cyfarwyddwyr a benodwyd gan yr awdurdod lleol ar Fwrdd Silent Valley oedd Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog a151 y Cyngor. O dan

amgylchiadau arferol, byddai pob un o'r swyddogion hyn wedi bod â rôl arwyddocaol ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor mewn perthynas â Silent Valley.

134 Roedd yr adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd unioni'r berthynas â Silent Valley trwy sefydlu dogfennaeth gytundebol "a fyddai'n nodi priod ymrwymiadau, hawliau a rhwymedigaethau a.y.b. y partïon" a thrwy wneud yn siŵr bod eglurder o ran pwy oedd yn gallu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r cyfranddaliwr; gyda'r cyfranddaliwr yn golygu'r Cyngor lle'r oedd Silent Valley yn y cwestiwn.

- Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Byddwn wedi disgwyl i'r Cyngor fod wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn trwy lunio a chytuno ar fframwaith llywodraethu a hwnnw'n cynnwys:
  - cytundeb cyfranddaliwr neu reolwyr a hwnnw'n nodi hawliau'r Cyngor fel yr unig gyfranddaliwr a sut y gall arfer yr hawliau hynny;
  - cytundebau ariannol yn nodi pa gymorth fyddai'n cael ei roi i'r Cwmni, ac ar ba delerau; a hefyd
  - cynllun busnes a hwnnw'n nodi amcanion y busnes, sut y byddent yn cael eu cyflawni a safonau'n cael eu cyrraedd.

135 Penodwyd Mr Crook ar 5 Awst 2013 i olynu Mr Parsons fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor[5]. Fe wasanaethodd hefyd fel cyfarwyddwr ar Fwrdd Silent Valley rhwng 1 Mawrth 2016 ac 19 Mawrth 2018. Dywedodd Mr Crook wrth fy archwilwyr ei fod wedi cael ei wneud yn ymwybodol yn 2017 nad oedd contract yn bodoli rhwng y Cyngor a Silent Valley, a'i fod felly wedi cychwyn adolygiad a oedd wedi'i fwriadu i sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Y bwriad oedd y byddai'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn unioni'r berthynas rhwng y Cyngor a Silent Valley. Fodd bynnag, am amryw resymau, cafodd yr adolygiad ei atal. Dywedodd Mr Crook wrth fy archwilwyr, gan bod ganddo "wrthdaro buddiannau [roedd wedi cael ei benodi'n un o gyfarwyddwyr Silent Valley] nid [oedd ef] yn gallu gwneud sylwadau am y diffyg cynnydd". Er fy mod yn cydnabod bod adolygiad wedi cael ei gychwyn, fe ddigwyddodd hyn ryw bum mlynedd wedi i'r Cyngor gymryd rheolaeth dros Fwrdd Silent Valley ac ni chafodd ei gwblhau.

136 Roedd y methiant i sefydlu fframwaith llywodraethu cadarn wedi'i ddogfennu i unioni'r berthynas rhwng y Cyngor a Silent Valley, yn fy marn i, yn amryfusedd arwyddocaol a difrifol iawn.

[5] Fe wnaeth Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor, Mr Parsons, a benodwyd yn un o Gyfarwyddwyr Silent Valley ar 15 Mai 2012 adael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor ar 31 Awst 2013 a daeth ei swydd fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley i ben ar yr un dyddiad.

## Methodd y Cyngor â sefydlu trefniadau eglur o ran sut y byddai, fel unig gyfranddaliwr Silent Valley, yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â’r Cwmni

137 Mae’r angen am eglurder mewn prosesau penderfynu’n un o egwyddorion allweddol llywodraethu da.

138 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 28 Mawrth 2012 yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor hon ac yn nodi: “yr Awdurdod yw unig gyfranddaliwr y cwmni ac mae angen iddo sicrhau bod eglurder o fewn strwythur penderfynu'r Awdurdod o ran pwy sydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau yn y cymhwyster hwn. Yn ddelfrydol, nid un o’r cyfarwyddwyr [ar Fwrdd Silent Valley] ddylai hyn fod gan bod ganddynt rôl a chasgliad o gyfrifoldebau sy’n hollol wahanol ... Pan fo’r Awdurdod yn gwneud penderfyniadau yn ei gymhwyster fel cyfranddaliwr, mae’n gallu gwneud y rhain er budd pennaf yr Awdurdod. Gallai hyn fod, er enghraifft, yn benderfyniad i newid cyfansoddiad y cwmni’n sylfaenol neu yn wir i’w ddirwyn i ben.”

139 Mae’n arfer da bod awdurdodau lleol yn rhoi awdurdod dirprwyedig i un o swyddogion y Cyngor (cyfarwyddwr fel arfer) wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, fel cyfranddaliwr cwmni a berchnogir ac a reolir gan y Cyngor. Byddai’r unigolyn dan sylw’n cael ei gefnogi fel arfer gan fwrdd/grŵp cyfranddaliwr i ddarparu’r oruchwyliaeth angenrheidiol o safbwynt y cyfranddaliwr yr ymlynir wrth y polisïau a’r ffiniau y mae’r Cyngor fel y cyfranddaliwr wedi’u sefydlu ar gyfer y cwmni.

140 Roedd drafftiau cynnar o’r adroddiad a gafodd ei ystyried gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor ar 28 Mawrth 2012 yn cynnwys cynnig bod y Cyngor yn sefydlu Bwrdd/Grŵp Cyfranddaliwr. Roedd yr adroddiad drafft yn nodi enwau arfaethedig aelodau’r Bwrdd/Grŵp Cyfranddaliwr. Fel y digwyddodd, am resymau nad wyf wedi gallu eu canfod, ni chafodd y cynnig i sefydlu Bwrdd/Grŵp Cyfranddaliwr ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol a gyflwynwyd i gyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Cyngor ar 28 Mawrth 2012. Ni chafodd unrhyw drefniadau eraill eu sefydlu wedyn. Er bod y Cyngor wedi penodi cyfarwyddwyr i Fwrdd Silent Valley, nid oedd eu presenoldeb ar y Bwrdd yn gallu darparu’r gynrychiolaeth na’r oruchwyliaeth angenrheidiol am bod Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyfarwyddwyr a oedd yn gweithredu yn y cymhwyster hwnnw “weithredu yn y ffordd [yn eu tyb hwy], gyda phob ewyllys da, a fyddai fwyaf tebygol o hybu llwyddiant y cwmni er budd ei aelodau yn eu cyfanrwydd”. Er gwaethaf hynny, gan bod Silent Valley yn gwmni a berchnogir yn llawn gan y Cyngor, ceir buddiannau sy’n cyd-fynd â’i gilydd yn sylweddol rhwng rhai’r Cyngor a Silent Valley. Yn niffyg trefniadau digonol ar gyfer gwneud penderfyniadau gan y cyfranddaliwr, nid yw’n glir i mi sut y cafodd buddiannau’r Cyngor, fel unig gyfranddaliwr Silent Valley, eu cynrychioli o 2012 ymlaen, na pha un a oedd y Cyngor yn cael gweld materion mewn perthynas â Silent Valley y gallai fod wedi dymuno penderfynu yn eu cylch drosto’i hun.

## Methodd y Cyngor â sefydlu mecanweithiau priodol i adolygu a chraffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol Silent Valley

141 Gan mai'r Cyngor sydd â pherchnogaeth a rheolaeth lwyr ar Silent Valley, roedd dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu trefniadau i adolygu a chraffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol Silent Valley ac i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd da.

142 Yn fy marn i, gallai'r broses o adolygu a chraffu ar berfformiad fod wedi cael ei chynnal ar amryw lefelau gan gynnwys:

- Bwrdd/Grŵp Cyfranddaliwr y Cyngor (**gweler paragraff 139 i 140**)
- asesiadau gweithredol gan staff yn Adran yr Amgylchedd ac Adfywio Blaenau Gwent
- adroddiadau i aelodau ar berfformiad Silent Valley ar y cyfan
- adolygiadau gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor

143 Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth ar fy nghyfer bod y Cyngor wedi monitro nac adolygu perfformiad Silent Valley yn systematig rhwng 2012 a 2017.

144 Mae swyddogion o fewn Adrannau'r Amgylchedd ac Adfywio a Chyllid y Cyngor, a chyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cyngor i Fwrdd Silent Valley, wedi dweud wrth fy archwilwyr, er bod rhai trafodaethau gweithredol technegol wedi digwydd rhwng y Cyngor a swyddogion Silent Valley, nad ydynt yn ymwybodol bod unrhyw adroddiadau wedi'u cyflwyno i aelodau'r Cyngor mewn perthynas â pherfformiad Silent Valley.

145 Mae hyn yn achos pryder arbennig yn fy marn i oherwydd ers i'r Cyngor gymryd rheolaeth dros y Cwmni'n ffurfiol yn 2012, mae adroddiadau gan Silent Valley wedi bod yn nodi colledion o un flwyddyn i'r llall fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: perfformiad ariannol Silent Valley a gofnodwyd rhwng 2012-13 a 2018-19**

| Blwyddyn Ariannol | Incwm Gweithredu | Costau Gweithredu | Colled |
|---|---|---|---|
| 2012-13 | £3,725,147 | £3,878,601 | £153,454 |
| 2013-14 | £1,079,385 | £1,414,099 | £334,714 |
| 2014-15 | £772,967 | £1,065,665 | £292,698 |
| 2015-16 | £800,902 | £1,129,197 | £328,295 |
| 2016-17 | £1,123,252 | £1,438,730 | £315,478 |
| 2017-18 | £1,018,457 | £1,268,648 | £250,191 |

| Blwyddyn Ariannol | Incwm Gweithredu | Costau Gweithredu | Colled |
|---|---|---|---|
| 2018-19[6] | £1,032,239 | £1,365,533 | £333,294 |
| **Cyfanswm** | **£9,552,349** | **£11,560,473** | **£2,008,124** |

Ffynhonnell: Tŷ'r Cwmnïau, cyfrifon Silent Valley rhwng 2012-13 a 2018-19

146 Yn y blynyddoedd ariannol rhwng 2012-13 a 2018-19, fe wnaeth Silent Valley golled weithredu gronnus o fwy na £2 filiwn. Mae hyn yn fwy na 21% o'i incwm gweithredu am yr un cyfnod. Pe bai un o adrannau mewnol y Cyngor a oedd yn gweithredu gweithgarwch masnachu wedi nodi colledion o'r maint hwn, byddwn wedi disgwyl i swyddogion y Cyngor ddwyn y mater i sylw aelodau, ystyried newidiadau i'r contract neu derfynu'r contract, a datblygu cynllun adfer i sicrhau y byddai gwasanaethau statudol yn gallu cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy.

147 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw un o'r camau hyn mewn perthynas â Silent Valley. Roedd swyddogion y Cyngor a fyddai, dan amgylchiadau arferol, wedi arwain ar faterion mewn perthynas â gwasanaethau gwaredu gwastraff (Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor), wedi cael eu penodi'n gyfarwyddwyr Silent Valley yn 2012[7].

148 Dywedodd Mr Crook, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor o 5 Awst 2013, wrth fy archwilwyr "nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw argymhellion a wnaed yn 2012 heb gael eu rhoi ar waith".

[6] Fel a nodir ym **mharagraffau 260 i 264**, ar 19 Mawrth 2018, fe wnaeth y Cyngor derfynu penodiadau swyddogion i Fwrdd Silent Valley. Felly, ym mlwyddyn ariannol 2018-19 nid oedd unrhyw un o swyddogion y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley

[7] Rhoddodd Mr McAuliffe y gorau i fod yn Brif Swyddog Cyllid a Swyddog a151 y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2018

149 Fodd bynnag, fel a nodir uchod, ni chafodd argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 28 Mawrth 2012 eu rhoi ar waith ac, yn fy marn i, methodd y Cyngor â sefydlu mecanweithiau priodol i adolygu a chraffu ar berfformiad gweithredol ac ariannol Silent Valley.

# Cafodd swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley fel cyfarwyddwyr yn 2012 gydnabyddiaeth ariannol trwy gyflogres y Cyngor ar gyfer y penodiadau hyn ar gyfradd a bennwyd gan Fwrdd Silent Valley, ond ni wnaeth y Cyngor adfer cost lawn y penodiadau gan Silent Valley ac fe allai'r modd y cafodd y gydnabyddiaeth ariannol ei thrin fel tâl pensiynadwy fod wedi torri rheoliadau pensiwn

## Cafodd swyddogion y Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley fel cyfarwyddwyr yn 2012 gydnabyddiaeth ariannol trwy gyflogres y Cyngor ar gyfer y penodiadau hyn ar gyfradd a bennwyd gan y Bwrdd, ond ni wnaeth y Cyngor adfer cost lawn y penodiadau hyn gan Silent Valley

150 Ar 15 Mai 2012, cyfarfu Bwrdd Silent Valley a oedd ymadael am y tro olaf. Mae cofnodion y cyfarfod yn dangos bod y Bwrdd wedi ystyried a chymeradwyo'r canlynol:

- cynnig Erthyglau Cwmni newydd i'w hargymell wrth y Cyngor i gael eu cymeradwyo;
- penodi Mr McAuliffe a Mr Parsons yn gyfarwyddwyr newydd y Cwmni; a
- therfynu penodiadau cyfarwyddwyr a benodwyd i Fwrdd Silent Valley, Mr Morrison, Mr Axford ac un cyfarwyddwr arall (wedi marw erbyn hyn).

151 Bu toriad yn y cyfarfod, fe wnaeth y cyfarwyddwyr yr oedd eu penodiadau wedi dod i ben adael y cyfarfod, ac fe gyfarfu'r Bwrdd a oedd wedi'i ailgyfansoddi am y tro cyntaf ar ôl y toriad. Roedd y Bwrdd a ffurfiwyd o'r newydd yn cynnwys:

- Mr James (Rheolwr Cyffredinol ac un o gyfarwyddwyr Silent Valley)
- Mr Waggett (Un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor a Phrif Weithredwr y Cyngor)

- Mr Parsons (Un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor)
- Mr McAuliffe (Un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor a Phrif Swyddog Cyllid a Swyddog a151 y Cyngor)

152 Mr James oedd Rheolwr Cyffredinol Silent Valley ac roedd yn cael cydnabyddiaeth ariannol yn uniongyrchol gan y Cwmni (**gweler paragraffau 193 i 194**).

153 Roedd y tri chyfarwyddwr arall yn cael tâl o £11,568.96 y flwyddyn gan y Cyngor am weithredu fel cyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd cyfradd y gydnabyddiaeth ariannol yn cael ei phennu gan Fwrdd Silent Valley ac roedd yn cael ei hadolygu'n flynyddol bob mis Mai. Fe wnaeth Mr Waggett gwblhau a llofnodi ffurflenni diwygio'r gyflogres mewn perthynas â Mr McAuliffe a Mr Parsons a chafodd y ffurflenni eu cydlofnodi gan Reolwr Adnoddau Dynol y Cyngor. Cafodd y ffurflenni, y rhoddwyd y dyddiad 2 Gorffennaf 2012 arnynt, eu hanfon wedyn at Gyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor i gael eu prosesu. Roedd y ffurflenni'n nodi, "yn unol â'r hyn a gytunwyd a'r e-bost a wnewch chi dalu ffi Cyfarwyddwr o £11,568.96 y flwyddyn os gwelwch yn dda gan ddechrau o 15 Mai 2012 gyda Silent Valley yn cael ei anfonebu am y costau". Mae'r ffurflenni'n cyfeirio at fod yn gofnodion Bwrdd Silent Valley fel yr awdurdod perthnasol ar gyfer y cam gweithredu hwn. Yn fy marn i, er bod y ffurflenni'n nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud "yn unol â'r hyn a gytunwyd" ni allai hyn fod yn cyfeirio at gytundeb gan aelodau'r Cyngor oherwydd, fel a nodir ym **mharagraff 121**, nid oedd aelodau'r Cyngor wedi cytuno y dylai'r swyddogion dan sylw gael cydnabyddiaeth ariannol o £11,568,96 y flwyddyn am gyflawni'r rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley.

154 Yn dilyn ailstrwythuro Bwrdd Silent Valley yn 2012, fe barhaodd y Cyngor, fel yr oedd wedi'i wneud ers 2003, i drin y ffioedd cyfarwyddwyr a oedd yn cael eu talu i gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor fel taliadau pensiynadwy ac fe wnaeth gyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fel pe bai swyddi'r unigolion dal sylw fel cyfarwyddwyr Silent Valley a'u cyflogaethau gyda'r awdurdod lleol yn gyflogaethau unigol. Talodd y Cyngor gyfarniadau yswiriant gwladol cyflogwr i CaThEM hefyd mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth ariannol am y rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley.

155 Roedd y Cyngor yn anfonebu Silent Valley am gost y ffioedd cyfarwyddwyr a oedd yn cael eu talu i Mr Waggett, Mr McAuliffe a Mr Parsons. Fodd bynnag, ni wnaeth anfonebu Silent Valley am gost y cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn cyflogwr a ysgwyddwyd mewn perthynas â'r holl gyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cyngor rhwng 5 Chwefror 2003 ac 19 Mawrth 2018. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi manylion y costau hyn.

**Arddangosyn 3: cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr a ysgwyddwyd gan y Cyngor mewn perthynas â chyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor rhwng 5 Chwefror 2003 ac 19 Mawrth 2018**

| Cyfarwyddwr | Cyfnod | Yswiriant Gwladol | Cyfraniadau blynyddol pensiwn | Costau Straen Pensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr Morrison | 05/02/2003-31/03/2011 | £11,098.56 | £18,364.16 | £12,454.04 | £41,916.76 |
| Mr Waggett | 19/05/2011-29/02/2016 | £7,774.15 | £12,169.74 | £20,279.23 | £40,223.12 |
| Mr Parsons | 15/05/2012-31/08/2013 | £2,068.60 | £3,246.93 | £8,513.03 | £13,828.l56 |
| Mr McAuliffe | 15/05/2012-19/03/2018 | £9.334.47 | £14,600.68 | £7,741.89 | £31,677.04 |
| Mr Crook | 01/04/2016-19/03/2018 | £3,274.58 | £5,101.69 | | £8,376.27 |
| **Cyfanswm** | | **£33,550.36** | **£53,483.21** | **£48,988.19** | **£136,021.76** |

Ffynhonnell: Cofnodion ariannol y Cyngor

156 Ar 2 Rhagfyr 2019, fe ysgrifennodd y Cyngor at Silent Valley yn gofyn iddo ad-dalu'r costau a nodir yn **Arddangosyn 3**. Fe wrthododd Silent Valley dalu'r costau hyn.

## Fe allai'r modd y gwnaeth y Cyngor drin taliadau a wnaed o 2012 ymlaen i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â swyddogion y Cyngor a benodwyd yn gyfarwyddwyr Silent Valley fod wedi torri rheoliadau pensiwn

157 Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (Rheoliadau 2007), ar y cyd â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008 (Rheoliadau 2008) oedd yn llywodraethu gweithrediad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar yr adeg y cafodd Mr McAuliffe a Mr Parsons eu penodi'n gyfarwyddwyr Silent Valley, a phan gafodd penodiad Nr Waggett ei gadarnhau drachefn yn 2012. Mae Rheoliadau 2008 yn nodi pwy oedd â hawl i fod yn aelod gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd hyn yn cynnwys:

- person a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
- person a gyflogir gan gwmni sydd dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, lle'r oedd y Cwmni wedi gwneud penderfyniad y gall cyflogai neu

ddosbarth o gyflogeion fod yn aelod(au) o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Er bod Silent Valley yn gwmni o'r fath, yn fy marn i, ni wnaeth benderfyniad a oedd yn galluogi cyfarwyddwyr Silent Valley i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

158 Roedd Rheoliadau 2007 yn diffinio'r tâl y gellid gwneud cyfraniadau pensiwn mewn perthynas ag ef fel "cyfanswm yr holl gyflog, pae, ffioedd a thaliadau eraill a wnaed iddo ar gyfer ei ddefnydd ei hun mewn perthynas â'i gyflogaeth; ac unrhyw daliad arall neu fudd a nodir yn ei gontract cyflogaeth fel tâl pensiynadwy"

159 Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi bod "rhaid i berson sy'n aelod gweithredol mewn mwy nag un gyflogaeth wneud cyfraniadau ar gyfer pob un o'r cyflogaethau hynny". Ni allai cyflogaethau gael eu cyd-gyfuno a'u hystyried fel un gyflogaeth at ddibenion pensiwn.

160 Yn fy marn i, roedd penodiadau Mr Waggett, Mr McAuliffe a Mr Parsons fel cyfarwyddwyr Silent Valley yn benodiadau/cyflogaethau ar wahân at ddibenion pensiwn. Y rhesymau yr wyf wedi dod i'r farn hon yw:

- ni wnaeth y Cyngor nodi unrhyw ddyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol y byddai'n ofynnol iddynt eu cyflawni ar ran y Cyngor fel rhan o'u rolau craidd yn y Cyngor
- ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i gyfarwyddwyr Silent Valley. Silent Valley oedd yn pennu'r cyflog ar gyfer ei gyfarwyddwyr. Mae'n anodd gweld sut y gellid ystyried bod y gydnabyddiaeth gan Silent Valley yn rhan o gyflog y swyddogion hyn gan y Cyngor pan na wnaeth y Cyngor bennu eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Silent Valley na phenderfynu beth fyddai'r cyflog am y gwaith hwnnw
- gan na wnaeth y Cyngor gymeradwyo swm y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu i Mr Waggett, Mr McAuliffe a Mr Parsons am gyflawni eu rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley, fel sy'n ofynnol yn ôl cyfansoddiad y Cyngor, hyd yn oed os oedd y bobl hyn yn cyflawni eu rolau gyda Silent Valley fel rhan o'u dyletswyddau ar ran y Cyngor, ni ddylai unrhyw gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd iddynt fod wedi cael ei thrin fel tâl pensiynadwy, gan nad oedd y gydnabyddiaeth ariannol ei hun wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor
- roedd cost y ffi flynyddol i gyfarwyddwyr a oedd yn cael ei thalu gan y Cyngor i'r swyddogion perthnasol yn cael ei hailgodi ar Silent Valley. Felly nid oedd y Cyngor yn atebol am y ffi, ac ymddengys mai dim ond am bod y trefniant yn hwylus yn weinyddol yr oedd y Cyngor yn talu'r ffi yn gyntaf
- roedd y taliadau i'r swyddogion mewn perthynas â Silent Valley yn cael eu nodi ar wahân yng nghyfrifon y Cyngor ac o fewn eu ffeiliau cyflogeion, gan ddynodi nad oedd y cyflog ar gyfer Silent Valley yn cael ei gydgrynhoi
- ni wnaeth y Cyngor benderfyniad ar unrhyw adeg y dylai'r gydnabyddiaeth ariannol y byddai'r swyddogion perthnasol yn ei chael mewn perthynas â'u swyddi fel cyfarwyddwyr Silent Valley gael ei thrin fel tâl pensiynadwy

- ar 16 Awst 2017, fe ysgrifennodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor ar y pryd at Mr McAuliffe (a Mr Crook, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor a benodwyd i Fwrdd Silent Valley ar 1 Mawrth 2016) gan ddatgan bod "y rôl gyda'r Cwmni ar gais y Cyngor (ac yn ymrwymiad ar wahân y mae'r Cyngor yn rhoi cydnabyddiaeth ariannol amdano nad yw'n gyfystyr â chydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am eich dyletswyddau craidd fel un o swyddogion y Cyngor). Mae'r rôl a gyflawnir gennych wedi'i chymeradwyo ac wedi'i chofnodi'n glir gan y Cyngor yng nghofnodion ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a/neu adroddiadau ar wahân ... a bod y taliad wedi'i gofnodi'n glir gan y Cyngor yn ei ddatganiad polisi cyflog."[8] Fe ymatebodd Mr McAuliffe a Mr Crook gan dderbyn y swydd fel y'i nodwyd.

161 Yn fy marn i, ni ddylai'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i Mr Waggett, Mr McAuliffe, Mr Parsons a Mr Crook mewn perthynas â'u penodiadau fel cyfarwyddwyr Silent Valley fod wedi cael ei thrin fel tâl pensiynadwy gan y Cyngor, ac ni ddylai'r Cyngor fod wedi talu cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar sail cyflog a gynyddwyd gan y gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â Silent Valley. Ni allaf weld unrhyw reswm dilys pam fod y Cyngor wedi talu cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth ar gyfer y rolau fel cyfarwyddwyr Silent Valley pan nad oedd yn atebol am dalu.

162 Trwy drin penodiadau Mr Waggett, Mr McAuliffe a Mr Parsons gyda Silent Valley a'r Cyngor fel penodiadau unigol at ddibenion pensiwn, nid yw'n glir bod y Cyngor wedi cydymffurfio â Rheoliadau 2007 (**gweler paragraff 97**). Nid oedd penodiadau'r swyddogion hyn gyda'r Cyngor a Silent Valley yn gyfamserol. Trwy gyfuno'r ddau benodiad at ddibenion pensiwn, cafodd y penodiadau hynny eu trin fel pe baent yn gyfamserol, a chafodd buddion pensiwn eu cyfrifo fel pe baent wedi bod yn gyfarwyddwyr Silent Valley am yr un cyfnod ag y buont yn gwasanaethu fel swyddogion llywodraeth leol. Ym mhob achos, roedd y penodiadau fel cyfarwyddwyr Silent Valley yn rhai am amser llawer byrrach.

163 O ganlyniad, mae'n debygol bod y swyddogion hyn wedi cronni buddion pensiwn uwch nag yr oedd ganddynt hawl gyfreithlon iddynt.

[8] Cafodd penodiadau Mr McAuliffe a Mr Crook fel cyfarwyddwyr Silent Valley, a'r gydnabyddiaeth ariannol y byddent yn ei chael am y rolau hyn eu gwneud yn hysbys i'r aelodau yn natganiadau polisi cyflog blynyddol y Cyngor a gaiff eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Cafodd y gydnabyddiaeth ariannol a fyddai'n cael ei thalu mewn perthynas â'r rolau hyn ei chofnodi yng nghyfrifon blynyddol y Cyngor hefyd. Nid yw'r polisi cyflog blynyddol na'r cyfrifon blynyddol yn nodi bod y gydnabyddiaeth ariannol yn cael ei thrin fel tâl pensiynadwy dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar ben hynny, fel a nodir ym mharagraff 121, ni wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rolau hyn fel sy'n ofynnol yn ôl cyfansoddiad y Cyngor.

164 Rwy'n cydnabod mai dim ond llys barn allai benderfynu'n bendant a dorrwyd y Rheoliadau, ond rwy'n ystyried ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod y rheoliadau wedi cael eu torri.

## Ar 3 Ebrill 2012 fe bleidleisiodd aelodau Bwrdd Silent Valley a oedd yn ymadael i wneud taliadau rhodd o £11,569 i bob aelod o'r Bwrdd a oedd yn ymddeol yn groes i ddogfen lywodraethu Silent Valley, er bod pawb heblaw un o'r rhai a oedd yn bresennol yn mynd i elwa'n ariannol o'r penderfyniad

165 Ar 3 Ebrill 2012, cyfarfu Bwrdd Silent Valley a oedd yn ymadael. Yn bresennol roedd:

- Mr James (Rheolwr Cyffredinol Silent Valley a Chyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr blaenorol y Cyngor)
- Mr Morrison (Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor a phenodiad gan Silent Valley i'r Bwrdd o 19 Mai 2011)
- Mr Waggett (Prif Weithredwr y Cyngor ar y pryd a chyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor i Fwrdd Silent Valley o 19 Mai 2011)
- Mr Axford (Prif Archwilydd Mewnol blaenorol y Cyngor a phenodiad gan Silent Valley i'r Bwrdd o 19 Mai 2011)
- Un cyfarwyddwr anweithredol arall (sydd bellach wedi marw) a benodwyd gan Silent Valley

166 Mae Mr Morrison wedi dweud wrth fy archwilwyr bod cyfarfod y Bwrdd wedi cael ei hysbysu gan Mr Waggett bod y Cyngor wedi penderfynu terfynu penodiadau'r holl gyfarwyddwyr ac eithrio'i un ef ei hun (un Mr Waggett) ac un Mr James.

167 Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012 yn nodi, yn fras, y newidiadau yr oedd y Cyngor wedi penderfynu eu gwneud mewn perthynas â'r Cwmni, a oedd yn cynnwys terfynu penodiadau Mr Morrison, Mr Axford a'r cyfarwyddwr sydd bellach wedi marw.

168 Mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd yn nodi bod Mr Waggett "wedi awgrymu y dylai'r cyfarwyddwyr yr oedd eu penodiadau'n cael eu terfynu gael [taliad] ex gratia a oedd yn gyfwerth â ffi cyfarwyddwr am un flwyddyn". £11,568.96 oedd y ffi flynyddol ar gyfer cyfarwyddwr ar y pryd. Mae'r cofnodion yn nodi bod y Bwrdd "wedi cymeradwyo'r taliad ex gratia a awgrymwyd [gan Mr Waggett] i gyfarwyddwyr yr oedd eu penodiadau'n cael eu terfynu. Gofynnodd [Mr Morrison] a fyddai'r un ystyriaeth yn berthnasol i [Mr James] pan fyddai ei benodiad ef yn cael ei derfynu ac fe gadarnhaodd [Mr Waggett] y byddai". Mae Mr Morrison wedi

dweud wrth fy archwilwyr ei fod wedi gwneud yr awgrym hwn am ei fod am wneud yn siŵr bod yr holl gyfarwyddwyr yn cael eu trin yn gyfartal.

169 Mae Mr Waggett yn haeru bod cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012 yn anghywir mewn nifer o ffyrdd. Mae'n haeru fel a ganlyn:

- nad taliadau ex-gratia oedd y taliadau i'r cyfarwyddwyr oedd yn ymadael fel a nodir yn y cofnodion ond taliadau i setlo hawliadau cyfreithiol posibl y gallai'r cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael fod wedi'u dwyn am bod eu swyddi wedi cael eu terfynu'n gynnar. Mae'n haeru bod un o'r cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael wedi bygwth camau cyfreithiol am bod ei benodiad yn cael ei derfynu cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd y'i penodwyd ar ei gyfer.
- dim ond ef, Mr Waggett, a Mr James gymeradwyodd y taliadau. Mae'n haeru bod y cyfarwyddwyr Silent Valley a oedd yn ymadael wedi datgan eu buddiannau ac na wnaethant bleidleisio ar y taliadau arfaethedig.
- er bod y cofnodion yn nodi bod Mr Morrison wedi gofyn, "a fyddai'r un ystyriaeth yn berthnasol i [Mr James] pan fyddai ei benodiad ef yn cael ei derfynu ac fe gadarnhaodd [Mr Waggett] y byddai", mae Mr Waggett yn haeru na wnaeth gytuno y byddai taliad yn y dyfodol yn cael ei wneud i Mr James y tu hwnt i'r swm y byddai ganddo hawl iddo dan ei gontract cyflogaeth.

170 Nid wyf yn derbyn atgof Mr Waggett o'r cyfarfod am y rhesymau canlynol:

- cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012 yw cofnod swyddogol y trafodion yn y cyfarfod hwnnw. Os oedd cofnodion y cyfarfod hwnnw mewn perthynas â'r taliadau i'r cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael yn sylfaenol anghywir fel y mae Mr Waggett yn ei haeru, byddwn wedi disgwyl i'r cofnodion fod wedi cael eu cywiro cyn cael eu cymeradwyo i sicrhau eu cywirdeb ffeithiol. Mae atgof Mr Waggett o'r digwyddiadau'n wahanol i atgofion pobl eraill a oedd yn bresennol yn y cyfarfod nad ydynt wedi ceisio haeru mai setlo hawliadau posibl oedd diben y taliadau. Ar ben hynny, mae cyfrifon Mr James a Mr Morrison ill dau'n ategu'r cofnod bod y Bwrdd wedi cytuno y byddai gan Mr James hawl i daliad yn y dyfodol.
- ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ddogfennol ar gyfer fy archwilwyr sy'n dynodi bod y taliadau wedi'u bwriadu i setlo hawliadau cyfreithiol posibl, ac nid yw cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2011 yn cyfeirio at setlo hawliadau posibl. Mae Mr Waggett yn haeru ei fod yn cofio cael ei gynghori gan Mr James cyn cyfarfod y Bwrdd "bod cynsail wedi cael ei gosod a'i fod wedi ceisio cyngor cyfreithiol yn 2011 mewn perthynas â chyfarwyddwr". Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 6 Mehefin 2011 yn cyfeirio at gyngor cyfreithiol yr oedd Silent Valley wedi gofyn amdano ynghylch gwneud taliadau ex-gratia ac nid cyngor ynghylch setlo hawliadau cyfreithiol posibl (**gweler paragraff 174**).
- Mae Mr Waggett yn haeru mai dim ond ef a Mr James a gymeradwyodd y taliadau, a bod y cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael wedi datgan eu

buddiannau. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y cyfarfod yn nodi bod buddiannau wedi cael eu datgan, nac mai dim ond dau gyfarwyddwr bleidleisiodd ar y cynnig. Mae Mr James yntau wedi dweud wrth fy archwilwyr mai dim ond ef a Mr Waggett bleidleisiodd ar y cynnig. Fodd bynnag, mae cyfrif Mr James yn wahanol i gyfrif Mr Waggett yn yr ystyr bod Mr James yn haeru y cytunwyd y dylai ef gael taliad yn y dyfodol. Mae'r cyfrifon a roddwyd gan Mr Waggett a Mr James yn broblemus. Os oedd cymeradwyaeth y Bwrdd yn cynnwys cytundeb y byddai Mr James yn cael taliad yn y dyfodol, fel a nodir yn y cofnodion, yna roedd Mr James, oherwydd ei fuddiant yn y mater, wedi'i wahardd gan Femorandwm ac Erthyglau Cwmni Silent Valley rhag pleidleisio ar y mater (**gweler paragraff 173, pwynt bwled 2**). Dau aelod oedd y cworwm ar gyfer cyfarfod Bwrdd Silent Valley, ac felly os oedd pedwar o'r pum aelod a oedd yn bresennol yn methu â phleidleisio ar y penderfyniad, nid oedd y penderfyniad yn gallu cael ei wneud dan Erthyglau'r Cwmni. Mae'n anodd gweld sut y gallai'r taliadau fod wedi bod yn rhai i setlo hawliadau cyfreithiol posibl mewn perthynas â therfynu penodiadau cyfarwyddwyr yn gynnar o ystyried bod Bwrdd Silent Valley wedi cytuno y byddai Mr James yn cael taliad yn y dyfodol er bod ei benodiad yn parhau.

171 Dywedodd Mr James wrth fy archwilwyr ei fod: "yn cofio na wnaeth y tri chyfarwyddwr a oedd yn ymadael gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad mewn perthynas â chymeradwyo eu taliadau ex-gratia hwy eu hunain (a oedd yn ddull o sicrhau bod eu penodiad fel Cyfarwyddwyr ar y Bwrdd yn cael ei derfynu". Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 3 Ebrill 2012 yn nodi bod y cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael yn bresennol ac wedi chwarae rhan yn y drafodaeth ynglŷn â thaliadau ac nid yw'r cofnodion yn nodi bod buddiannau wedi cael eu datgan na bod y rhai a oedd yn bresennol heb bleidleisio ar y mater. Rwyf hefyd yn nodi nad oedd yn angenrheidiol i daliadau gael eu gwneud i'r cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael i "sicrhau bod eu penodiad fel Cyfarwyddwyr ar y Bwrdd yn cael ei derfynu". Mae Erthyglau Cwmni Silent Valley yn nodi bod y Cyngor, fel yr Awdurdod Rheolaethol, "yn gallu cael gwared ag unrhyw Gyfarwyddwr cyn bod ei gyfnod yn y swydd yn dod i ben er gwaethaf unrhyw beth a geir yn yr Erthyglau hyn neu mewn unrhyw gytundeb rhwng y Cwmni a Chyfarwyddwr o'r fath".

172 Nid oedd gan unrhyw un o gyfarwyddwyr Silent Valley, ac eithrio Mr James, hawl gytundebol i gael taliad gan Silent Valley pan fyddai eu swyddi fel cyfarwyddwyr yn cael eu terfynu. Roedd sefyllfa Mr James yn wahanol i'r cyfarwyddwyr eraill am bod ganddo ef, fel Rheolwr Cyffredinol y Cwmni, gontract cyflogaeth ysgrifenedig a oedd yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â therfynu ei gyflogaeth (**paragraffau 208 i 210**). Ar ben hynny, gan nad wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth gyfoes i ddynodi mai i setlo hawliadau cyfreithiol y gwnaed y taliadau i'r cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael, (neu fod Silent Valley a/neu'r Cyngor wedi ceisio cyngor i ganfod a oedd sail i'r cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael wneud hawliadau

o'r fath), rwy'n ystyried bod y taliadau fel a nodir yng nghofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012, yn daliadau 'ex-gratia' neu'n daliadau cydnabyddiaeth.

173 Rwy'n ystyried bod penderfyniad y Bwrdd i dalu £11,568.96 yr un i'r cyfarwyddwyr yr oedd eu penodiadau'n cael eu terfynu, ac i ymrwymo i wneud taliad yn y dyfodol i Mr James pan fyddai'n peidio â bod yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley, yn fy marn i, wedi torri Erthyglau Silent Valley a'r Ddeddf Cwmnïau, ac yn adlewyrchu'n wael ar drefniadau goruchwylio'r Cyngor mewn perthynas â'r Cwmni. Mae fy rhesymau dros ddod i'r farn hon fel a ganlyn:

- Mae Memorandwm ac Erthyglau Cwmni Silent Valley, y ddogfen sy'n llywodraethu gweithrediad y Cwmni, yn nodi y gall y Cwmni wneud taliadau rhodd i gyfarwyddwyr. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hefyd yn nodi na ddylai cyfarwyddwyr Silent Valley wneud unrhyw daliad o'r fath "ac eithrio gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig rhag blaen gan Awdurdod Rheolaethol y Cwmni" h.y. y Cyngor. Ni wnaeth Silent Valley ofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig na chael cymeradwyaeth ysgrifenedig rhag blaen gan y Cyngor.
- Mae Memorandwm ac Erthyglau Cwmni Silent Valley yn nodi "na ddylai cyfarwyddwyr bleidleisio mewn cyfarfod cyfarwyddwyr neu bwyllgor cyfarwyddwyr ar unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â mater y mae ganddynt, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant neu ddyletswydd sy'n berthnasol ac sy'n gwrthdaro neu a allai wrthdaro â buddiannau'r Cwmni". Mae'r ddogfen yn darparu nifer o eithriadau i hyn, nad yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar 3 Ebrill 2012. Rwy'n ystyried bod gan bedwar o'r pum cyfarwyddwr a oedd yn bresennol fuddiant personol ac ariannol perthnasol yn y penderfyniad a oedd yn eu hanghymhwyso. Rwyf hefyd yn ystyried bod y penderfyniad yn gwrthdaro neu y gallai fod wedi gwrthdaro â buddiannau'r Cwmni, yn yr ystyr ei fod wedi arwain at daliadau a oedd yn gyfanswm o £34,706.88 mewn sefyllfa lle nad oedd rhwymedigaeth ar y Cwmni i wneud taliad. Yn unol ag Erthyglau Silent Valley, gallai'r Cyngor fod wedi cymeradwyo'r achosion hyn o wrthdaro trwy benderfyniad cyffredin, ond nid oes unrhyw awgrym ei fod wedi gwneud hynny. Ar ben hynny, trwy wneud y penderfyniad, fe gytunodd y Bwrdd hefyd i wneud taliad yn y dyfodol i Mr James pan fyddai ei gyflogaeth ef yn cael ei therfynu (**gweler paragraffau 212 i 224**). Nid yw cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 3Ebrilll 2012 yn nodi bod y cyfarwyddwyr dan sylw wedi datgan eu buddiant yn y taliadau arfaethedig.
- o dan Adran 175 Deddf Cwmnïau 2006, "rhaid i gyfarwyddwr cwmni osgoi sefyllfa y mae ganddo, neu y gall fod ganddo, fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol ynddo, sy'n gwrthdaro, neu a allai wrthdaro o bosibl, â buddiannau'r cwmni", ac mae Adran 177 o'r Ddeddf honno'n nodi: "Os oes gan gyfarwyddwr cwmni mewn unrhyw ffordd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant mewn trafodiad neu drefniant arfaethedig gyda'r cwmni, rhaid iddo ddatgan natur a maint y buddiant hwnnw wrth y

cyfarwyddwyr eraill”. Rwy’n ystyried na wnaeth y cyfarwyddwyr a oedd â buddiannau yn y cynnig ynghylch taliadau ex-gratia (y byddent hwy’n bersonol yn elwa ohonynt) gymryd camau i osgoi’r gwrthdaro buddiannau, ac na wnaethant ddatgan eu buddiant mewn perthynas â’r trafodion arfaethedig.

174 Dywedodd Mr James wrth fy archwilwyr ei fod yn deall bod gan Silent Valley yr awdurdod i wneud taliadau ex-gratia i gyfarwyddwyr a oedd yn ymadael a bod hyn wedi cael ei gadarnhau pan geisiodd gyngor cyfreithiol allanol ynghylch pa un a ellid gwneud taliad i gyfarwyddwr a oedd yn ymadael yn 2011. Nid yw fy archwilwyr wedi gweld y cyngor hwn ac felly nid ydynt wedi gweld ei fanylion. Fodd bynnag, cyflwynwyd crynodeb o’r cyngor i gyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 6 Mehefin 2011, ac fe hysbyswyd y Bwrdd:

- fod gan y Bwrdd ddisgresiwn i wneud taliadau ex-gratia.
- y “dylid gofyn i gyfarwyddwyr sy’n ymadael gadarnhau nad oes ganddynt hawl i unrhyw ddigollediad am golli swydd a chydnabod nad oes ganddynt unrhyw hawliadau pellach o gwbl” a’i fod “yn beth prin iawn i daliad gael ei wneud dan amgylchiadau o’r fath”.

175 Rwy’n nodi, yn unol â’r cyngor cyfreithiol a gafodd Silent Valley yn 2011, bod cyfarwyddwyr Silent Valley y cafodd eu penodiadau eu terfynu yn 2011 wedi llofnodi dogfennau i gadarnhau nad oedd “unrhyw hawliad na hawl i achos cyfreithiol o unrhyw fath ar ôl ganddynt am ddigollediad neu fel arall yn erbyn y Cwmni nac unrhyw un o’i swyddogion neu gyflogeion mewn perthynas â therfynu fy swydd neu fel arall”.

176 Fel a nodir uchod, mae Erthyglau Cwmni Silent Valley yn rhoi’r pŵer i Silent Valley wneud taliadau rhodd i gyfarwyddwyr. Fodd bynnag, maent hefyd yn nodi na ddylai cyfarwyddwyr Silent Valley wneud unrhyw daliad o’r fath heb gymeradwyaeth ysgrifenedig rhag blaen gan y Cyngor. Nid yw Silent Valley wedi cadw copi o’r cyngor cyfreithiol a roddwyd yn 2011, ac felly nid yw’n glir i mi a oedd y gofyniad i gael cymeradwyaeth gan y Cyngor ar gyfer taliadau o’r fath wedi’i nodi ynddo. Dywedodd Mr Waggett wrth fy archwilwyr, er na cheisiwyd cymeradwyaeth gan y Cyngor ar gyfer y taliad, ei fod wedi hysbysu “Arweinwyr y Cyngor yn y dyddiau yn dilyn y penderfyniad bod rhaid gwneud taliadau i osgoi hawliadau cyfreithiol”.

177 Rwy’n nodi bod Mr Morrison a Mr Axford, y cafodd eu swyddi fel cyfarwyddwyr eu terfynu ar 15 Mai 2012, heb gael eu penodi gan Silent Valley i’w Fwrdd tan 19 Mai 2011 ac eto fe gawsant daliadau ex-gratia a oedd yn gyfwerth â ffi cyfarwyddwr am un flwyddyn.

178 Dywedodd Mr Morrison wrth fy archwilwyr ei fod wedi cael ei sicrhau gan Mr Waggett a Mr James bod y taliadau arfaethedig “yn gwbl gyfreithlon dan ddeddfwriaeth y ddeddf cwmnïau” a’i fod yn tybio bod y Cyngor wedi cytuno â’r taliadau.

179 Yn fy marn i, mae’r ffordd y cafodd taliadau ex-gratia eu gwneud i gyfarwyddwyr Silent Valley a oedd yn ymadael yn 2012 yn dynodi nad oedd trefniadau’r Cyngor i

sicrhau gwerth am arian o ran ei ddefnydd o adnoddau cyhoeddus trwy Silent Valley yn gweithredu'n effeithiol. Roedd ac mae'r Cyngor yn llwyr berchen ar Silent Valley ac felly mae'r asedau a ddelir ac a reolir gan Silent Valley yn asedau cyhoeddus. Felly, roedd dyletswydd ar y Cyngor i wneud y siŵr ei fod wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio'i adnoddau trwy Silent Valley. Er nad oedd Silent Valley yn cael ei reoli gan y Cyngor ym mis Ebrill 2012, yn yr ystyr nad y Cyngor oedd yn penodi'r mwyafrif o'r cyfarwyddwyr i Fwrdd Silent Valley, roedd y Cyngor yn dal i allu sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian trwy fecanweithiau megis ei gontract gwasanaeth gyda Silent Valley, trwy benodi cyfarwyddwr i Fwrdd Silent Valley i gynrychioli buddiannau'r Cyngor, a thrwy gydymffurfio ag Erthyglau'r Cwmni. Roedd yr Erthyglau'n nodi penderfyniadau mewn perthynas â Silent Valley yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor eu cymeradwyo, megis cymeradwyo taliadau ex-gratia i gyfarwyddwyr Silent Valley. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, ni chafodd y taliadau eu cymeradwyo gan y Cyngor.

180 Ar ben hynny, ymddengys i mi fod Mr Waggett, fel y cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley, heb gynrychioli buddiannau'r Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn mewn modd effeithiol. Cynigiodd Mr Waggett benderfyniad a achosodd i dri o'i gydweithwyr blaenorol yn y Cyngor gael taliadau sylweddol a oedd, yn fy marn i, yn torri Erthyglau'r Cwmni a'r Ddeddf Cwmnïau. Nid yw'n glir i mi a oedd Mr Waggett, wrth wneud y cynnig hwn, yn credu ei fod yn gweithredu yn ei rôl fel Prif Weithredwr y Cyngor ynteu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Yn y naill achos neu'r llall, nid yw'n ymddangos bod y cynnig er budd y Cyngor nac er budd y Cwmni. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Mr Waggett wedi ceisio cyngor allanol ynghylch y cynnig nac wedi gwneud y Cyngor yn ymwybodol o'r taliadau.

181 Dywedodd Mr Waggett wrth fy archwilwyr "nad oedd unrhyw ymgais bwriadol ar [ei ran ef] i beri bod Erthyglau'r Cwmni'n cael eu torri, ond ymddengys y bu amryfusedd o ran peidio â chael cymeradwyaeth y Cyngor yn ysgrifenedig". Mae hefyd yn haeru "fy mod yn credu fy mod yn gweithredu er budd pennaf y Cwmni ac yn gweithredu yn fy rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Mae fy marn yn glir; nid oeddwn yn cymeradwyo taliad yn y dyfodol i Mr James gan ei fod ef yn parhau i weithio a'i fod wedi gwneud hynny am 4 blynedd arall".

182 Dywedodd Mr Waggett wrth fy archwilwyr, ers corffori Silent Valley, nad oedd cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Cyngor wedi cael ei cheisio ar gyfer rhai materion yr oedd yn ofynnol cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Cyngor iddynt. Mae ef felly'n haeru "Rwy'n credu mai defod ac arfer o'r Diwrnod 1af oedd bod yr erthygl benodol hon [sy'n ymwneud â materion yr oedd yn ofynnol cael cymeradwyaeth ysgrifenedig iddynt gan y Cyngor] wedi cael ei hanwybyddu ac felly bod amrywiad i'r Erthyglau yn ei le". Rwy'n derbyn bod efallai nad oedd y methiant i gael cymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyngor i'r taliadau ex-gratia a wnaed i gyfarwyddwyr a oedd yn ymadael yn 2012 yn enghraifft unigol. Mae Silent Valley, yn ei sylwadau ar yr adroddiad hwn, yn haeru na wnaeth Silent Valley geisio

cymeradwyaeth y Cyngor ar unrhyw adeg o 1992 ymlaen i wneud unrhyw daliadau i gyfarwyddwyr Silent Valley, ac nad oes ganddo unrhyw ohebiaeth oddi wrth y Cyngor yn cymeradwyo taliadau o'r fath. Fodd bynnag, yn fy marn i nid yw dilyn "defod ac arfer" yn gyfiawnhad dros beidio â chydymffurfio â gofynion Erthyglau'r Cwmni.

## Rhwng 2013 a 2016 fe wnaed newidiadau i aelodaeth Bwrdd Silent Valley, ond fe barhawyd i drin cydnabyddiaeth ariannol gan Silent Valley fel tâl pensiynadwy dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

183 Ar 31 Awst 2013 gadawodd Mr Parsons ei gyflogaeth fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor ac fe derfynwyd ei swydd fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley ar yr un diwrnod. Roedd Mr Parsons wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley am 19½ mis. Ni phenododd y Cyngor gyfarwyddwr arall yn lle Mr Parsons ar Fwrdd Silent Valley.

184 Ar 19 Tachwedd 2015, fel rhan o gynnig ailstrwythuro corfforaethol, fe gytunodd y Cyngor y byddai swydd y Prif Weithredwr yn cael ei dileu ac y byddai Mr Waggett, fel deiliad y swydd, yn colli ei swydd ar 29 Chwefror 2016. Ar 29 Chwefror 2016, fe wnaeth Mr Waggett, Prif Weithredwr y Cyngor, adael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor ac fe derfynwyd ei swydd fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Roedd Mr Waggett wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley am 4 blynedd a 9 mis. Ar 5 Gorffennaf 2016, fe wnaeth Silent Valley benodi Mr Waggett fel ei Reolwr Cyffredinol, cyfarwyddwr ac ysgrifennydd y cwmni (**paragraffau 228 i 252**).

185 Ar 25 Chwefror 2016, ychydig cyn i Mr Waggett adael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor, fe wnaeth cyfarfod y Cyngor ystyried adroddiad gan ei Gyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a oedd newydd ei benodi ar y pryd. Roedd yr adroddiad yn nodi trefniadau ar gyfer dosbarthu dyletswyddau a chyfrifoldebau oherwydd yr ailstrwythuro. Roedd yr adroddiad yn nodi "bydd rôl y [Prif Weithredwr] fel Cyfarwyddwr a enwebwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley yn trosglwyddo i Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd ac Adfywio [Mr Crook] (o 1 Mawrth 2016). Fel un o Gyfarwyddwyr y Cwmni bydd y cynrychiolydd a benodwyd yn ddarostyngedig i'r amryw ddarpariaethau a rhwymedigaethau personol sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth ac ar yr amod bod y cynrychiolydd a benodwyd bob amser yn gweithredu'n rhesymol, yn gyfreithlon ac â phob ewyllys da, ar ôl ceisio a rhoi ystyriaeth i'r holl gyngor perthnasol a phroffesiynol". Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â'r rôl fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Mae cofnodion y cyfarfod ar

25 Chwefror 2016 yn nodi bod y Cyngor wedi cymeradwyo enwebiad Mr Crook fel cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley.

186 Y ffi cyfarwyddwr a oedd yn daladwy i gyfarwyddwyr Silent Valley ar adeg penodi Mr Crook oedd £11,568.96 y flwyddyn. Ar 29 Mawrth 2016, fe ysgrifennodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor at Mr Crook yn cadarnhau ei benodiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley a'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rôl. Nid oedd y llythyr yn nodi bod y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rôl yn bensiynadwy o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, fel a ddigwyddodd gyda chyfarwyddwyr eraill a benodwyd gan y Cyngor, fe wnaeth y Cyngor drin y gydnabyddiaeth ariannol gan Silent Valley fel tâl pensiynadwy a thalu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel pe bai penodiadau Mr Crook gyda'r Cyngor a Silent Valley yn un penodiad. Bu'r Cyngor yn anfonebu Silent Valley am gost y ffioedd cyfarwyddwr a dalwyd i Mr Crook. Yn ystod yr amser y bu Mr Crook yn gwasanaethu fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley, ni wnaeth y Cyngor anfonebu Silent Valley am gost y cyfraniadau pensiwn cyflogwr (a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr) a dalwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'i benodiad gyda Silent Valley. Ceir manylion y costau hyn yn **Arddangosyn 3**.

187 Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Rheoliadau 2013) oedd yn llywodraethu gweithrediad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar yr adeg y penodwyd Mr Crook yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Mae Rheoliad 22 yn nodi bod "rhaid agor cyfrif pensiwn ar wahân mewn perthynas â phob cyflogaeth lle mae aelod yn neu wedi bod yn cael ei gyflogi mewn dwy gyflogaeth neu fwy sy'n defnyddio'r cynllun".

188 Am yr un rhesymau ag a nodir ym **mharagraffau 154 i 164**, rwy'n ystyried ei bod yn debygol bod penodiad Mr Crooks fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley yn benodiad ar wahân i'w gyflogaeth fel Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor. Mae gennyf amheuaeth sylweddol a allai'r Cyngor yn gyfreithlon dalu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Silent Valley o ystyried nad oedd Silent Valley wedi dynodi ei gyfarwyddwyr yn ddosbarth o gyflogeion a oedd yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ni oedd y Cyngor yn ailgodi ar Silent Valley am gost cyfraniadau pensiwn cyflogwr yr oedd yn eu talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

189 Ar wahân i'r cwestiwn a oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud cyfraniadau pensiwn i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Silent Valley, nid yw'n glir bod y Cyngor wedi cydymffurfio â Rheoliad 22 yn Rheoliadau 2013 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol agor cyfrifon pensiwn ar wahân mewn perthynas â phob cyflogaeth a oedd yn defnyddio'r cynllun. Fe wnaeth y Cyngor drin y ddau benodiad fel un gyflogaeth at ddibenion pensiwn. Gallai hyn fod wedi golygu bod Mr Crook wedi cael buddion pensiwn uwch nag y mae ganddo hawl iddynt.

190 Dywedodd Mr Crook wrth fy archwilwyr nad oedd [ef] wedi cael "unrhyw hyfforddiant, arweiniad, cymorth na chyngor ar unrhyw adeg mewn perthynas â rôl

cyfarwyddwr cwmni gan y Cyngor na [Silent Valley], nac mewn rheoli gwrthdaro buddiannau posibl nad oeddwn yn ymwybodol ohono". Mae'r sylw hwn yn dangos methiant y Cyngor i sefydlu a gweithredu trefniadau llywodraethu digonol ac effeithiol i reoli ei berthynas â Silent Valley o 2012 ymlaen fel a nodir ym **mharagraffau 123 i 149**.

191 Fe derfynodd y Cyngor benodiad Mr Crook fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley ar 19 Mawrth 2018.

## Fe wnaeth Prif Swyddog Cyllid y Cyngor ar y pryd a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor, a hwythau'n gweithredu yn eu rolau fel aelodau o Fwrdd Silent Valley, gymeradwyo taliad o £38,737 i Reolwr Cyffredinol Silent Valley, Mr James, pan derfynwyd ei gyflogaeth ar 31 Awst 2016. Fodd bynnag, nid oedd gan Mr James hawl gytundebol i'r taliad hwn ac nid yw'n glir sut yr oedd y penderfyniad i gymeradwyo'r taliad yn un a oedd er lles y Cyngor

### Roedd y broses a berodd i Silent Valley wneud taliad o £38,737 i Reolwr Cyffredinol Silent Valley pan derfynwyd ei gyflogaeth ar 31 Awst 2016 yn sylfaenol ddiffygiol, ac fe gyfranogodd Mr James yn y broses hon er bod ganddo fuddiant ariannol yn ei chanlyniad

192 O 29 Awst 2003 bu Mr James yn cael ei gyflogi fel Rheolwr Cyffredinol Silent Valley. Y Rheolwr Cyffredinol oedd y swyddog gweithredol uchaf ei rent yn y Cwmni, y Prif Weithredwr i bob pwrpas. Roedd Mr James wedi bod yn cael ei gyflogi fel Cyfarwyddwr Cyllid a Dirprwy Brif Weithredwr y Cyngor cyn hynny.

193 Roedd contract cyflogaeth Mr James yn nodi ei fod yn cael ei gyflogi ar sail ran-amser, y byddai'n ofynnol iddo weithio 6-8 diwrnod y mis ac y byddai ganddo hawl i 12 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn. Yn ogystal â gweithredu fel Rheolwr Cyffredinol y Cwmni, roedd Mr James hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni ac un o Gyfarwyddwyr y Cwmni. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16, talwyd cyflog ar wahân i Mr James ar gyfer pob un o'r rolau hyn fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Cwmni: £11,569

- Ysgrifennydd y Cwmni: £4,937
- Rheolwr Cyffredinol: £33,103 (yn seiliedig ar 7 diwrnod o waith y mis yn ôl cyfradd o £394 y dydd)

194 Yn ystod 2015-16 talwyd cyfanswm o £49,609 i Mr James. Roedd hyn yn cyfateb i gyflog cyfwerth ag amser cyflawn (CagAC) o oddeutu £103,000.

195 Ar 29 Chwefror 2016 fe adawodd Mr Waggett ei gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor, gan ei gwneud yn angenrheidiol terfynu ei benodiad fel cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley. Fel a nodir ym **mharagraffau 184 i 186**, fe gytunodd y Cyngor y byddai Mr Crook, Cyfarwyddwr Gwastraff a'r Amgylchedd y Cyngor, yn cymryd lle Mr Waggett fel y cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley o 1 Mawrth 2016. O 1 Mawrth 2016 tan 6 Gorffennaf 2016, roedd aelodaeth Bwrdd Silent Valley yn cynnwys Mr James, Mr McAuliffe a Mr Crook.

196 Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2016 yn nodi y "cychwynnodd y Bwrdd drafodaeth ynglŷn â'r newidiadau posibl i swydd yr uwch reolwr a gofynnodd i [Mr James] baratoi peth gwybodaeth bellach i'w chylchredeg". Er nad yw'r cofnodion yn nodi manylion y "newidiadau posibl" hyn, mae Mr McAuliffe wedi dweud wrth fy archwilwyr bod Mr James wedi dynodi wrth y Bwrdd ei fod yn dymuno ymddeol fel Rheolwr Cyffredinol Silent Valley.

197 Mae Mr James yn haeru bod ei sefyllfa fel Rheolwr Cyffredinol Silent Valley wedi dod yn annaliadwy. Roedd y Cyngor wedi gofyn iddo gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chynrychiolwyr un o sefydliadau partner y Cyngor a oedd wedi'u bwriadu i gyflawni newidiadau mewn arfer rheoli gwastraff. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi cynnwys trafod mesurau y gofynnwyd i Silent Valley eu cymryd. Dywedodd Mr James wrth fy archwilwyr fod y trafodaethau'n rymus, a'i fod wedi dod yn ymwybodol bod y sefydliad partner yn ceisio'i ddisodli o'i rôl gyda Silent Valley. Mae Mr James yn haeru, o ganlyniad, yr effeithiwyd ar berthnasoedd gweithio a'i fod wedi'i rwystro rhag gallu cyflawni ei holl ddyletswyddau. Mae hefyd yn haeru bod ei berthynas wael â'r sefydliad partner yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddenu cyllid grant ar gyfer gwaith ar safle Silent Valley tra'r oedd ef yn dal yn ei swydd.

198 Nid wyf wedi gallu dod i gasgliad wrth ystyried ar ba sail y gadawodd Mr James ei gyflogaeth gyda Silent Valley am nad yw Silent Valley wedi gallu dod o hyd i unrhyw ohebiaeth oddi wrth Mr James yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o'i ymddiswyddiad neu fod Silent Valley wedi rhoi rhybudd i Mr James bod ei gyflogaeth yn cael ei therfynu. Nid oes gan Silent Valley unrhyw gofnodion sy'n dynodi bod anghydfod cyflogaeth rhwng Mr James a Silent Valley na bod Silent Valley wedi cymryd camau i derfynu cyflogaeth Mr James. Mae Mr James yn haeru bod yr ymadawiad wedi cael ei negodi yn yr ystyr bod y Bwrdd, ar 21 Mehefin 2016, wedi penderfynu bod "y Cwmni'n terfynu penodiad DC James fel Rheolwr, Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr ar 31 Awst 2016 gyda thâl yn lle rhybudd (yn unol â'r contract cyflogaeth, a gyfrifir fel 6 mis o gyfanswm cydnabyddiaeth

ariannol yn seiliedig ar 8 diwrnod fel rheolwr y mis) ac yn gwneud tâl diswyddo sy'n gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr, sef £11,586 fel a gytunwyd yng Nghofnod 1403 Ebrill 2012" (gweler **Arddangosyn 7**). Fodd bynnag, rwy'n nodi mai Mr James ei hun ddrafftiodd y penderfyniad hwn. Fel a nodir ym **mharagraff 196**, ymddengys fod penderfyniad y byddai cyflogaeth Mr James yn cael ei therfynu wedi cael ei wneud rai misoedd yn gynharach. Mae'n bwysig cadarnhau ar ba sail y gadawodd Mr James Silent Valley gan bod hynny'n cael effaith ar ei hawl i gael tâl yn lle rhybudd dan ei gontract cyflogaeth (**paragraffau 207 i 211**).

199 Roedd contract Mr James yn nodi y byddai'n ofynnol iddo weithio 6-8 diwrnod y mis a chyn mis Mai 2016, roedd Mr James yn cael cyflog am weithio saith diwrnod bob mis. O 1 Mai 2016, bedwar mis cyn i Mr James adael ei gyflogaeth gyda Silent Valley, newidiodd diwrnodau gwaith Mr James o saith diwrnod y mis i wyth diwrnod y mis, gan gynyddu ei gyflog fel Rheolwr Cyffredinol o £2,748 i £3,152 y mis. O ganlyniad i weithio diwrnod ychwanegol y mis o 1 Mai 2016 cafodd Mr James £1,576 o gyflog yn ychwanegol am y cyfnod rhwng 1 Mai 2016 a 31 Awst 2016 a thâl ychwanegol o £2,364 yn lle rhybudd pan derfynwyd ei gontract ar 31 Awst 2016. Nid yw'n glir i mi sut y cytunwyd a phwy gytunodd fod Mr James yn cynyddu ei ddiwrnodau gwaith o saith i wyth diwrnod y mis.

200 Ar 17 Mehefin 2016 fe e-bostiodd Mr James ddrafft o hysbyseb swydd ar gyfer Rheolwr Cyffredinol newydd at ei gyd-aelodau o'r Bwrdd, Mr McAuliffe a Mr Crook. Mewn ymateb, gofynnodd Mr McAuliffe i Mr James lunio penderfyniadau i'r Bwrdd eu hystyried a'u llofnodi "yn nhrefn manylion ymadael a hysbyseb i ddilyn". Yn ddiweddarach yr un diwrnod, fe anfonodd Mr James neges e-bost at Mr McAuliffe gyda phenderfyniad drafft ar gyfer y Bwrdd wedi'i atodi wrthi. Roedd y penderfyniad yn awdurdodi Mr James i gael taliad pan fyddai ei gyflogaeth yn cael ei therfynu. Mae'r neges e-bost eglurhaol yn nodi "wrth gwrs ni wnaf ei lofnodi oherwydd fy muddiant". Caiff y penderfyniad drafft ei nodi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: penderfyniad drafft ar gyfer Bwrdd Silent Valley 17 Mehefin 2016 a baratowyd gan Mr James i derfynu ei gyflogaeth ef ei hun gyda Silent Valley**

**Penderfyniad drafft ar gyfer Bwrdd Silent Valley**

PENDERFYNIR drwy hyn FEL A GANLYN:

Bod y Cwmni'n terfynu penodiad DC James fel Rheolwr a Chyfarwyddwr ar 31 Awst 2016 gyda thâl yn lle rhybudd ac yn gwneud tâl diswyddo sy'n gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr, sef £11,586 fel a gytunwyd yng Nghofnod 1403 Ebrill 2012.

Bod y Cwmni'n hysbysebu ar gyfer swydd Rheolwr Cyffredinol heb gynnwys swyddi Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni yn y Ganolfan Waith am gyfnod penodedig, i ddechrau am gyfnod o ddeuddeng mis.

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Negeseuon e-bost Silent Valley rhwng cyfarwyddwyr y Bwrdd

201 Nid oedd y penderfyniad drafft a baratowyd gan Mr James yn nodi:

- ei hawl gytundebol i gael y taliadau a nodwyd
- hyd y cyfnod rhybudd y byddai'n cael tâl yn lle rhybudd ar ei gyfer
- pam fod cofnodion cyfarfod ym mis Ebrill 2012 yn rhoi'r hawl iddo gael blwyddyn o ffi cyfarwyddwr a oedd yn gyfanswm o £11,586 fel tâl diswyddo pan nad yw'r tâl hwn, mewn gwirionedd, yn ymddangos fel pe bai'n ymwneud â setlo unrhyw hawliad dilys a gyflwynwyd i Silent Valley
- cyfanswm y tâl y byddai'n ei gael

202 Fe ymatebodd Mr McAuliffe i Mr James gan ddweud, “gan nad ydym wedi gweld eich contract cyflogaeth, i fod yn gwbl glir, a ddylem gynnwys rhai elfennau mewn perthynas â [thâl yn lle rhybudd]”. Dywedodd Mr McAuliffe wrth fy archwilwyr ei fod wedi trafod neges e-bost Mr James gyda Mr Crook a bod ei ymateb wedi cael ei anfon ar ran y ddau ohonynt. Roedd yr ymateb a anfonwyd gan Mr McAuliffe yn argymell diwygio'r penderfyniad a'i anfon yn ôl at Mr James, yn unol â'r geiriad a nodir yn **Arddangosyn 5**. Dangosir newidiadau Mr McAuliffe mewn oren.

**Arddangosyn 5: penderfyniad drafft ar gyfer Bwrdd Silent Valley 17 Mehefin 2016 a baratowyd gan Mr James i derfynu ei gyflogaeth ef ei hun gyda Silent Valley. Penderfyniad wedi'i baratoi gan Mr James a newidiadau a awgrymwyd gan Mr McAuliffe mewn oren.**

**Penderfyniad Drafft ar gyfer Bwrdd Silent Valley**

PENDERFYNIR drwy hyn FEL A GANLYN:

Bod y Cwmni'n terfynu penodiad DC James fel Rheolwr, Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr ar 31 Awst 2016 gyda thâl yn lle rhybudd gyda thâl yn lle rhybudd (yn unol â'r contract cyflogaeth, a gyfrifir fel 6(?) mis o gydnabyddiaeth ariannol fel ysgrifennydd y cwmni a 6 mis o gydnabyddiaeth ariannol am 6/7/8 diwrnod y mis ar gyfer dyletswyddau fel rheolwr cyffredinol?) ac yn gwneud tâl diswyddo sy'n gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr, sef £11,586 fel a gytunwyd yng Nghofnod 1403 Ebrill 2012.

Ffynhonnell: Negeseuon e-bost Silent Valley rhwng cyfarwyddwyr y Bwrdd

203 Dywedodd Mr McAuliffe wrth fy archwilwyr nad oedd ef na Mr Crook wedi gweld contract cyflogaeth Mr James ac nad oedd ganddynt reswm i amau cywirdeb yr hyn yr oedd Mr James yn haeru bod ganddo hawl iddo fel tâl diswyddo. Ymddengys i mi felly na chwblhawyd unrhyw wiriadau i sicrhau bod y tâl i Mr James yn cyfateb i'w hawl gytundebol.

204 Ar 21 Mehefin 2016, fe lofnododd Mr McAuliffe a Mr Crook y ferswn derfynol o benderfyniad y Bwrdd a baratowyd gan Mr James. Roedd y fersiwn derfynol yn cynnwys eglurhad o bwyntiau a godwyd yn fersiwn ddiwygiedig Mr McAuliffe. Diwygiwyd y penderfyniad i nodi:

- Y byddai Mr James yn cael chwe mis o dâl yn lle rhybudd, "yn unol â'r contract cyflogaeth"
- Bod y tâl yn lle rhybudd i Mr James yn seiliedig ar weithio wyth diwrnod y mis

205 Roedd y penderfyniad a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn cynnwys un newid pellach i'r drafft a argymhellwyd gan Mr McAuliffe. Roedd drafft Mr McAuliffe yn nodi y byddai Mr James yn cael tâl yn lle rhybudd am ei rolau fel Rheolwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni, ond nid am ei rôl fel cyfarwyddwr. Roedd y penderfyniad a gymeradwywyd yn nodi y byddai Mr James yn cael chwe mis o dâl yn lle rhybudd am bob un o'r tair rôl, er bod y penderfyniad hefyd yn cynnwys tâl "sy'n gyfwerth â'r ffi flynyddol ar gyfer cyfarwyddwr o £11,568". Fe newidiodd hyn y cyfanswm a oedd yn daladwy o £5,784.

206 Roedd y penderfyniad a gymeradwywyd (**Arddangosyn 7**) felly'n cynnwys pedair elfen a oedd yn gyfanswm o £38,737:

- 12 mis o'r ffi cyfarwyddwr fel tâl diswyddo - £11,568
- 6 mis o'r ffi cyfarwyddwr fel tâl yn lle rhybudd - £5,784
- 6 mis o'r cyflog Rheolwr Cyffredinol fel tâl yn lle rhybudd (yn seiliedig ar 8 diwrnod y mis) - £18,916
- 6 mis o gyflog Ysgrifennydd y Cwmni fel tâl yn lle rhybudd - £2,469

## Roedd y swm a dalwyd i Reolwr Cyffredinol Silent Valley pan derfynwyd ei gyflogaeth ar 31 Awst 2016 yn sylweddol uwch na'i hawl gytundebol

### Roedd gan Mr James hawl gytundebol i gael tâl yn lle rhybudd os nad oedd yn ofynnol iddo weithio'i gyfnod rhybudd

207 Dywedodd Mr James wrth fy archwilwyr ei fod wedi cael ei benodi i Silent Valley fel 'cyfarwyddwr â chyfrifoldebau arbennig' yn 2004 ac bod ei delerau ac amodau cyflogaeth wedi cael eu hamrywio trwy gytundeb yn 2006 i gynnwys cyfrifoldebau ychwanegol a'i fod wedi dod yn Rheolwr Cyffredinol Silent Valley. Mae Silent Valley wedi darparu "Cytundeb Gwasanaeth" (contract cyflogaeth) ysgrifenedig ar ein cyfer, dyddiedig 11 Ebrill 2004, sy'n cyfeirio at y ffaith bod Mr James yn dal rolau 'Swyddog Gweithredol, Ysgrifennydd Cwmni a Chyfarwyddwr Cwmni' Silent Valley gyda'r contract yn dechrau ar 29 Awst 2003. Nid oes gan Silent Valley unrhyw gontract cyflogaeth mwy diweddar mewn perthynas â Mr James.

208 Mae contract Mr James yn nodi telerau ac amodau ei gyflogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â therfynu cyflogaeth a chyfnodau rhybudd fel a nodir yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: darpariaethau terfynu cyflogaeth a rhybuddion yng nghontract cyflogaeth Mr James dyddiedig 11 Ebrill 2004**

| Darpariaethau cytundebol o ran terfynu a rhybuddion |
|---|
| 3.2 Byddir yn ystyried bod y penodiad a nodir wedi dechrau ar y Dyddiad Dechrau a bydd yn parhau yn amodol ar y canlynol oni bai a nes bod y gyflogaeth yn cael ei therfynu trwy rybudd ysgrifenedig a roddir gan y Cwmni i'r Swyddog Gweithredol o ddim llai na chwe mis calendr neu drwy rybudd ysgrifenedig a roddir gennych chi o ddim llai na thri mis calendr sy'n dod i ben unrhyw bryd. Nid oes unrhyw gyflogaeth gyda chyflogwr blaenorol yn cyfrif at ddiben Deddf 1996 fel rhan o gyfnod y Swyddog Gweithredol o gyflogaeth barhaus.<br><br>3.3 Os yw'r naill barti neu'r llall yn rhoi rhybudd i derfynu cyflogaeth y Swyddog Gweithredol ceidw'r Cwmni'r hawl i wneud taliad yn lle'r cyfnod rhybudd y cyfeirir ato yng nghymal 3.2, neu weddill y cyfnod rhybudd os yw'r Swyddog Gweithredol, ar gais y Cwmni, wedi gweithio yn ystod rhan o'r cyfnod rhybudd. I osgoi amheuaeth, bydd cyflogaeth y Swyddog Gweithredol yn terfynu ar y dyddiad a nodir yn y rhybudd a roddir gan y Cwmni yn unol â'r cymal hwn.<br><br>3.4 Er gwaethaf darpariaethau cymal 3.2, bydd cyflogaeth y Swyddog Gweithredol dan y Cytundeb hwn yn dod i ben yn awtomatig ar ei 65ed pen-blwydd. |

Ffynhonnell: Cofnodion cyflogaeth Silent Valley

209 Mae Cymal 3.2 o'r contract yn nodi'r gofyniad bod Mr James yn rhoi o leiaf dri mis o rybudd yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu ymddiswyddo, a bod Silent Valley yn rhoi o leiaf chwe mis o rybudd i Mr James pe bai'n penderfynu terfynu cyflogaeth Mr James. Yn niffyg tystiolaeth ysgrifenedig sy'n nodi'r sail i ymadawiad Mr James, gweler **paragraffau 197 i 198**, nid wyf wedi gallu dod i gasgliad pa un a oedd hawl ganddo i gael tri mis neu chwe mis o gyflog yn lle rhybudd os nad oedd yn ofynnol iddo weithio'i gyfnod rhybudd. Nid yw'n glir i mi ychwaith, gan nad oes unrhyw gofnod ysgrifenedig bod rhybudd wedi cael ei roi, pryd ddylai'r cyfnod rhybudd perthnasol fod wedi dechrau.

210 Mae Cymal 3.3 yn nodi, pe bai Silent Valley yn penderfynu nad oedd yn ofynnol i Mr James weithio'i gyfnod rhybudd, y byddai hawl ganddo i gael tâl yn lle rhybudd mewn perthynas â'r cyfnod rhybudd nad oedd yn ofynnol iddo'i weithio.

211 Rwy'n ystyried ei bod yn debygol iawn bod penderfyniad y byddai Mr James yn gadael ei gyflogaeth gyda Silent Valley wedi cael ei wneud erbyn mis Ebrill 2016 (naill ai gan Silent Valley neu gan Mr James). Fodd bynnag, mae'n sicr bod penderfyniad wedi cael ei wneud erbyn 15 Mehefin 2016 y byddai cyflogaeth Mr James yn dod i ben ar 31 Awst 2016 oherwydd, ar y dyddiad hwnnw, fe drafododd

Mr McAuliffe, Mr Crook a Mr James y trefniadau ar gyfer recriwtio Rheolwr Cyffredinol newydd (**paragraff 230**). Rwy'n ystyried mai'r hwyraf y gallai cyfnod rhybudd Mr James fod wedi dechrau oedd 15 Mehefin 2016, gan ddod i ben ar 15 Rhagfyr 2016, ac felly'r <u>uchafswm</u> yr oedd gan Mr James hawl iddo fel tâl yn lle rhybudd dan y contract cyflogaeth ysgrifenedig hwn oedd £15,737, a fyddai'n cynrychioli cyflog am y cyfnod rhwng 1 Medi 2016 ac 15 Rhagfyr 2016. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth mai Silent Valley wnaeth derfynu cyflogaeth Mr James. Os gwnaeth Mr James adael ei gyflogaeth ar sail wirfoddol yna'r uchafswm yr oedd ganddo hawl iddo dan ei gontract cyflogaeth oedd £2,265 yn lle rhybudd am y cyfnod rhwng 1 Medi 2016 ac 15 Medi 2016.

## Nid oedd gan Mr James hawl i gael tâl a oedd yn gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr o £11,568 yn ychwanegol at dâl cytundebol yn lle rhybudd

212 Wrth lunio penderfyniad y Bwrdd ar gyfer ei dâl diswyddo ei hun, nododd Mr James y cytunwyd yng nghyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012, pan fyddai ei gyflogaeth yn cael ei therfynu, y byddai'n cael tâl diswyddo a fyddai'n gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr, sef £11,568.

213 Ar 28 Mawrth 2012 fe gytunodd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor i newid cyfansoddiad y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y mwyafrif o gyfarwyddwyr Silent Valley yn cael eu penodi gan y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor Gweithredol y byddai'n ofynnol i'r holl gyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cwmni (ac eithrio Mr James) sefyll i lawr, ac y byddai'r Cyngor yn penodi dau yn rhagor o'i gyflogeion ei hun fel cyfarwyddwyr Silent Valley (roedd Mr Waggett, Prif Weithredwr y Cyngor, eisoes yn un o gyfarwyddwyr Silent Valley a benodwyd gan y Cyngor).

214 Ar 3 Ebrill 2012 cyfarfu Bwrdd Silent Valley a oedd yn ymadael. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Morrison, Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor. Hefyd yn bresennol roedd Mr James, Rheolwr Cyffredinol Silent Valley, Mr Waggett, y cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor a Phrif Weithredwr y Cyngor ar y pryd, a dau o gyfarwyddwyr eraill Silent Valley. Dywedwyd wrth y Bwrdd, oherwydd newidiadau i strwythur y Cwmni, y byddai swyddi cyfarwyddwyr y cyfarwyddwyr a benodwyd gan y Cwmni, ac eithrio Mr James, yn cael eu terfynu.

215 Nid oedd gan y cyfarwyddwyr ar Fwrdd Silent Valley unrhyw hawl i gael tâl pan fyddai eu penodiadau fel cyfarwyddwyr yn cael eu terfynu. Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd yn nodi bod Mr Waggett wedi cynnig y dylai'r tri chyfarwyddwr a oedd yn cael eu diswyddo gael "taliad ex-gratia sy'n gyfwerth â ffi am un flwyddyn i Gyfarwyddwr".

216 Mae'r cofnodion yn nodi bod y Bwrdd "wedi cymeradwyo'r taliad ex gratia i gyfarwyddwyr yr oedd eu penodiadau'n cael eu terfynu". Am y rhesymau a nodir ym **mharagraff 168**, fy marn i yw bod y taliadau hyn wedi torri Erthyglau Silent Valley, a'r Ddeddf Cwmnïau.

217 Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012 yn nodi hefyd bod Mr Morrison wedi gofyn “a fyddai’r un ystyriaeth yn berthnasol i [Mr James] pan fyddai ei benodiad ef yn cael ei derfynu ac fe gadarnhaodd [Mr Waggett] y byddai”.

218 Wrth fynd i’r afael â’r cwestiwn pa un a oedd y taliadau ‘ex-gratia’ a wnaed i’r cyfarwyddwyr hynny y cafodd eu swyddi fel cyfarwyddwyr eu terfynu gan y Cyngor yn 2012 yn cydymffurfio ag Erthyglau Silent Valley a’r Ddeddf Cwmnïau, rwy’n ystyried nad oedd amgylchiadau ymadawiad Mr James â’r Cwmni’n debyg i rai’r cyfarwyddwyr hynny am y rhesymau canlynol:

- Roedd gan Mr James gontract cyflogaeth dyddiedig 11 Ebrill 2004 a oedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer terfynu ei gyflogaeth fel Rheolwr Cyffredinol, Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr Silent Valley. Roedd y contract yn nodi ei hawl i rybudd ysgrifenedig, a darpariaeth iddo gael tâl yn lle rhybudd. Nid oedd gan y cyfarwyddwyr ar Fwrdd Silent Valley y cafodd eu swyddi fel cyfarwyddwyr eu terfynu yn 2012 unrhyw hawl i dâl diswyddo ac ni chawsant unrhyw rybudd y byddai eu swyddi fel cyfarwyddwyr yn cael eu terfynu.
- fel a nodir ym **mharagraff 198**, nid yw Silent Valley wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol ar fy nghyfer bod Silent Valley wedi terfynu penodiadau Mr James fel Rheolwr Cyffredinol, Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â’r cyfarwyddwyr a adawodd Silent Valley yn 2012. Cafodd penodiadau’r cyfarwyddwyr hynny eu terfynu trwy ben derfyniad gan Bwyllgor Gweithredol y Cyngor. Beth bynnag, fel a nodir uchod, talwyd chwe mis o gyflog yn lle rhybudd i Mr James (a oedd yn cynnwys ei rôl fel cyfarwyddwr), a chafodd dâl hefyd am weithio rhan o’i gyfnod rhybudd. Roedd hyn i bob pwrpas yn daliad dyblyg.

219 Fel a nodir ym **mharagraff 174**, rwy’n nodi bod Mr James, yn 2011, wedi ceisio cyngor cyfreithiol, ar ran Bwrdd Silent Valley, ynghylch gwneud taliad ‘ex gratia’ i gyfarwyddwr a oedd yn gadael y Bwrdd. Nid yw fy archwilwyr wedi gweld y cyngor hwn, ond cafodd cynnwys y cyngor ei gyflwyno i gyfarfod Bwrdd Silent Valley ar 6 Mehefin 2011. Hysbyswyd y Bwrdd fel a ganlyn:

- fod gan y Bwrdd ddisgresiwn i wneud taliadau ex-gratia.
- y “dylid gofyn i gyfarwyddwyr sy’n ymadael gadarnhau nad oes ganddynt hawl i unrhyw ddigollediad am golli swydd a chydnabod nad oes ganddynt unrhyw hawliadau pellach o gwbl” a’i fod “yn beth prin iawn i daliad gael ei wneud dan amgylchiadau o’r fath”.

220 Roedd y taliad ex-gratia i Mr James a oedd yn gyfwerth â’r ffi flynyddol i gyfarwyddwr (£11,568) ym mis Awst 2016 yn groes i’r cyngor yr oedd Mr James wedi’i gyflwyno i Fwrdd Silent Valley ar 6 Mehefin 2011. Roedd gan Mr James hawliau cytundebol yn barod mewn perthynas â therfynu ei gyflogaeth ac, yn ychwanegol at y taliad ‘ex-gratia’ o £11,568, cafodd £27,169 arall, yr oedd Mr James yn honni bod ganddo hawl gytundebol iddo.

221 Fel a nodir ym **mharagraffau 165 i 182**, fy marn i yw bod y penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Silent Valley yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill 2012 i wneud taliadau ex-gratia i

gyfarwyddwyr a oedd yn ymadael wedi torri Erthyglau Silent Valley a'r Ddeddf Cwmnïau yn yr ystyr bod y canlynol yn wir:

- nid oedd y taliadau'n cael eu caniatáu gan Erthyglau'r Cwmni heb gydsyniad ysgrifenedig gan y Cyngor. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ar fy nghyfer bod cydsyniad o'r fath wedi cael ei geisio gan Silent Valley na'i ddarparu gan y Cyngor.
- mae Deddf Cwmnïau 2006 yn nodi bod rhaid i gyfarwyddwyr cwmni weithredu yn unol â chyfansoddiad y cwmni ac mai dim ond at y dibenion y cânt eu rhoi ar eu cyfer y gallant arfer pwerau. Roedd y tâl o £11,568 i Mr James ym mis Awst 2016 yn seiliedig ar benderfyniad a wnaed gan Fwrdd Silent Valley ar 3 Ebrill 2012 nad oedd gan y Bwrdd unrhyw bŵer i'w wneud heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor. Rwyf felly'n ystyried nad oedd gan Mr James unrhyw hawl i'r tâl hwn.

222 Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd Silent Valley a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2012 yn nodi bod y Bwrdd wedi cymeradwyo y byddai Mr James yn cael tâl diswyddo a oedd yn gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr pan fyddai ei gyflogaeth yn cael ei therfynu. Nid yw'n glir bod unrhyw ystyriaeth wedi bod pa un a fyddai hyn ar ben unrhyw daliadau eraill a gytunwyd yn ddiweddarach. Cafodd Mr James dâl yn lle rhybudd ar gyfer cyfnod y talwyd iddo am weithio yn ei ystod hefyd, yn ogystal â gwerth 18 mis o ffioedd cyfarwyddwr. Nid yw'n gwbl amlwg ai dyma oedd bwriad y Bwrdd yn ôl yn 2012. Rwyf hefyd yn nodi bod Mr Waggett, y cyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley a oedd wedi cynnig bod y cyfarwyddwyr a oedd yn ymadael yn cael taliadau ex-gratia a oedd yn gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr yn y cyfarfod ar 3 Ebrill 2012, yn haeru na wnaeth y Bwrdd gytuno y byddai Mr James yn cael tâl yn y dyfodol y tu hwnt i'r hyn a oedd wedi'i nodi yn ei gontract cyflogaeth (**gweler paragraffau 208 i 210**).

223 Mae Mr Crook yn haeru ei fod wedi cael ei hysbysu gan Mr James a Mr McAuliffe fod gan Mr James "hawl i daliadau yn seiliedig ar benderfyniadau blaenorol y Bwrdd/defod ac arfer a chyngor yr oedd y cwmni wedi'i gael yn flaenorol".

224 Am y rhesymau uchod, nid wyf yn ystyried bod gan Mr James hawl i gael tâl a oedd yn gyfwerth â ffi am un flwyddyn i gyfarwyddwr (£11,568) pan derfynwyd ei gyflogaeth.

## Fe wnaeth Prif Swyddog Cyllid y Cyngor ar y pryd a'i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, a hwythau'n gweithredu yn eu rolau fel aelodau o Fwrdd Silent Valley, gymeradwyo gwneud taliad o £38,737 i Reolwr Cyffredinol Silent Valley ar ôl terfynu ei gyflogaeth, ond yn fy marn i ni wnaethant gymryd digon o gamau gweithredu i sicrhau bod gan Mr James hawl i'r taliad, ac nid yw'n glir sut yr oedd y penderfyniad i gymeradwyo'r taliad yn un a oedd er lles y Cyngor

225 Wrth benodi ei Brif Swyddog Cyllid ar y pryd, Mr McAuliffe, a'i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Mr Crook, i wasanaethu fel cyfarwyddwyr Silent Valley a enwebwyd gan y Cyngor, roedd yn rhesymol i'r Cyngor ddisgwyl, pan fyddent yn cyflawni'r rolau hynny, y byddent yn ceisio cynrychioli buddiannau'r Cyngor ar Fwrdd Silent Valley. Ar ben hynny, pan gymeradwyodd Mr McAuliffe a Mr Crook ym mis Mehefin 2016 y byddai Mr James yn cael taliad terfynu o £38,737, roedd Silent Valley yn gwmni Teckal a oedd yn golygu mai'r Cyngor oedd yn rheoli Bwrdd Silent Valley, gan ei alluogi i arfer rheolaeth o ddydd i ddydd ar faterion y cwmni, yn debyg i'r rheolaeth a oedd ganddo dros ei adrannau mewnol ei hun. Fel y ddau gyfarwyddwr ar Fwrdd Silent Valley a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r taliad i Mr James, y swyddog gweithredol uchaf ei reng yn Silent Valley, rwy'n ystyried y dylai Mr McAuliffe fod wedi cymryd camau i sicrhau bod gan Mr James hawl i'r taliad arfaethedig, a bod y taliad yn un a oedd er lles y Cyngor a'r Cwmni.

226 Rwy'n ystyried na chymerwyd camau gweithredu priodol i sicrhau bod gan Mr James hawl i'r taliad am y rhesymau canlynol:

- ni ddylai Mr James fod wedi cael ei ganiatáu i ddrafftio penderfyniad y Bwrdd a oedd yn nodi manylion y taliad iddo ef ei hun
- ni ddylai'r taliad fod wedi cael ei gymeradwyo gan Mr McAuliffe a Mr Crook nes eu bod wedi cadarnhau bod gan Mr James hawl gytundebol i'r taliad hwnnw. Fel a nodir ym mharagraffau 201 i 203, cydnabu Mr McAuliffe nad oedd wedi gweld contract cyflogaeth Mr James.
- dylai Mr McAuliffe a Mr Crook fod wedi ceisio cyngor pa un a oedd gan Mr James hawliad dilys i daliad o £11,568 uwchlaw ei hawl gytundebol, yn seiliedig ar benderfyniad y Bwrdd ar 3 Ebrill 2012.
- dylai Mr McAuliffe a Mr Crook fod wedi cwestiynu pam fod gan Mr James hawl i gael taliad o chwe mis yn lle rhybudd ac yntau'n cael cyflog am weithio am ran o'r cyfnod hwnnw.

227 Yn fy marn i, ni chymerodd Mr McAuliffe a Mr Crook ddigon o gamau gweithredu i sicrhau bod gan Mr James hawl gytundebol i gael taliad o £38,737 pan derfynwyd ei gyflogaeth, ac felly ni wnaethant gynrychioli buddiannau'r Cyngor ar Fwrdd

Silent Valley mewn modd priodol mewn perthynas â'r mater hwn. Ar ben hynny, o ystyried nad oedd gan Mr James hawl gytundebol i gael taliad terfynu o £38,737, nid yw'n glir i mi sut yr oedd y penderfyniad i gymeradwyo'r taliad yn un a oedd er lles y Cyngor fel unig gyfranddaliwr Silent Valley, nac er lles Silent Valley.

## Roedd y broses a arweiniodd at benodi Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor, Mr Waggett, yn Rheolwr Cyffredinol newydd Silent Valley ym mis Mehefin 2016 yn anghystadleuol ac yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd perthnasol

228 Fel a nodir ym **mharagraffau 123 i 124**, yn 2012 fe sefydlodd y Cyngor drefniadau i wneud yn siŵr bod Silent Valley yn cydymffurfio â dyfarniad Teckal, gan felly alluogi'r Cyngor i ddyfarnu gwaith i Silent Valley heb geisio cystadleuaeth. Fe enillodd y Cyngor reolaeth ar Fwrdd Silent Valley gan ei alluogi i arfer rheolaeth ar reoli materion y cwmni o ddydd i ddydd, yn debyg i'r rheolaeth yr oedd yn ei harfer dros ei adrannau mewnol ei hun. Roedd dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod gan Silent Valley drefniadau llywodraethu cadarn, gan gynnwys bod penderfyniadau strategol allweddol yn cael eu gwneud er budd y Cyngor. Ym mis Mehefin 2016 fe benododd Silent Valley Reolwr Cyffredinol newydd, y swyddog uchaf ei reng yn y Cwmni. Mae'r ffordd yr ymdriniwyd â'r penodiad hwn yn dynodi trefniadau llywodraethu gwael.

229 Ar ryw adeg rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mehefin 2016, fe gymerodd Silent Valley gamau i recriwtio Rheolwr Cyffredinol newydd yn lle'i Reolwr Cyffredinol a oedd yn ymadael, Mr James.

230 Ar 17 Mehefin 2016, anfonodd Mr James neges e-bost at Mr McAuliffe a Mr Crook yn nodi "yn dilyn y drafodaeth ddydd Mercher [15 Mehefin 2016]":

- ei fod wedi canfod pa wybodaeth yr oedd ei hangen i hysbysebu swydd y Rheolwr Cyffredinol gyda'r ganolfan waith
- ei fod wedi atodi'r hysbyseb ddrafft i gael ei chymeradwyo neu ei diwygio
- y byddai'n cwblhau swydd-ddisgrifiad yn seiliedig ar dempled o eiddo'r Cyngor yr wythnos ganlynol, "mewn pryd ar gyfer y penodiad"
- ei fod yn awgrymu y dylid hysbysebu'r swydd ar sail interim am bump i 12 mis "yng ngoleuni'r drafodaeth ynglŷn â natur ansicr dyfodol y Cwmni"
- y gallai anfon yr hysbyseb allan trwy'r e-bost gyda dyddiad cau a oedd "7 i 8 diwrnod yn ddiweddarach a ddylai arwain at benodiad ychydig ddiwrnodau wedi hynny

231 Fe ymatebodd Mr McAuliffe i Mr James yr un diwrnod, gan godi ymholiad pa un a oedd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar radd. Gofynnodd Mr McAuliffe

hefyd i Mr James lunio penderfyniadau ar gyfer y Bwrdd i gymeradwyo manylion ar gyfer terfynu cyflogaeth Mr James fel Rheolwr Cyffredinol y Bwrdd, ac i gymeradwyo'r hysbyseb ar gyfer Rheolwr Cyffredinol newydd.

232 Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, 17 Mehefin 2016, fe gadarnhaodd Mr James ei fod wedi newid yr hysbyseb i'w gwneud yn glir ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr fod wedi'u haddysgu i "lefel gradd" a'i fod wedi ysgrifennu ac atodi penderfyniadau drafft ar gyfer y Bwrdd a oedd yn cynnwys "bod y Cwmni'n hysbysebu ar gyfer swydd Rheolwr Cyffredinol heb gynnwys swyddi Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni yn y Ganolfan Waith am gyfnod penodedig, i ddechrau am gyfnod o ddeuddeng mis".

233 Ar 21 Mehefin 2016, fe lofnododd Mr McAuliffe a Mr Crook benderfyniad diwygiedig y Bwrdd fel a ddangosir yn **Arddangosyn 7**.

**Arddangosyn 7: penderfyniad Bwrdd Silent Valley dyddiedig 21 Mehefin 2016 i derfynu cyflogaeth rheolwr cyffredinol y cwmni a recriwtio rheolwr cyffredinol newydd**

**Penderfyniad Ysgrifenedig y Bwrdd**

Hysbysir drwy hyn FEL A GANLYN:

Bod y Cwmni'n terfynu penodiad DC James fel Rheolwr, Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr ar 31 Awst 2016 gyda thâl yn lle rhybudd (yn unol â'r contract cyflogaeth, a gyfrifir fel 6 mis o gyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar 8 diwrnod fel rheolwr y mis) ac yn gwneud tâl diswyddo sy'n gyfwerth â'r ffi flynyddol i gyfarwyddwr, sef £11,586 fel a gytunwyd yng Nghofnod 1403 Ebrill 2012.

Bod y Cwmni'n hysbysebu ar gyfer swydd Rheolwr Cyffredinol heb gynnwys swyddi Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni yn y Ganolfan Waith am gyfnod penodedig, i ddechrau am gyfnod o ddeuddeng mis.

Ffynhonnell: Cofnodion a phenderfyniadau Bwrdd Silent Valley

234 Ar 22 Mehefin 2016, cafodd swydd wag y Rheolwr Cyffredinol ei hysbysebu ar-lein trwy wasanaeth Universal Jobmatch yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn y rhwydwaith Canolfannau Gwaith cenedlaethol. Pennwyd 1 Gorffennaf 2016 fel y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Felly roedd y broses ymgeisio ar agor am saith niwrnod gwaith.

235 Mae copi o'r hysbyseb ar gyfer y swydd wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**. Mae diffyg manylder yn yr hysbyseb ac nid yw'n nodi:

- Teitl y swydd
- Natur y rôl
- Cyflog
- Lefel hynafedd y rôl (y cyflog cyfwerth ag amser cyflawn adeg penodi oedd oddeutu £120,000)

236 Cafwyd pum cais mewn ymateb i'r hysbyseb. Cafodd pedwar o'r ceisiadau hyn eu cyflwyno ar-lein gan:

- weithiwr cynhyrchu mewn gwaith metel
- cynorthwyydd tirlunio
- cynorthwyydd manwerthu
- cynorthwyydd bar di-waith

237 Cyflwynwyd y pumed cais fel ffurflen gais ar ffurf copi caled. Mr Waggett, Prif Weithredwr blaenorol y Cyngor a oedd wedi gadael ei gyflogaeth gyda'r Cyngor ar 29 Chwefror 2016, oedd yr ymgeisydd. Bu Mr Waggett yn gwasanaethu hefyd fel cyfarwyddwr cyflogedig a benodwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Silent Valley rhwng 15 Ebrill 2011 a 29 Chwefror 2016.

238 28 Mehefin 2016 yw'r dyddiad ar gais Mr Waggett. Mae'r cais yn nodi hanes gyrfaol Mr Waggett gyda'r Cyngor a'i brofiad fel un o gyfarwyddwyr Silent Valley. Mae'r cais hefyd yn nodi cefndir addysgol Mr Waggett. Er bod Mr Waggett yn gyfrifydd cwbl gymwysedig, nid oedd yn meddu ar gymhwyster gradd. Enwodd Mr Waggett ei ganolwyr fel Mr James, Rheolwr Cyffredinol Silent Valley, a Chyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Dros Dro'r Cyngor, a benodwyd i'r rôl hon wedi i Mr Waggett adael ei gyflogaeth fel Prif Weithredwr y Cyngor.

239 Ar 5 Gorffennaf 2016, cyfarfu Bwrdd Silent Valley i drafod penodi Rheolwr Cyffredinol newydd. Dim ond dau o gyfarwyddwyr Bwrdd Silent Valley oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn, sef Mr Crook a Mr James. Tan 29 Chwefror 2016, roedd Mr Crook wedi bod yn atebol i Mr Waggett o fewn eu priod gyflogaethau gyda'r Cyngor, ac roedd Mr Waggett wedi bod yn atebol i Mr James yn flaenorol o fewn y Cyngor. Roedd Mr McAuliffe yn atebol i Mr Waggett tan 29 Chwefror 2016 hefyd, ond nid oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd ar 5 Gorffennaf 2016.

240 Mae cofnodion y Bwrdd yn nodi bod Mr James wedi hysbysu'r Bwrdd:

- bod swydd wag y Rheolwr Cyffredinol wedi cael ei hysbysebu mewn Canolfannau Gwaith "trwy fwrdd swyddi gwag Universal Jobmatch yr Adran Gwaith a Phensiynau" rhwng 22 Mehefin 2016 ac 1 Gorffennaf 2016.
- bod un ffurflen gais wedi'i chwblhau wedi dod i law, ond bod pedwar unigolyn arall wedi dynodi wrth Universal Jobmatch eu bod wedi ymgeisio ond heb ddychwelyd ffurflenni cais. (Rwy'n nodi, er na wnaeth y pedwar unigolyn yma ddychwelyd ffurflen gais a oedd yn cyfateb i'r templed, eu bod

wedi cyflwyno ceisiadau ar-lein a oedd yn cynnwys yr un wybodaeth â'r hyn a oedd yn ofynnol i gwblhau'r ffurflen gais)

- nad oedd gan y pedwar unigolyn a oedd heb gwblhau'r ffurflen gais unrhyw gymwysterau na phrofiad perthnasol.
- ei fod wedi gwahodd yr ymgeisydd a oedd yn weddill, Mr Waggett, i gyfarfod y Bwrdd fel y "gallai'r Bwrdd fwrw ymlaen â chyfweliad os oedd yn dymuno".

241 Mae cofnodion y Bwrdd yn nodi bod Mr Waggett wedi cael ei wahodd i ymuno â'r cyfarfod a bod "y Bwrdd wedi ystyried y ffurflen gais, y swydd-ddisgrifiad a manyleb y person ac yna wedi mynd ymlaen i gyfweld â Mr David Waggett. Ar ddiwedd y cyfweliad fe wnaeth y Bwrdd gynnig y swydd iddo ac fe dderbyniodd yntau".

242 Mae ffeil recriwtio Silent Valley ar gyfer y penodiad yn cynnwys taflen asesu a gwblhawyd ac a lofnodwyd gan Mr James a Mr Crook. Mae'r daflen asesu ar ffurf manyleb y person. Ar bwys pob un o'r gofynion ym manyleb y person, roedd yr aseswyr yn gallu ticio blychau i ddangos pa un a fyddai'r gofyniad hwnnw'n cael ei asesu trwy'r ffurflen gais, cyfweliad, arall, neu gyfnod prawf/coestsio perfformiad.

243 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r gofynion ym manyleb y person wedi cael eu ticio i ddangos eu bod wedi cael eu hasesu trwy'r ffurflen gais, y cyfweliad, ac 'arall'. Gan mai dim ond ffurflen gais a chyfweliad yr oedd y broses recriwtio'n eu cynnwys, nid yw'n amlwg ar ba sail yr oedd tic yn cael ei roi yn y blwch 'arall'. Er bod y daflen asesu'n cynnwys nifer fach o anodiadau megis "Y Ddeddf Cwmnïau", "Cyrff Allanol" ac "Incwm ar ran y Cwmni", nid yw'n amlwg a ddefnyddiwyd yr anodiadau hyn i ofyn cwestiynau, ynteu ai ymatebion a roddwyd gan Mr Waggett oeddent. Nid yw ffeil recriwtio Silent Valley yn cynnwys unrhyw fanylion penodol am y broses asesu a gynhaliwyd, megis cwestiynau a ofynnwyd, ac nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod i ddangos sut y gwnaeth y Bwrdd ei argyhoeddi ei hun bod Mr Waggett yn ateb gofynion manyleb y person.

244 Mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 5 Gorffennaf 2016 yn nodi bod Mr James "wedi atgoffa'r Bwrdd nad oedd unrhyw Gyfarwyddwr (ac Ysgrifennydd) newydd wedi cael ei ganfod na'i benodi a bod y cyfweliad wedi dangos y gallai Mr Waggett gyflawni'r rolau hyn hefyd". Penderfynodd y Bwrdd benodi Mr Waggett yn Rheolwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd gyda'i benodiad yn dechrau'r diwrnod canlynol, 6 Gorffennaf 2016. Pennwyd y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rolau fel a ganlyn:

- £11,569 y flwyddyn fel Cyfarwyddwr Silent Valley.
- £4,937 y flwyddyn fel Ysgrifennydd y Cwmni.
- £394 y dydd fel Rheolwr Cyffredinol Silent Valley (6-8 diwrnod y mis).

245 Mae'r gydnabyddiaeth ariannol uchod yn cyfateb i gyflog cyfwerth ag amser cyflawn o oddeutu £120,000 y flwyddyn.

246 Ni chanfu fy archwilwyr unrhyw dystiolaeth bod y Cwmni wedi gofyn am eirdaon. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn nodi mai Mr James oedd un o ganolwyr Mr Waggett, ac yntau'n un o'r ddau o gyfarwyddwyr Silent Valley a roddodd gyfweliad iddo.

247 Nid yw'n glir i mi pam y penodwyd Mr Waggett yn Ysgrifennydd y Cwmni ar unwaith. Talwyd £822 yr un i Mr Waggett a Mr James am weithredu fel Ysgrifennydd Cwmni Silent Valley rhwng 1 Gorffennaf 2016 a 31 Awst 2016.

248 Nid yw cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 5 Gorffennaf 2016 yn cyfeirio o gwbl at y ffaith mai penodiad dros dro oedd penodiad Mr Waggett, er bod penderfyniad y Bwrdd dyddiedig 21 Mehefin 2016 wedi nodi mai am gyfnod o ddeuddeng mis fyddai'r penodiad i ddechrau (gweler **Arddangosyn 7**) a'i fod wedi cael ei hysbysebu ar y sail honno.

249 Ar 3 Hydref 2016, fe ymrwymodd Silent Valley i 'Gytundeb Gwasanaeth' (contract cyflogaeth i bob pwrpas) gyda Mr Waggett. Nid oedd y ddogfen hon yn nodi mai penodiad dros dro ydoedd, ac mae Mr Waggett yn dal i fod yn y swydd fel Rheolwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd Cwmni Silent Valley. Er bod contract Mr Waggett yn nodi y bydd yn gweithio 6-8 diwrnod y mis fel Rheolwr Cyffredinol y Cwmni, mae Mr Waggett wedi bod yn cael tâl yn gyson am weithio wyth diwrnod y mis.

250 Dywedodd Mr James wrth fy archwilwyr "mewn perthynas â recriwtio [ei olynydd], roedd y cwmni wedi cyflwyno ceisiadau blaenorol i'r Cyngor am gymorth Adnoddau Dynol na ddarparwyd ac a olygodd fod y cwmni wedi gweinyddu'r broses recriwtio". Rhoddodd Mr Crook wybod i'm harchwilwyr fod "y broses recriwtio wedi cael ei thrafod a'i chytuno gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol a Phennaeth Datblygu Sefydliadol y Cyngor". Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol blaenorol y Cyngor wrth fy archwilwyr na wnaeth drafod y broses recriwtio'n gyffredinol gyda Mr Crook a dywedodd wrtho "ei bod yn bwysig iawn o safbwynt y Cyngor bod y broses i recriwtio Rheolwr Cyffredinol SV yn, a bod pawb yn gallu gweld ei bod yn, agored a thryloyw. Fe wnes i bwysleisio mai fy nisgwyliad i oedd y dylai gael ei hysbysebu'n agored ac y dylai, trwy oblygiad, ddilyn arferion recriwtio arferol pennu rhestr fer a dethol ar gyfer cyfweliad a.y.b. Fodd bynnag, ni welais, ni chytunais ac ni lofnodais y trefniadau ar gyfer y broses recriwtio, gan gynnwys er enghraifft ble a sut y byddai'n cael ei hysbysebu". Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol blaenorol wrth fy archwilwyr hefyd nad oedd wedi gweld yr hysbyseb nes iddi gael ei dangos iddo gan fy archwilwyr ar ôl i'm harchwiliad ddechrau.

251 Dywedodd Pennaeth Datblygu Sefydliadol y Cyngor wrth fy archwilwyr:

- nad oedd unrhyw un wedi cysylltu â hi i ddarparu na gofyn iddi ddarparu Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar gyfer Silent Valley ac nad oedd yn ymwybodol y bu cyswllt o'r fath cyn iddi gael ei phenodi.
- nad oedd unrhyw gytundeb na threfniant gan y Cyngor i ddarparu gwasanaeth Adnoddau Dynol.
- nad oedd hi wedi rhoi cyngor ar gyfer unrhyw broses recriwtio, nad oedd wedi bod yn rhan o unrhyw broses recriwtio ac nad oedd wedi gweld manylion unrhyw broses recriwtio ar gyfer unrhyw swyddi yn Silent Valley.
- nad oedd hi wedi gweld yr hysbyseb ar gyfer swydd Rheolwr Cyffredinol Silent Valley nes iddi gael ei dangos iddi gan fy archwilwyr.

252 Rwy'n ystyried bod y broses a nodir uchod a arweiniodd at benodi Mr Waggett yn Rheolwr Cyffredinol Silent Valley yn anghystadleuol ac yn ddiffygiol mewn sawl ffordd berthnasol.

## Ers dechrau fy archwiliad, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn

253 Yn 2011, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Phatrwm ar gyfer Casglu' fel rhan o Gynllun y Sector Trefol. Roedd y Patrwm yn disgrifio'r proffil gwasanaeth a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwastraff cartrefi gyda'r nod o gynorthwyo Timau Gwasanaethau Gwastraff ledled Cymru i ymateb i her y Targedau Adfer Statudol.

254 Bu'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y 'Patrwm ar gyfer Casglu' a sut y gellid darparu gwasanaethau ym Mlaenau Gwent yn y dyfodol, gan sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau i weithio tuag at gyrraedd y Targedau Adfer Statudol.

255 Ar 24 Medi 2014, fe gymeradwyodd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor benderfyniad i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd yr oedd gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu'n cael eu darparu gan y Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys cymhwyso 'Patrwm ar gyfer Casglu' Llywodraeth Cymru, a chyflwyno:

- casgliadau wythnosol ar drothwy'r drws gyda gwastraff wedi'i wahanu yn y tarddle
- casgliadau gwastraff gweddillol bob tair wythnos
- casgliad hylendid wythnosol
- casgliadau gwastraff gwyrdd wythnosol (tymhorol) ar gais

256 Fe arweiniodd y newidiadau y cytunwyd arnynt i'r gwasanaethau at yr angen am newidiadau i'r ffordd yr oedd Silent Valley yn gweithredu'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff, ac felly roedd angen datblygu gofynion diwygiedig o ran gwasanaethau. Daeth y newidiadau hyn i'r gwasanaethau i rym ym mis Hydref 2015.

257 Cafodd safle tirlenwi Cwm ei gau'n derfynol ar 4 Mawrth 2016 gan alluogi'r Cyngor i wneud cynnydd o ran datblygu trefniadau cytundebol diwygiedig gyda Silent Valley.

258 Fe ailddechreuodd trafodaethau ynglŷn â threfniadau cytundebol yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr y Cwmni yn gynnar yn 2016, ac fe fapiwyd gwaith i geisio cymeradwyaeth i roi contract 10 mlynedd newydd trwy Ddyfarniad Uniongyrchol yn 2017.

259 Fel rhan o'r broses hon, roedd angen i'r Cyngor adolygu ei ofynion o ran gwasanaethau a'i drefniadau llywodraethu ar gyfer Silent Valley, gan gynnwys cydymffurfio â dyfarniad Teckal. Wrth ystyried y materion hyn, fe wnaeth

Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro'r Cyngor ar y pryd, ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor ar y pryd, benderfynu y dylid gohirio penderfyniadau tan yn hwyrach yn 2017. Byddai hyn yn rhoi amser i'r Cyngor ystyried pa opsiynau pellach allai fod ar gael heblaw am ddyfarnu contract hirdymor newydd i Silent Valley, a cheisio cyngor cyfreithiol ac ariannol allanol ynghylch yr opsiynau hyn.

260 Ar 7 Rhagfyr 2017, fe gyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol Dros Dro'r Cyngor adroddiad i gyfarfod y Cyngor Llawn a oedd yn nodi pedwar opsiwn ar gyfer darparu gwasanaethau gwastraff ar ran y Cyngor yn y dyfodol. Yr opsiynau hyn oedd:

- parhau â Silent Valley fel 'Cwmni sy'n Cydymffurfio â Dyfarniad Teckal' a dyfarnu contract hirdymor newydd.
- trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau Silent Valley i mewn i'r Cyngor, gyda'r Cyngor yn darparu'r gwasanaethau'n fewnol.
- terfynu'r trefniadau gyda Silent Valley a chynnal proses gaffael gystadleuol.
- unrhyw gyfuniad o'r uchod.

261 Roedd yr adroddiad yn nodi gwerthusiad o bob un o'r opsiynau ac yn cydnabod, pe bai'r Cyngor yn penderfynu darparu'r gwasanaethau'n fewnol a throsglwyddo asedau a rhwymedigaethau Silent Valley yn ôl i'r Cyngor, y byddai angen cynnal ymarfer diwydrwydd dyladwy masnachol, cyfreithiol ac ariannol. Y bwriad oedd y byddai'r ymarfer diwydrwydd dyladwy hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth/Ebrill 2018.

262 Roedd yr adroddiad yn cydnabod hefyd, nes bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud, bod angen adolygu cyfansoddiad Silent Valley oherwydd pryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau. Roedd ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor wedi dynodi bod "penodi swyddogion statudol e.e. Swyddog Adran 151 / Swyddog Monitro yn gallu achosi risgiau pellach o wrthdaro buddiannau posibl. Eu barn oedd, at ei gilydd, ei bod yn ddoeth bod swyddogion o'r fath yn cael eu cadw'n rhydd o rolau cyfarwyddwyr lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn osgoi gwrthdaro posibl o'r fath. Mae hefyd wedi dod yn amlwg, er bod angen i'r Cyngor sicrhau bod y rhai a enwebir i'r Bwrdd yn gallu dod â gwybodaeth a gwerth ychwanegol, y gallai'r gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau a ddarperir achosi i wrthdaro ddigwydd o ddydd i ddydd. Mewn perthynas â'r opsiwn a ffefrir yn yr adroddiad hwn gallai hynny ddod yn risg gynyddol o wrthdaro sy'n gysylltiedig â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'n cyflawni rôl fel un o gyfarwyddwyr y cwmni". Ar y pryd, roedd Prif Swyddog Cyllid a Swyddog a151 y Cyngor, Mr McAuliffe, a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Mr Crook, yn aelodau o Fwrdd Silent Valley.

263 Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cyngor:

- roi cymeradwyaeth mewn egwyddor i 'opsiwn a ffefrir', a oedd yn golygu trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau Silent Valley yn ôl i'r Cyngor a dirwyn Silent Valley i ben, yn amodol ar gwblhau ymarfer diwydrwydd dyladwy a chyflwyno adroddiad ar hyn i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor.

- enwebu dau aelod etholedig o'r Cyngor i weithredu fel cyfarwyddwyr Silent Valley i ddisodli Prif Swyddog Cyllid y Cyngor a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor ar Fwrdd Silent Valley.

264 Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r argymhellion. Ar 19 Mawrth 2018 cafodd penodiadau Mr McAuliffe a Mr Crook fel cyfarwyddwyr ar Fwrdd Silent Valley eu terfynu, a chawsant eu disodli ar Fwrdd Silent Valley gan ddau o aelodau etholedig y Cyngor nad oeddent yn gyfrifol am bortffolios o fewn y maes gwasanaeth na swyddogaethau statudol, gan felly liniaru'r potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau.

265 Fe ffurfiwyd gweithgor o swyddogion ar draws y Cyngor i fwrw ymlaen â'r broses diwydrwydd dyladwy, ac mae gweithgareddau diwydrwydd dyladwy wedi cael eu cyflawni yn y meysydd canlynol:

- cyfreithiol a Chytundebol
- eiddo
- cyflogaeth a Phensiynau
- ariannol
- technegol

266 Mae'r Cyngor wedi sefydlu cyfarfodydd gweithredol misol gyda Silent Valley i gyfarwyddo gweithrediadau'r Cwmni ac i fonitro perfformiad y Cwmni. Sefydlwyd y mecanwaith hwn i alluogi'r Cyngor i fynd ati'n well i arfer rheolaethau ar faterion y Cwmni. Mae adolygu'r gweithgareddau monitro hyn wedi cael ei gynnwys ym mlaenraglen waith Pwyllgor Craffu'r Cyngor. Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad monitro cyntaf ar y Cwmni yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2019.

267 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019, bu'r aelodau'n ystyried adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau'r broses diwydrwydd dyladwy a baratowyd gan ei Reolwr Gyfarwyddwr. Casgliad yr adroddiad oedd, pe byddid yn dod â gweithgareddau Silent Valley, gan gynnwys ei asedau a'i rwymedigaethau, yn ôl i mewn i'r Cyngor, y gallai hyn arwain at osod pwysau sylweddol o ran costau ar gyllideb refeniw flynyddol y Cyngor. Roedd y gweithgor yn ystyried y gallai hyn fod yn anfforddiadwy i'r Cyngor ac yn creu ei bod yn ddoeth ailystyried yr opsiynau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cyngor ar 27 Rhagfyr 2017, ac archwilio unrhyw bosibiliadau pellach.

268 Roedd yr adroddiad yn nodi gwerthusiad y gweithgor o restr hir o opsiynau a oedd wedi cael eu hystyried. Yr opsiynau hyn oedd:

- cydweithio gyda'r Sector Cyhoeddus. Roedd yr opsiwn hwn yn golygu ceisio partner yn y sector cyhoeddus â gwasanaethau tebyg neu ddyhead i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan Silent Valley ar ran y Cyngor.
- trosglwyddo'r Gwasanaethau i mewn i'r Cyngor.
- cadw'r model Teckal presennol, h.y. parhau â'r sefyllfa fel ag y mae.
- cwmni masnachu awdurdod lleol.

- proses gaffael ar gyfer gwasanaeth ar gontract allanol.

269 Roedd yr adroddiad yn nodi mai'r model ar gyfer cydweithio gyda'r sector cyhoeddus oedd wedi cael y sgôr uchaf, ac yn argymell "Cymeradwyo Opsiwn 1 – Cydweithio gyda'r Sector Cyhoeddus (Cydwasanaethau)", a hefyd:

- rhoi cymeradwyaeth i swyddogion geisio partner yn y sector cyhoeddus â gwasanaethau tebyg neu ddyhead i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan Silent Valley ar ran y Cyngor.
- pe na bai digon o ddiddordeb gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus i fwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir, dylai swyddogion ddatblygu cynllun wrth gefn ar gyfer darparu'r gwasanaethau.
- i liniaru'r risgiau o ddihysbyddu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol y bydd eu hangen i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau ôl-ofal y safle tirlenwi, dylai'r Cyngor archwilio opsiynau ar gyfer sicrhau cronfeydd wrth gefn digonol i dalu'r costau a rhwymedigaethau asesedig hyd at 2076.

270 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019 yn nodi bod yr aelodau wedi cymeradwyo'r argymhellion uchod.

271 Cynhaliodd y Cyngor ei ymarfer meddal i brofi'r farchnad yn hydref 2020. Cafodd un Mynegiant o Ddiddordeb, ac fe gyflwynwyd cynllun busnes gan Silent Valley yn nodi sut y byddai'n parhau i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau. Mae ymarfer diwydrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal ar y cynllun busnes, ac yn awr mae swyddogion y Cyngor yn ceisio cwblhau'r adolygiad, a chyflwyno argymhellion priodol i gyfarfod o'r Aelodau i'w hystyried.

272 Nid yw fy archwilwyr wedi asesu trefniadau arfaethedig y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, rwyf wedi f'argyhoeddi bod y Cyngor wedi cydnabod bod y trefniadau blaenorol yn anfoddhaol, ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 1

## Hysbyseb Silent Valley ar Rwydwaith y Ganolfan Waith ar gyfer Rheolwr Cyffredinol newydd

Job Centre Advert

Company : Silent Valley Waste Services Ltd

Location: Cwm, Ebbw Vale, Wales

Industry: Waste Management

Status; Temporary Part Time

Career Level : n/a

Education Level: Degree level / Relevant Professional Qualification

Salary: Competitive negotiable upon appointment

Hours of work: 6-8 days per month for 12 months

Contact Information Phone
Email

Application Form available for download.

Closing Date 29th June

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.